

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal  
Cymdeithasol (Cymru):  
Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1**

Gorffennaf 2015

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565

E-bost: [Seneddlechyd@cynulliad.cymru](mailto:Seneddlechyd@cynulliad.cymru)

Twitter: [@Seneddlechyd](https://twitter.com/Seneddlechyd)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal  
Cymdeithasol (Cymru):  
Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1**

Gorffennaf 2015

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei chylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cynnwys: iechyd corfforol, meddyliol a chyhoeddus pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**David Rees (Cadeirydd)**  
Llafur Cymru  
Aberafan



**Alun Davies**  
Llafur Cymru  
Blaenau Gwent



**John Griffiths**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Casnewydd



**Altaf Hussain**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin De Cymru



**Elin Jones**  
Plaid Cymru  
Ceredigion



**Darren Millar**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin Clwyd



**Lynne Neagle**  
Llafur Cymru  
Torfaen



**Gwyn R Price**  
Llafur Cymru  
Islwyn



**Lindsay Whittle**  
Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru



**Kirsty Williams**  
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Brycheiniog a Sir Faesyfed

---

Yn ystod y gwaith o graffu ar y Bil, roedd yr Aelod canlynol yn aelod o'r Pwyllgor hefyd.



**Janet Finch-Saunders**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Aberconwy

## Cynnwys

---

<b>Rhagair y Cadeirydd</b> .....	<b>9</b>
<b>Argymhellion y Pwyllgor</b> .....	<b>10</b>
<b>1. Cyflwyniad</b> .....	<b>18</b>
Y cefndir.....	18
Cylch gorchwyl .....	18
<b>2. Cefndir y Bil</b> .....	<b>20</b>
Cymhwysedd i ddeddfu .....	20
Datblygu'r Bil.....	20
Diben ac effaith arfaethedig y Bil .....	21
<b>3. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth</b> .....	<b>23</b>
Yr egwyddorion cyffredinol.....	23
Cymar i Ddeddf 2014? .....	25
Cydbwysedd yr is-ddeddfwriaeth a'r trefniadau trosiannol .....	26
Barn y Pwyllgor.....	28
Ymagwedd wedi'i seilio ar hawliau .....	28
Barn y Pwyllgor.....	30
Darpariaeth ynglŷn a'r Gymraeg.....	31
<b>4. Ymgysylltu â'r cyhoedd</b> .....	<b>33</b>
Ymgysylltu â'r cyhoedd.....	33
Barn y Pwyllgor.....	35
Cydnabod gofalwyr.....	35
Barn y Pwyllgor.....	35
Arolygwyr lleyg .....	36
Barn y Pwyllgor.....	39
<b>5. Atebolrwydd a thryloywder</b> .....	<b>41</b>
Datganiadau blynyddol .....	41
Barn y Pwyllgor.....	43
"Unigolyn cyfrifol" .....	44

Barn y Pwyllgor .....	46
Addasrwydd i fod yn berchennog.....	47
Barn y Pwyllgor .....	48
Chwythu'r chwiban .....	48
Barn y Pwyllgor .....	50
Hawl i apelio i ddefnyddwyr gwasanaethau .....	51
Barn y Pwyllgor .....	52
<b>6. Gwasanaethau rheoleiddiedig .....</b>	<b>53</b>
Ymestyn y gwasanaethau y mae'n ofynnol eu cofrestru .....	53
Barn y Pwyllgor .....	56
Rheoleiddio modelau cyflwyno gwasanaethau sy'n dod i'r golwg ...	56
Barn y Pwyllgor .....	57
Model cofrestru wedi'i seilio ar y gwasanaeth .....	58
Barn y Pwyllgor .....	60
Diwylliant rheoleiddio yn y sector gofal cymdeithasol .....	60
Barn y Pwyllgor .....	61
<b>7. Diffinio 'gofal' .....</b>	<b>63</b>
Diffinio 'gofal' .....	63
Barn y Pwyllgor .....	65
<b>8. Arolygiadau .....</b>	<b>67</b>
Y gyfundrefn arolygu .....	67
Barn y Pwyllgor .....	70
Darpariaeth i siarad yn breifat ag arolygwyr .....	70
Barn y Pwyllgor .....	71
Graddau ansawdd .....	71
Barn y Pwyllgor .....	76
<b>9. Pŵer i godi ffioedd .....</b>	<b>78</b>
Pŵer i godi ffioedd .....	78
Barn y Pwyllgor .....	81
<b>10. Gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol .....</b>	<b>83</b>

Gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol .....	83
Barn y Pwyllgor .....	89
“Gofal 15-munud” .....	90
Barn y Pwyllgor .....	91
<b>11. Sefydlogrwydd y farchnad a chynaliadwyedd ariannol .....</b>	<b>92</b>
Y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru .....	92
Adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad .....	92
Y gofyniad ynglŷn ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad .	92
Byrddau iechyd lleol .....	94
Cynnwys a mynychder adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad	94
Barn y Pwyllgor .....	96
Capasiti i lunio adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad .....	97
Barn y Pwyllgor .....	99
Cynaliadwyedd ariannol darparwyr gofal cymdeithasol .....	100
Meini prawf ynglŷn â darparwyr .....	100
Barn y Pwyllgor .....	101
Effaith cyfundrefn goruchwylio’r farchnad .....	101
Barn y Pwyllgor .....	105
Capasiti i oruchwylio’r farchnad .....	106
Barn y Pwyllgor .....	107
<b>12. Gofal Cymdeithasol Cymru .....</b>	<b>108</b>
Cylch gorchwyl Gofal Cymdeithasol Cymru .....	108
Barn y Pwyllgor .....	113
Ailfrandio Cyngor Gofal Cymru .....	113
Barn y Pwyllgor .....	114
Pwerau i wneud rheolau .....	115
Barn y Pwyllgor .....	116
<b>13. Y gweithlu gofal cymdeithasol .....</b>	<b>117</b>
Cofrestru .....	117
Effaith cofrestru .....	119

Ymestyn cofrestru .....	120
Barn y Pwyllgor .....	125
Gofalwyr maeth .....	125
Barn y Pwyllgor .....	126
Modelau rheoleiddio eraill .....	127
Barn y Pwyllgor .....	130
Eglurder y derminoleg ynglŷn â'r gweithlu gofal cymdeithasol .....	130
Barn y Pwyllgor .....	133
Safonau ymddygiad ac addysg .....	134
Proffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol .....	134
Gweithio ar y cyd a chydweithredu o ran addysg a hyfforddiant .....	135
Barn y Pwyllgor .....	137
Contractau dim oriau .....	137
Barn y Pwyllgor .....	138
Gorchmynion gwahardd .....	138
Barn y Pwyllgor .....	140
<b>14. Cydweithredu a gweithio ar y cyd .....</b>	<b>141</b>
Cydweithredu a gweithio ar y cyd â rheoleiddwyr eraill .....	141
Barn y Pwyllgor .....	144
Integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol .....	144
Barn y Pwyllgor .....	146
<b>15. Y goblygiadau ariannol .....</b>	<b>148</b>
Pryderon ariannol .....	149
Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol .....	149
Barn y Pwyllgor .....	150
Y goblygiadau ariannol i'r rheoleiddiwr gwasanaethau .....	150
Y goblygiadau ariannol i reoleiddiwr y gweithlu .....	152
Y goblygiadau ariannol i'r awdurdodau lleol .....	153
Costau ychwanegol i ddarparwyr gwasanaethau .....	153
Goblygiadau ariannol is-ddeddfwriaeth .....	155



Barn y Pwyllgor .....	156
<b>Atodiad A – Tystion .....</b>	<b>157</b>
<b>Atodiad B – Tystiolaeth ysgrifenedig .....</b>	<b>160</b>



## Rhagair y Cadeirydd

---


Mae llawer o bobl yng Nghymru, gan gynnwys rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, yn dibynnu ar ofal y gwasanaethau cymdeithasol a'r bobl sy'n eu cyflwyno. Mae'n hanfodol, felly, fod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu â thrugaredd, yn ôl safon uchel, a chan gydnabod urddas a llesiant pobl, a'r canlyniadau y maen nhw'n dymuno eu sicrhau.

Er hynny, trist dweud bod gormod o enghreifftiau wedi bod lle mae pobl wedi'u siomi gan ofal gwael.

Gan hynny, rydym yn ategu egwyddorion cyffredinol Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), a fydd yn diwygio'r gyfundrefn ynglŷn â rheoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. Rydym yn croesawu darpariaethau megis enwi unigolion cyfrifol uwch a fydd yn bersonol atebol am safon y gwasanaethau rheoleiddiedig, dyletswyddau newydd ar yr awdurdodau lleol ac ar AGGCC i oruchwylio a llunio'r farchnad gofal cymdeithasol, a phwerau i gyflwyno graddau ansawdd ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig ac awdurdodau lleol. Gobeithio y bydd y rhain yn arwain at sector gofal cymdeithasol mwy atebol, mwy tryloyw, a mwy sefydlog yng Nghymru.

Er hynny, os yw'r Bil am wireddu ei fwriad, a sicrhau ei fod yn adlewyrchu uchelgais Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae meysydd allweddol lle rydym o'r farn bod angen ei gryfhau, gan gynnwys, ymhlith eraill, cofrestru'r gweithlu, cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â hwy yn y gyfundrefn arolygu a rheoleiddio, goruchwylio swyddogaethau comisiynu'r awdurdodau lleol, a threfniadau ar gyfer gweithio ar y cyd a chydweithredu rhwng y cyrff a'r awdurdodau rheoleiddio perthnasol.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i rannu eu barn gyda ni. Mae'n hargymhellion yn adlewyrchu'r dystiolaeth a gawsom, ac rydym yn edrych ymlaen at glywed ymateb y Gweinidog.



**David Rees AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Gorffennaf 2015**

## Argymhellion y Pwyllgor

---

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru wedi'u rhestru isod, yn y drefn y gwelir nhw yn yr adroddiad hwn. Gweler y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

**Argymhelliad 1.** y dylai'r Cynulliad gytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil. (Tudalen 24)

**Argymhelliad 2.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu at y Pwyllgor ar ôl i adolygiad annibynnol Dr Margaret Flynn ar Ymgyrch Jasmine gael ei gyhoeddi er mwyn nodi ei ymateb i argymhellion Dr Flynn, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, sut mae pob un naill ai wedi'i gymryd i ystyriaeth eisoes yn y Bil, neu am gael ei drafod drwy gyfrwng gwelliannau. (Tudalen 25)

**Argymhelliad 3.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fynd ati, cyn diwedd toriad haf 2015, i nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer rhoi'r Bil ar waith. (Tudalen 28)

**Argymhelliad 4.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol i bawb sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. (Tudalen 31)

**Argymhelliad 5.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i adran 40(4) o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr gwasanaethau gynnwys cyfeiriad yn ei adroddiad blynyddol at effaith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, ar ben Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. (Tudalen 31)

**Argymhelliad 6.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad yn nodi ei ddisgwyliadau ynghylch sut y bydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru'n ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn cynnwys y cyhoedd yn eu swyddogaethau rheoleiddio a'u swyddogaethau eraill.  
(Tudalen 35)

**Argymhelliad 7.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried a ddylai gofynion ychwanegol gael eu cynnwys ar wyneb y Bil i sbarduno gwelliannau o ran cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd wrth reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol.  
(Tudalen 35)

**Argymhelliad 8.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau er mwyn sicrhau bod gofalfyr yn cael eu cydnabod drwy'r Bil i gyd, er enghraifft, yn adrannau 33, 39, 55 a 70.  
(Tudalen 36)

**Argymhelliad 9.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i osod gofyniad ar wyneb y Bil i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gynnwys defnyddio arolygwyr lleig fel rhan annatod o'u hymagwedd at reoleiddio ac arolygu.  
(Tudalen 40)

**Argymhelliad 10.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymgynghori â'r rhanddeiliaid ynghylch fformat a chynnwys y datganiadau blynyddol a'r adroddiadau blynyddol sy'n angenrheidiol o dan adran 8 o'r Bil, ac o dan adran 144A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (sydd i'w mewnosod gan adran 55 o'r Bil), cyn gwneud rheoliadau ynglŷn â'r adrannau hynny.  
(Tudalen 44)

**Argymhelliad 11.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol amlinellu sut y bydd y darpariaethau sy'n ymwneud ag unigolion cyfrifol yn gymwys i sefydliadau ar lefel y Deyrnas Unedig neu sefydliadau amlwladol sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, a hynny cyn diwedd toriad haf 2015.  
(Tudalen 46)

**Argymhelliad 12.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adolygu'r darpariaethau yn y Bil er mwyn sicrhau bod yna ddigon o amddiffyniad i atal unigolion anaddas rhag darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.  
(Tudalen 48)

**Argymhelliad 13.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol i reoliadau o dan adran 26 a chanllawiau o dan adran 28 gynnwys gofynion bod rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gael polisiau a gweithdrefnau priodol ynglŷn â chwythu'r chwiban. (Tudalen 51)

**Argymhelliad 14.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol barhau i adolygu'r trefniadau sydd wedi'u nodi yn adrannau 19, 21 a 24 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn sicrhau bod y dulliau ar gyfer ailasesu ac adolygu penderfyniadau o ran cymhwystra unigolion yn gadarn ac yn darparu iawn priodol. (Tudalen 52)

**Argymhelliad 15.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i gynnwys gofyniad ar wyneb y Bil bod rhaid i wasanaethau eiriolaeth gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. (Tudalen 56)

**Argymhelliad 16.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad i nodi sut mae'n bwriadu monitro ac asesu a ddylai'r gofyniad bod rhaid cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gael ei ymestyn i wasanaethau ataliol, a modelau arloesol o gyflwyno gwasanaethau sy'n codi o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. (Tudalen 57)

**Argymhelliad 17.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol amlinellu'r trefniadau a'r cymorth a fydd ar gael i ddarparwyr gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod pontio tuag at fodel cofrestru sydd wedi'i seilio ar y gwasanaeth o dan y Bil. (Tudalen 60)

**Argymhelliad 18.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol amlinellu sut y bydd y Bil yn sicrhau diwylliant o reoleiddio ac arolygu lle nad yw'r ffrydiau cefnogi a gwella yng ngwaith Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn cyfaddawdu'r broses o reoleiddio a gorfodi cadarn ac effeithiol. (Tudalen 62)

**Argymhelliad 19.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i'r diffiniad o 'gofal' yn adran 3 o'r Bil er mwyn sicrhau ei fod yn cymryd i ystyriaeth y diffiniad o 'llesiant' yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. (Tudalen 65)

**Argymhelliad 20.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i adrannau 26(1) a (3) i'w gwneud yn ofynnol bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o ran gwasanaethau rheoleiddiedig yn hytrach na chaniatáu iddyn nhw eu gwneud. (Tudalen 66)

**Argymhelliad 21.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i adran 26 i'w gwneud yn ofynnol llunio datganiad am yr ymgynghori a gynhaliwyd o dan adran 26(5) i gyd-fynd â rheoliadau drafft ynghylch gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau, gan gynnwys safon y gofal a'r cymorth y mae'n rhaid eu darparu. (Tudalen 66)

**Argymhelliad 22.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi rhagor o fanylion cyn diwedd toriad haf 2015 am sut mae'n rhag-weld y bydd y darpariaethau o ran arolygu wedi'i seilio ar ganlyniadau yn gweithio'n ymarferol, ac a ddisgwylir y bydd yna oblygiadau o ran adnoddau neu gapasiti i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn sgil hynny. (Tudalen 70)

**Argymhelliad 23.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau er mwyn cynnwys o fewn adran 33 o'r Bil, ac adran 161 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (i'w mewnosod gan adran 56 o'r Bil), ddarpariaeth i arolygwyr gael siarad â gofawyr defnyddwyr gwasanaethau, eu teulu neu bobl berthnasol eraill yn breifat. (Tudalen 71)

**Argymhelliad 24.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gynnwys gofynion bod rhaid i arolygwyr gael eu hyfforddi'n briodol i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau sydd ag anghenion cyfathrebu penodol yn y codau ymarfer o ran arolygu sydd i'w cyhoeddi o dan adran 32 o'r Bil, ac adran 161A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (i'w mewnosod gan adran 56 o'r Bil). (Tudalen 71)

**Argymhelliad 25.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori'n eang â'r sector gofal cymdeithasol cyn gwneud rheoliadau o dan adran 35 o ran sefydlu system graddau ansawdd. (Tudalen 76)

**Argymhelliad 26.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gynnwys darpariaeth, wrth wneud rheoliadau o dan adran 35, ar gyfer:

- hawl i ddarparwyr gwasanaethau ofyn am ailrolygiad;
- ffioedd am ailrolygu ar y sail bod y gost lawn yn cael ei hadennill; a
- dulliau diogelu priodol i sicrhau bod amseriad ailrolygiadau'n briodol i helpu gwelliannau ac i sicrhau bod gwybodaeth fanwl-gywir ac amserol ar gael i'r cyhoedd. (Tudalen 77)

**Argymhelliad 27.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i adran 38 i'w gwneud yn ofynnol cael datganiad ynghylch yr ymgynghori a gynhaliwyd o dan adran 38(3) i gyd-fynd â rheoliadau drafft yn sefydlu cyfundrefn ffioedd. (Tudalen 82)

**Argymhelliad 28.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i osod dyletswydd ar Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i adolygu gwaith comisiynu'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol ym maes gwasanaethau gofal cymdeithasol yn erbyn canlyniadau ansawdd bywyd. (Tudalen 89)

**Argymhelliad 29.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol i adroddiadau lleol ar sefydlogrwydd y farchnad gynnwys dadansoddiad o waith comisiynu, rôl y trydydd sector, mentrau cydweithredol a mentrau cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau, a'r farchnad lafur a chynlluniau gweithlu. (Tudalen 97)

**Argymhelliad 30.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i gynnwys gofynion ar wyneb y Bil ynglŷn ag ymgynghori â'r sector gofal cymdeithasol cyn gwneud rheoliadau o dan adran 144B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (sydd i'w mewnosod gan adran 55 o'r Bil) ac adran 62 o'r Bil o ran cynnwys a fformat adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. (Tudalen 97)



**Argymhelliad 31.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau er mwyn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd ac â byrddau Iechyd Lleol perthnasol i lunio adroddiadau lleol ar sefydlogrwydd y farchnad.  
(Tudalen 100)

**Argymhelliad 32.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r cymorth a'r adnoddau a fydd yn cael eu darparu i'r awdurdodau lleol ac i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i sicrhau bod y capasiti a'r arbenigedd cywir ar gael i lunio adroddiadau lleol a chenedlaethol ar sefydlogrwydd y farchnad.  
(Tudalen 100)

**Argymhelliad 33.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau er mwyn cynnwys gofynion i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol cyn gwneud rheoliadau o dan adran 58 o ran goruchwyllo'r farchnad.  
(Tudalen 101)

**Argymhelliad 34.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth wneud rheoliadau o dan adran 58 i sefydlu'r meini prawf ar gyfer cynnwys darparwyr mewn gwiriadau goruchwyllo'r farchnad a gwiriadau cynaliadwyedd ariannol, sicrhau bod y meini prawf yn ddigon hyblyg i fod yn briodol i ddarparwyr o bob maint sy'n arwyddocaol yn eu marchnadoedd lleol.  
(Tudalen 106)

**Argymhelliad 35.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi sut y bydd yn sicrhau bod gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru adnoddau priodol a'r arbenigedd angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau o ran cyfundrefn goruchwyllo'r farchnad.  
(Tudalen 107)

**Argymhelliad 36.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad yn nodi sut y bydd trefniadau llywodraethu Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wedd newydd yn sicrhau na fydd gwrthdrawiad buddiannau, neu'r argraff o wrthdrawiad buddiannau, rhwng eu swyddogaethau rheoleiddio a'u swyddogaethau eraill.  
(Tudalen 113)

**Argymhelliad 37.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi rhagor o fanylion ynghylch pam mae angen ailfrandio Cyngor Gofal Cymru fel Gofal Cymdeithasol Cymru.  
(Tudalen 115)

**Argymhelliad 38.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymestyn y gofynion ar wyneb y Bil ynglŷn â chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnwys gweithwyr gofal cartref a gweithwyr preswyl gofal oedolion. (Tudalen 125)

**Argymhelliad 39.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud rhagor o waith i ystyried a fyddai'n briodol ymestyn y gofyniad bod rhaid cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ofalwyr maeth. (Tudalen 127)

**Argymhelliad 40.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ailystyried a yw'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio yn darparu digon o hyblygrwydd i ymateb i anghenion rheoleiddio gweithlu gofal cymdeithasol y dyfodol. (Tudalen 130)

**Argymhelliad 41.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod y derminoleg a ddefnyddir yn y Bil yn rhoi eglurder i'r sector gofal cymdeithasol a'r cyhoedd ynghylch pa ddarpariaethau sy'n ymwneud â gweithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, pa rai sy'n ymwneud â gweithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru gyda rheoleiddwyr eraill, a pha rai sy'n ymwneud â gweithwyr gofal cymdeithasol anghofrestredig. (Tudalen 134)

**Argymhelliad 42.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol edrych ar gyfleoedd i'r cyrff rheoleiddio a'r awdurdodau perthnasol mewn gofal cymdeithasol ac iechyd weithio ar y cyd a chydweithredu wrth arfer eu swyddogaethau ynglŷn ag addysg a datblygu'r gweithlu. (Tudalen 137)

**Argymhelliad 43.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r sector gofal cymdeithasol a llunio asesiad effaith rheoleiddiol cyn gwneud rheoliadau o dan adran 163 i gyflwyno gorchmynion gwahardd. (Tudalen 140)

**Argymhelliad 44.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r rhestr lawn o awdurdodau rheoleiddio y mae'n bwriadu eu cynnwys yn adran 175, a darparu diweddariad am ei drafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig cyn diwedd toriad haf 2015. (Tudalen 144)

**Argymhelliad 45.** y dylai pob cytundeb a chydyniad perthnasol gael ei sicrhau, os oes modd, oddi wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig cyn i Filiau Llywodraeth Cymru gael eu cyflwyno. (Tudalen 144)

**Argymhelliad 46.** y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol amlinellu sut y bydd darpariaethau'r Bil yn rhoi sylfaen ar gyfer gwaith ar y cyd rhwng rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gan sicrhau bod gwaith rheoleiddio ac arolygu mewn gofal cymdeithasol yn ddigon hyblyg i ymateb i ganlyniadau'r Papur Gwyrdd ar Ansawdd y GIG. (Tudalen 147)

# 1. Cyflwyniad

---

## Y cefndir

1. Cafodd [Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#) (“y Bil”), a’r [Memorandwm Esboniadol](#) sy’n cyd-fynd ag ef, eu cyflwyno ar 23 Chwefror 2015 gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford AM (“y Gweinidog”). Yn rhinwedd ei swydd fel yr Aelod sy’n gyfrifol am y Bil, gwnaeth y Gweinidog [ddatganiad](#) am y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Chwefror 2015.

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad y byddai’n cyfeirio’r Bil at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (“y Pwyllgor”) er mwyn i’r egwyddorion cyffredinol gael eu hystyried. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai’r Pwyllgor gyflwyno adroddiad erbyn 3 Gorffennaf 2015.<sup>1</sup>

## Cylch gorchwyl

3. Cytunodd y Pwyllgor y byddai, wrth graffu ar y Bil, yn ystyried y canlynol:

- egwyddorion cyffredinol Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), a’r angen am ddeddfwriaeth i ddarparu ar gyfer y canlynol:
  - diwygio’r broses reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth;
  - darparu fframwaith rheoleiddio sy’n ei gwneud yn ofynnol i reoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth mewn ffordd sy’n canolbwyntio ar y canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau;
  - diwygio’r drefn arolygu ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol;
  - ad-drefnu Cyngor Gofal Cymru a’i ailenwi’n Gofal Cymdeithasol Cymru, gan ehangu ei gwmpas; a
  - diwygio’r dull o reoleiddio’r gweithlu gofal cymdeithasol;

---

<sup>1</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Busnes, [Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol \(Cymru\)](#), Chwefror 2015

- ai'r ffordd orau o gyflawni'r dibenion hyn yw drwy ddarpariaethau'r Bil;
- a fyddai unrhyw ddarpariaethau ychwanegol yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y Bil yn gallu cyflawni'r dibenion hyn;
- y rhwystrau posibl i weithredu'r darpariaethau hyn ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- goblygiadau ariannol y Bil fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol; a
- pha mor briodol yw'r pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi canllawiau ac i Gofal Cymdeithasol Cymru wneud rheolau.

4. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan amrediad o sefydliadau ac unigolion (gweler Atodiad A). Cyhoeddodd alwad gyffredinol hefyd am dystiolaeth a thargedu ymgynghoriad ysgrifenedig ar y rhanddeiliaid allweddol (gweler Atodiad B). Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at ei waith.

## 2. Cefndir y Bil

---

### Cymhwysedd i ddeddfu

5. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn dweud bod gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol yn rhinwedd [Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006](#), ac yn benodol pwnc 15 (lles cymdeithasol). Meysydd cymhwysedd eraill sy'n berthnasol yw pwnc 12 (llywodraeth leol), pwnc 14 (gweinyddiaeth gyhoeddus), a phwnc 5 (addysg a hyfforddiant).
6. Cyhoeddodd y Llywydd [ddatganiad](#) ar 23 Chwefror 2015 a ddywedodd ei bod o'r farn y byddai darpariaethau'r Bil, fel y'u cyflwynwyd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.
7. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn fodlon bod yr holl ddarpariaethau yn y Bil yn gydnaws â gofynion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("ECHR").<sup>2</sup>
8. Ar sail y ddau gadarnhad hyn, a'r dystiolaeth sydd wedi dod i law, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y Bil yn cydymffurfio ag Erthygl 1 o Brotocol 1 o'r ECHR, a'i fod yn ymgorffori gofynion tegwch, annibyniaeth a didueddwch y gofynnir amdany'n nhw yn Erthygl 6. Mae'n fodlon hefyd fod amcanion y Bil yn nodau dilys sy'n cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth posibl â'r hawliau a roddir i unigolyn gan Erthygl 8, a bod unrhyw ymyrraeth o'r fath yn gymesur yn sgil y darpariaethau a geir yn y Bil. Mae'r Pwyllgor wedi'i fodloni bod manteision ac anfanteision unrhyw gamau a allai fod yn gyfystyr ag ymyrryd â mwynhad meddiannau, megis dirymu trwydded i weithredu gofal cartref, wedi'u cyfiawnhau wrth fynd ar drywydd y nod a enwyd.

### Datblygu'r Bil

9. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu](#) yn 2011. Nododd y fframwaith hwn raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio darpariaeth gofal a chymorth yng Nghymru, gan gynnwys cynigion ynglŷn â newid y deddfwriaeth. Bwriad gwreiddiol Llywodraeth Cymru oedd cynnig un Bil Gwasanaethau Cymdeithasol i Gymru. Cynhaliwyd [ymgyngoriad cyhoeddus](#) ar y cynigion deddfu ym mis Mawrth 2012.

---

<sup>2</sup> [RISC AI02 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Mai 2015](#)

Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd ar 28 Mehefin 2012 ei bod yn bwriadu dileu darpariaethau ynglŷn â rheoleiddio ac arolygu'r gweithlu gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru o'r Bil hwnnw, a'u cynnwys mewn deddfwriaeth ar wahân.<sup>3</sup>

10. Wedyn cafodd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ei gyflwyno ym mis Ionawr 2013. Cafodd [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) ("Deddf 2014") y Cydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2014, gan sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd i'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

11. Ym mis Ionawr 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Bapur Gwyn ar Ddyfodol Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth yng Nghymru](#). Cyhoeddwyd [crynodedb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad](#) ym mis Ebrill 2014.

### **Diben ac effaith arfaethedig y Bil**

12. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, nodau'r Bil yw sicrhau llesiant dinasyddion a gwella ansawdd gofal a chymorth yng Nghymru. Yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Chwefror 2015, dywedodd y Gweinidog ei fod yn bwriadu i'r Bil gynnig "fframwaith cyfreithiol effeithiol ar gyfer rheoleiddio'r dulliau newydd a osodwyd gan Ddeddf 2014".<sup>4</sup>

13. Mae Llywodraeth Cymru'n tynnu sylw yn y Memorandwm Esboniadol at yr angen i ddysgu gwersi yn sgil Ymgyrch Jasmine – sydd ar hyn o bryd yn destun adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i gamdriniaeth ac esgeulustod mewn cartrefi gofal yn ne Cymru – a digwyddiadau difrifol megis Southern Cross, Mid-Staffordshire a Winterbourne View, yr oedd rhai ohonyn nhw'n cynnwys camdriniaeth ac esgeulustod troseddol yn erbyn oedolion bregus. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y gwersi hyn yn cynnwys pwysigrwydd sefydlogrwydd yn y farchnad, lleihau'r risg y bydd darparwyr yn methu, a chydabod nad y rhai sydd yn y rheng flaen yn unig a ddylai gael y bai i gyd am gamdriniaeth neu esgeulustod.

---

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, Gwenda Thomas (Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol), [Diweddariad ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol \(Cymru\) yn dilyn yr Ymgynghoriad](#), Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 28 Mehefin 2012

<sup>4</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn, [Cofnod y Trafodion](#), 24 Chwefror 2015

14. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud hefyd fod y Bil yn bwriadu adolygu a mireinio safonau gofynnol, rheoliadau a rheolau deublyg a diangen.

15. Mae'r Bil yn cynnig gwneud newidiadau er mwyn:

- diwygio'r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth - sy'n cynnwys model newydd o reoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaeth, darpariaethau i fonitro gweithrediad y farchnad ofal, darpariaethau i ymgysylltu'n well â'r cyhoedd, a phwerau i gyflwyno graddau ansawdd arolygu a chodi ffioedd;
- diwygio'r drefn arolygu a rheoleiddio swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol drwy ddiwygio Deddf 2014 - sy'n cynnwys ystyried canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau mewn adolygiadau o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol, cynnwys y cyhoedd yn fwy, a dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i adrodd ar farchnadoedd lleol am wasanaethau gofal cymdeithasol;
- ailgyfansoddi ac ailenwi Cyngor Gofal Cymru yn 'Gofal Cymdeithasol Cymru' ac ehangu ei gylch gwaith mewn perthynas â gwella gwasanaethau; i gynnwys rhoi cyngor a chymorth (gan gynnwys grantiau) i ddarparwyr gwasanaethau gofal a chymorth, ac ymgymryd ag astudiaethau ymchwil; a
- diwygio'r broses o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol - sy'n cynnwys cael gwared ar gofrestru gwirfoddol a chyflwyno gorchmynion gwahardd. Nid yw'n ymestyn cofrestru i gategoriâu newydd o staff, ond mae'n darparu pwerau i wneud hynny.



### 3. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

---

#### Yr egwyddorion cyffredinol

16. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn credu bod angen y Bil am mai rheoleiddio oedd y mecanwaith ar gyfer pennu safonau gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed, arolygu'r safonau hynny a chynnal y safonau hynny.<sup>5</sup> Roedd y rhanddeiliaid, gan gynnwys y rheoleiddwyr, defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r trydydd sector, yn cytuno bod angen deddfu er mwyn diwygio gwaith rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol ac er mwyn codi safonau. Roedden nhw'n cefnogi'r Bil fel cyfrwng priodol mewn deddfwriaeth i gydgrynhoi a mireinio'r ddarpariaeth bresennol, ac i gyflwyno pwerau newydd i sicrhau'r diwygiadau angenrheidiol.

17. Dywedodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ("AGGCC") wrth y Pwyllgor eu bod yn ceisio arloesi ac ystyried dulliau newydd yn eu gwaith arolygu a gorfodi, ond bod fframwaith y ddeddfwriaeth bresennol yn cyfyngu ar eu gallu i arloesi.<sup>6</sup> Nododd AGGCC fod y mwyafrif o'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn bodloni'r safonau presennol,<sup>7</sup> ond roedden nhw'n croesawu'r Bil fel fframwaith modern a hyblyg ar gyfer gwelliant drwy sicrhau mwy o gysondeb rhwng: disgwyliadau unigolion, eu llesiant a'u canlyniadau; cyflwyno gwasanaethau cymdeithasol; a rheoleiddio.<sup>8</sup>

18. Dywedodd Cyngor Gofal Cymru ("y Cyngor Gofal") fod llawer o'r Bil yn cydgrynhoi ac yn ailddatgan darpariaethau presennol o ran rheoleiddio'r gweithlu. Er hynny, nododd y byddai cylch gorchwyl newydd Gofal Cymdeithasol Cymru o ran gwella gwasanaethau yn sicrhau mwy o gydlynedd wrth sbarduno gwelliannau yn y sector.<sup>9</sup>

---

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 7-8\]](#), 25 Mawrth 2015 DS: oni nodir yn wahanol, mae'r cyfeiriadau dilynol yn yr adroddiad hwn at "Cofnod y Trafodion" yn gyfeiriadau at drafodion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

<sup>6</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>7</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 123\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>8</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 110\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>9</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y gallai'r Bil helpu i fireinio rheolau a rheoliadau, a lleihau dyblygu.<sup>10</sup>

19. Rhoddodd cyn ddefnyddiwr gwasanaethau ac aelod o Fwrdd Cynghori Cenedlaethol AGGCC ("BCC AGGCC"), sy'n cynnwys amrediad o randdeiliaid AGGCC gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, groeso i'r cyfle yr oedd y Bil yn ei greu ar gyfer trafodaeth ar yr ymagwedd at reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru.<sup>11</sup> Roedd sefydliadau yn y trydydd sector yn rhannu'r farn hon. Dywedon nhw wrth y Pwyllgor y byddai deddfwriaeth yn helpu i sicrhau na fyddai pobl a oedd yn agored i niwed ac yn cael gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu hanghofio,<sup>12</sup> a bod y Bil yn gyfle i ddatblygu cyfundrefn rheoleiddio ac arolygu a fyddai'n canolbwyntio ar y materion a oedd o bwys i ddefnyddwyr gwasanaethau.<sup>13</sup>

20. Gan siarad ar ran darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol, cydnabu Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig ("yr UKHCA") her drafftio deddfwriaeth berson-ganolog, ond dywedodd y byddai'r Bil yn "enabling framework which will enable the aims and objectives to be delivered".<sup>14</sup>

### **Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Cynulliad gytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil.**

21. Disgrifiodd llawer o'r rhanddeiliaid y Bil fel cyfle i ddysgu gwersi ar sail digwyddiadau ac adolygiadau diweddar, gan gynnwys adolygiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o ofal preswyl i bobl hŷn, Ymgyrch Jasmine, Winterbourne View a Southern Cross.<sup>15</sup>

22. Ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor i ddweud ei fod wedi cael trafodaethau gyda Dr Margaret Flynn ar ei hadroddiad ar Ymgyrch Jasmine, gan ddweud ei fod yn fodlon y byddai'r Bil yn mynd i'r afael â'r materion a oedd yn dod i'r amlwg o'i hadroddiad. Cadarnhaodd y disgwylid i adroddiad Dr Flynn gael ei gyhoeddi yn ystod hanner cyntaf mis Gorffennaf, gan amlinellu rhai o'r prif themâu yr oedd yn rhag-

---

<sup>10</sup> [RISC31 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda](#)

<sup>11</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 246\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>12</sup> [RISC01 Sefydliad Disability Can Do](#)

<sup>13</sup> [RISC26 Sense Cymru](#)

<sup>14</sup> [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#)

<sup>15</sup> [RISC34 Hawliau](#), [RISC39 Macmillan Cymru](#)

weld y byddai'r adroddiad yn eu codi.<sup>16</sup> Mae'r Pwyllgor yn credu'n gadarn fod rhaid i'r Gweinidog ystyried adroddiad ac argymhellion Dr Flynn yn fanwl. Pan fo'n briodol, rhaid iddo gyflwyno gwelliannau i'r Bil i gymryd yr argymhellion hynny i ystyriaeth.

**Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu at y Pwyllgor ar ôl i adolygiad annibynnol Dr Margaret Flynn ar Ymgyrch Jasmine gael ei gyhoeddi er mwyn nodi ei ymateb i argymhellion Dr Flynn, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, sut mae pob un naill ai wedi'i gymryd i ystyriaeth eisoes yn y Bil, neu am gael ei drafod drwy gyfrwng gwelliannau.**

### **Cymar i Ddeddf 2014?**

23. Dywedodd y rhanddeiliaid ei bod yn bwysig bod y Bil yn cydategu'r ddeddfwriaeth bresennol, gan gynnwys Deddf 2014 a [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). Dywedodd y rheoleiddwyr, AGGCC a'r Cyngor Gofal, fod hyn yn angenrheidiol er mwyn darparu rhwydwaith cyfreithiol cydlynol a fyddai'n hoelio sylw ar sicrhau llesiant a chanlyniadau i bobl, ac yn sicrhau bod gwaith rheoleiddio a gwaith gwella a datblygu gwasanaetha'n cael eu cydlynu.<sup>17</sup> Roedd rhanddeiliaid eraill yn rhannu'r farn hon, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ("CLILC") a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ("ADSS Cymru").<sup>18</sup>

24. Disgrifiodd y Gweinidog y Bil fel "cymar" i Ddeddf 2014, gan ddweud y byddai'n sicrhau bod y gyfundrefn arolygu a rheoleiddio'n gyson â'r tirlun newydd mewn gofal cymdeithasol a oedd wedi'i sefydlu gan y Ddeddf honno. Nododd y byddai hefyd yn cydgrynhoi'r fframwaith cyfreithiol ynglŷn â rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol, yn caniatáu i wersi gael eu dysgu yn sgil digwyddiadau amlwg a oedd wedi codi ers i'r gyfundrefn reoleiddio bresennol gael ei sefydlu, ac yn rhoi argymhellion Comisiwn y Gyfraith am reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol ar waith.<sup>19</sup>

---

<sup>16</sup> [RISC A109 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 2 Mehefin 2015](#)

<sup>17</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru, RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>18</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>19</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 9-11\]](#), 25 Mawrth 2015

25. Er hynny, cododd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn, ymholiadau ynghylch i ba raddau yr oedd y Bil yn adlewyrchu bwriad polisi ac uchelgais Deddf 2014.<sup>20</sup>

26. Roedd rhai yn pryderu am anghysondebau rhwng Deddf 2014 a'r Bil, yn benodol o ran diffiniadau, a'r posibilrwydd y gallai hynny greu dryswch.<sup>21</sup> Dywedodd y Cyngor Gofal fod iaith y Bil yn tueddu i fod yn "draddodiadol" o'i chymharu ag iaith Deddf 2014, er enghraifft y ffocws ar "wasanaethau" yn hytrach na "darpariaeth".<sup>22</sup>

27. Barn gymysg a gafwyd o ran a oedd yn briodol deddfu ynghylch rheoleiddio ac arolygu tra oedd Deddf 2014 yn dal i gael ei rhoi ar waith. Roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu nad oedd effaith Deddf 2014 ar y sector gofal cymdeithasol yn ddigon clir eto,<sup>23</sup> tra dywedodd eraill fod digon o ddulliau diogelu a hyblygrwydd yn y Bil i ymdopi â modelau newydd o ofal cymdeithasol neu newidiadau yn y gweithlu gofal cymdeithasol a allai ddod i'r amlwg o dan Ddeddf 2014.<sup>24</sup>

### **Cydbwysedd yr is-ddeddfwriaeth a'r trefniadau trosiannol**

28. Cafwyd pryderon ynghylch faint o fanylion a oedd yn cael eu gadael ar gyfer is-ddeddfwriaeth, yn enwedig am nad yw'r rheoliadau, y canllawiau, y codau a'r rheolau drafft ar gael i'w hystyried ochr yn ochr â'r Bil. Gofynnodd y Comisiynydd Pobl Hŷn pa mor effeithiol fyddai'r gwaith craffu ar yr is-ddeddfwriaeth,<sup>25</sup> a dywedodd rhanddeiliaid eraill eu bod yn teimlo na allen nhw gynnig sylwadau manwl ynghylch a fyddai'r Bil yn gwireddu ei amcanion neu beidio heb gael gweld y rheoliadau a'r safonau a fyddai'n sail iddo.<sup>26</sup> Pwysleisiodd yr UKHCA ei bod yn bwysig cydweithio ac ymgynghori a'r sector gofal cymdeithasol a'r cyhoedd wrth i'r is-ddeddfwriaeth gael ei datblygu.<sup>27</sup>

29. Ar y llaw arall, nododd y Cyngor Gofal fod ganddyn nhw bryderon a allai lefel y manylion ar wyneb y Bil gyfyngu eu gallu nhw i ymateb i

---

<sup>20</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 80\]](#), 13 Mai 2015

<sup>21</sup> [RISC23 Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi](#), [RISC40 Cymdeithas Alzheimer](#)

<sup>22</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

<sup>23</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 17\]](#), 23 Ebrill 2015, [Cofnod y Trafodion \[para 52\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>24</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 26\]](#), 23 Ebrill 2015, [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>25</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 45\]](#), 13 Mai 2015

<sup>26</sup> [RISC26 Sense Cymru](#), [RISC37 Croes Goch Prydain](#)

<sup>27</sup> [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#)

ffyrdd newydd o weithio neu grwpiau newydd o weithwyr gofal cymdeithasol yn y dyfodol.<sup>28</sup>

30. Dywedodd AGGCC wrth y Pwyllgor y byddai rhai darparwyr presennol yn eu cael yn anodd bodloni'r gofynion ynghylch cofrestru gwasanaethau o dan y Bil, gan bwysleisio mor bwysig oedd sicrhau cyfnod pontio graddol, o dan reolaeth, er mwyn helpu'r darparwyr presennol i gydymffurfio â'r trefniadau newydd.<sup>29</sup>

31. Clywodd y Pwyllgor gan ddau gynllun lleoliadau cymunedol i oedolion fod rhaid i unrhyw drefniadau newydd a fyddai'n cael eu rhoi ar waith beidio ag andwyo gwasanaethau sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd.<sup>30</sup> Cafodd hyn ei atseinio gan RNIB Cymru, a bwysleisiodd fod angen sicrhau bod trefniadau pontio effeithiol yn cynnig digon o ddiogelwch i ddefnyddwyr gwasanaethau wrth i'r system newydd gael ei rhoi ar waith.<sup>31</sup>

32. Cododd rhai rhanddeiliaid bryderon ynghylch effaith gofynion rheoleiddio newydd ar adeg pan fo'r sector yn wynebu cyfyngiadau ar adnoddau a chynnydd yn y galw. Roedd yna bryder y gallai'r pwysau hyn arwain at atal y gweithredu, drwy anfodlonrwydd i fynd i'r afael â'r trefniadau newydd.<sup>32</sup> Nododd y Cyngor Gofal fod y Bil yn ceisio lliniaru'r rhwystrau hyn drwy ddarpariaethau ynglŷn â goruchwylio'r farchnad ac ymagwedd gydlynol at welliannu.<sup>33</sup>

33. Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd addysg a hyfforddiant cadarn a phriodol i'r rhai yn y sector gofal cymdeithasol ynghylch y newidiadau y byddai'r Bil yn eu creu.<sup>34</sup> Dywedodd Plant yng Nghymru wrth y Pwyllgor:

“to be quite honest, there's such a lot of legislation at the moment [...] that we're struggling capacity-wise to keep up with all the different details of it”.<sup>35</sup>

---

<sup>28</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

<sup>29</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>30</sup> [RISC15 Ategi Shared Lives](#), [RISC36 Shared Lives Plus](#)

<sup>31</sup> [RISC28 RNIB Cymru](#)

<sup>32</sup> [RISC01 Sefydliad Disability Can Do](#)

<sup>33</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

<sup>34</sup> [RISC18 Y Coleg Nyrsio Brenhinol](#)

<sup>35</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 160\]](#), 21 Mai 2015

34. Yn yr un modd, nododd yr Athro y Fonesig June Clark y gallai cymhlethdod y Bil a'i hyd beri anhawster i unigolion neu sefydliadau o ran deall y gofynion newydd neu gydymffurfio â nhw.<sup>36</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

35. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon hyn, ac mae'n croesawu'r ffaith bod [Datganiad o Fwriad Polisi](#) wedi'i ddarparu, a hwnnw'n rhoi manylion am sut mae'r Gweinidog yn bwriadu defnyddio'r pwerau is-ddeddfwriaeth yn y Bil. Er hynny, mae yna anawsterau penodol o ran deall sut y caiff y Bil ei roi ar waith, am fod y sector gofal cymdeithasol ar ganol cyfnod pontio yn sgil y gwaith parhaus o roi Deddf 2014 ar waith.

36. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod deddfwriaeth o reidrwydd yn gymhleth. Er hynny, mae'n annog y Gweinidog i gymryd camau i sicrhau bod gwybodaeth hwylus ar gael am y Bil mewn iaith glir, er mwyn helpu'r sector gofal cymdeithasol, a defnyddwyr gwasanaethau a gofawyr unigol, i ddeall y trefniadau rheoleiddio ac arolygu.

**Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fynd ati, cyn diwedd toriad haf 2015, i nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer rhoi'r Bil ar waith.**

### **Ymagwedd wedi'i seilio ar hawliau**

37. Mae adran 40 o'r Bil yn darparu bod rhaid i adroddiadau blynyddol Gweinidogion Cymru gynnwys manylion am sut mae dyletswyddau penodol wedi effeithio ar y dasg o arfer eu swyddogaethau rheoleiddio, gan gynnwys dyletswyddau o dan adran 149 o [Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#) (dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus) ac adran 1(1) o [Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#) ("y Mesur") (dyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ("CCUHP")). Does dim dyletswydd gyfatebol i ddarparwyr gwasanaethau o ran eu datganiadau blynyddol nhw o dan adran 8, na'r awdurdodau lleol o ran eu hadroddiadau blynyddol nhw o dan adran 144A o Ddeddf 2014 (sydd i'w mewnosod gan adran 55 o'r Bil).

38. Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP wrth arfer eu swyddogaethau. Er hynny, nid yw'r

---

<sup>36</sup> [RISC42 Yr Athro y Fonesig June Clark](#)

Mesur ei hun yn gosod dyletswydd ar gyrff neu sefydliadau eraill i roi sylw i'r Confensiwn. Mae adran 7 o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswydd ar unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a CCUHP.

39. Soniodd llawer o'r tystion am yr ymagwedd a arddelwyd yn Neddf 2014, gan awgrymu y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys dyletswyddau tebyg.<sup>37</sup> Dywedodd Plant yng Nghymru y byddai cynnwys dyletswyddau o'r fath yn cyfrannu at "citizen-centred regulatory function" Deddf 2014, ac mai un elfen bwysig yn rôl wella'r rheoleiddwyr oedd arwain a monitro gwaith i roi CCUHP ar waith, ynghyd â'r her ar gyfer diwylliant a fyddai'n deillio o hynny.<sup>38</sup>

40. Er bod pawb sy'n arfer swyddogaethau o dan Ddeddf 2014 o dan ddyletswydd bendant i roi sylw dyledus i CCUHP, nododd Barnardo's Cymru nad oes proses graffu ar hyn o bryd i sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd hon. Awgrymodd Barnardo's Cymru y gallai cynnwys sylw dyledus i CCUHP ar wyneb y Bil fynd i'r afael â hyn, gan sicrhau y gallai'r rhai sy'n rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith ar lefel weithredol gael eu dwyn i gyfrif.<sup>39</sup>

41. Disgrifiodd rhai tystion y diffyg dyletswyddau o'r fath fel rhwystr a allai atal y Bil rhag cael ei roi ar waith a chyrraedd ei nodau llesiant.<sup>40</sup> Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn wrth y Pwyllgor fod y diffyg ymagwedd wedi'i seilio ar hawliau wedi arwain at "a piece of legislation that is doing unto people". Dywedodd y byddai'n hoffi gweld:

"all public bodies that have to take forward action, have duties, have to do so with due regard to the UN Principles for Older People. [...] It will fundamentally drive better care, better support and better outcomes through the system. And Welsh Government, of course, welcomed my work on the declaration of rights, took it for its own and published it. I guess that is my challenge to Welsh Government: make real your policy intent of

---

<sup>37</sup> [RISC26 Sense Cymru](#)

<sup>38</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 96\]](#), 21 Mai 2015

<sup>39</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 95 a 101\]](#), 21 Mai 2015

<sup>40</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 93\]](#), 21 Mai 2015, [RISC28 RNIB Cymru](#)

a rights-based approach. This could be rights-based legislation, and I think that would fundamentally strengthen it”.<sup>41</sup>

42. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru y gallai cynnwys y ddyletswydd helpu i sbarduno newid, a sicrhau bod sylw i blant a phobl ifanc yn mynd y tu hwnt i'r hawl i gymryd rhan a chael eu clywed, gan gynnwys hefyd yr hawl i gael eu hamddiffyn ac i gael darpariaeth gwasanaethau sy'n bodloni eu hanghenion. Dywedodd y byddai cynnwys CCUHP ar wyneb y Bil yn helpu i fesur perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol o ran plant a phobl ifanc. Yn ychwanegol, dywedodd y byddai'n helpu Gweinidogion Cymru i wireddu Erthygl 42 o CCUHP sy'n gosod dyletswydd ar lywodraethau i hybu CCUHP a chodi ymwybyddiaeth ohono.<sup>42</sup>

43. Nododd Hywel Dafydd, swyddog polisi'r Comisiynydd Plant, y byddai cynnwys CCUHP ar wyneb y Bil yn cryfhau hawliau plant a phobl ifanc i geisio sicrhau iawn drwy'r broses gwyno pe baen nhw'n teimlo bod eu hawliau heb gael eu parchu.<sup>43</sup>

44. Cydnabu'r Gweinidog mor bwysig oedd hawliau unigolion, ond dywedodd fod angen hoelio sylw ar “effective rights” nid dim ond “declaratory rights”. Dywedodd y byddai'r Bil yn gosod hawliau unigolion i wireddu eu canlyniadau llesiant yng nghanol gwaith darparu gwasanaethau a gwaith arolygu drwy ofynion ar ddarparwyr gwasanaethau a rheoleiddwyr o ran y cod ar ganlyniadau llesiant o dan adran 9 o Ddeddf 2014.

45. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod Gweinidogion Cymru eisoes o dan ddyletswyddau i roi sylw dyledus i CCUHP ac nad oedd yn awyddus i ailadrodd dyletswyddau o'r fath yn diangen. Serch hynny, rhoddodd ymrwymiad i ystyried unrhyw fylchau yn y darpariaethau ar hawliau y byddai'r Pwyllgor yn eu gweld.<sup>44</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

46. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod barn y Gweinidog, ond er hynny mae'n cytuno â'r rhanddeiliaid fod yna fwlch. Byddai hawliau pobl, a'r gallu i ddwyn darparwyr gwasanaethau i gyfrif o ran galluogi a

---

<sup>41</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 80\]](#), 13 Mai 2015

<sup>42</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 9-11\]](#), 21 Mai 2015

<sup>43</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 13\]](#), 21 Mai 2015

<sup>44</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 8-10\]](#), 3 Mehefin 2015



pharchu'r hawliau hynny, yn cael eu cryfhau drwy osod dyletswydd ynglŷn â sylw dyledus ar wyneb y Bil. Cytunodd y Pwyllgor â'r awgrym gan rai tystion y dylai dyletswydd gael ei chynnwys hefyd o ran Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.<sup>45</sup>

**Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol i bawb sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.**

47. Cydnabu'r Gweinidog nad oedd adran 40 o'r Bil, fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd, yn adlewyrchu darpariaethau adran 7 o Ddeddf 2014 yn iawn, gan nad oedd yn cynnwys cyfeiriad at Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gyflwyno gwelliannau i fynd i'r afael â'r anghysondeb hwn,<sup>46</sup> ond mae'n credu y dylai dyletswydd gael ei chynnwys hefyd o ran Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.

**Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i adran 40(4) o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr gwasanaethau gynnwys cyfeiriad yn ei adroddiad blynyddol at effaith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, ar ben Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.**

#### **Darpariaeth ynglŷn a'r Gymraeg**

48. Mae adran 40 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau blynyddol Gweinidogion Cymru gynnwys manylion am sut mae'r dyletswyddau a nodir yn Rhan 4 o [Fesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#) yn effeithio ar arfer eu swyddogaethau rheoleiddio. Fel yn achos y dyletswyddau ar gydraddoldebau/hawliau dynol, does dim dyletswydd gyfatebol ar ddarparwyr gwasanaethau na'r awdurdodau lleol o ran eu datganiadau a'u hadroddiadau blynyddol.

---

<sup>45</sup> [RISC28 RNIB Cymru, RISC34 Hawliau](#)

<sup>46</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 21\]](#), 3 Mehefin 2015

49. Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg groeso i'r [asesiad o effaith y Bil ar y Gymraeg](#). Er hynny, nododd ei phryder fod yr asesiad fel pe bai'n mynd yn groes i'r cysyniad o "Gynnig Rhagweithiol", gan ei fod yn gosod y baich ar ddefnyddwyr gwasanaethau i ddod o hyd i'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a allai fod o les iddyn nhw.

50. Roedd yn amau hefyd y byddai'r diffyg canllawiau clir i ddarparwyr a rheoleiddwyr ynghylch darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg o dan y Bil yn creu effaith andwyol ar ansawdd ac argaeledd y gwasanaethau hyn, ac felly ar y gallu i wireddu'r canlyniadau a ddymunir sydd wedi'u nodi yn yr asesiad o effaith y Bil.<sup>47</sup>

51. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn cytuno â Chomisiynydd y Gymraeg y dylai gwasanaethau gofal cymdeithasol fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i bobl yr oedd arnyn nhw eu hangen. Er hynny, yn hytrach na chynnwys cyfeiriad penodol at y Gymraeg ar wyneb y Bil, dywedodd ei fod yn bwriadu i'r safonau ar gyfer darparu gwasanaethau o dan adran 26, y byddai'r darparwyr gwasanaethau yn cael eu harolygu yn unol â nhw, gynnwys safonau o ran darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.<sup>48</sup>

---

<sup>47</sup> [RISC24 Comisiynydd y Gymraeg](#)

<sup>48</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 22\]](#), 3 Mehefin 2015

## 4. Ymgysylltu â'r cyhoedd

---

52. Mae adran 39 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am y system reoleiddio. Mae'n rhaid hefyd iddyn nhw lunio a chyhoeddi datganiad o'u polisi ar gynnwys y cyhoedd wrth i'w swyddogaethau rheoleiddio gael eu harfer. Mae adran 70 yn gosod dyletswydd debyg ar GCC.

53. Mae adran 40 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol am y cynnydd ynglŷn ag arfer eu swyddogaethau rheoleiddio, gan gynnwys i ba raddau y maen nhw "wedi rhoi sylw" i'r datganiad polisi ynghylch cynnwys y cyhoedd. Rhaid i'r adroddiad hwn gael ei osod gerbron y Cynulliad.

### Ymgysylltu â'r cyhoedd

54. Cafwyd consensws ynghylch pwysigrwydd cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol. Yn benodol, tynnodd y rhanddeiliaid sylw at yr angen i ddarparwyr a rheoleiddwyr fod ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau, eu gofalu a'u teuluoedd, a gwranddo arnyn nhw.<sup>49</sup> Cafodd dyletswyddau'r rheoleiddwyr i ymgysylltu â'r cyhoedd, ac i drefnu bod gwybodaeth am eu gwaith ar gael, eu croesawu.<sup>50</sup>

55. Er hynny, mynegodd y rhanddeiliaid bryder a oedd y Bil yn ddigon eglur ynghylch sut y byddai'n cynyddu ac yn sicrhau ymglymiad ac ymgysylltiad y cyhoedd.<sup>51</sup> Cafwyd pryder hefyd ynghylch diffyg cydnabyddiaeth i ofalwyr.<sup>52</sup> Mynegodd rhai bryderon am sut y câi anghenion unigolion ym maes cyfathrebu a hygyrchedd eu cymryd i ystyriaeth, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn dryloyw ac ystyrlon, a sicrhau y gallai'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau gael eu cynnwys a'u grymuso.<sup>53</sup> Roedd yr atebion posibl yn cynnwys defnyddio eiriolwyr.<sup>54</sup>

---

<sup>49</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 188\]](#), 13 Mai 2015, [RISC01 Sefydliad Disability Can Do](#), [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#), [RISC31 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda](#)

<sup>50</sup> [RISC26 Sense Cymru](#)

<sup>51</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 94\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>52</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 83 a 97\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>53</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 130\]](#), 13 Mai 2015, [RISC22 Cynghrair Pensiynwyr y Gwasanaeth Sifil](#), [RISC26 Sense Cymru](#), [RISC40 Cymdeithas Alzheimer](#)

<sup>54</sup> [RISC38 Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

56. Awgrymodd Cynghair Gofal a Lles Cymdeithasol Cymru a Chynghrair Ail-alluogi Cymru y gallai'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys dyletswydd i gyflwyno adroddiad ar sut y câi defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd eu cynnwys yn y gyfundrefn arolygu.<sup>55</sup>

57. Dywedodd BCC AGGCC wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig bod lleisiau defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu hystyried gan y rheoleiddiwr, a'u bod nhw felly yn croesawu rôl y rheoleiddiwr wrth lywio a dylanwadu ar y modd yr oedd AGGCC yn gweithio.<sup>56</sup> Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd Sheila Meadows, gofalwr sy'n aelod o'r Bwrdd, wrth y Pwyllgor fod cyfraniad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael ei werthfawrogi. Dywedodd eu bod yn gallu defnyddio'u profiadau mewn ffyrdd cadarnhaol i lunio gwaith rheoleiddio ac arolygu mewn fforwm a oedd yn chwalu perthnasoedd grym traddodiadol.<sup>57</sup> Roedd Christopher Dunn o Voices from Care yn cytuno bod BCC AGGCC yn ddechrau da, ond dywedodd ei fod yn dal wrthi'n ceisio cael ei draed dano.<sup>58</sup>

58. Mewn llythyr at y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog ei fod yn hyderus bod y Bil wedi nodi'n glir ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru y bydd y rheoleiddwyr yn gweithio'n agos gyda dinasyddion, ond nad oedd yn credu ei bod yn briodol i'r Bil orchymyn sut y câi hyn ei gyflawni, gan y gallai hynny greu risg o lyffetheirio ymglymiad dinasyddion yn hytrach na hybu mwy ohono.

59. Tynnodd sylw at sefydlu BCC AGGCC, a'r ymagwedd at reoleiddio o dan arweiniad lleygwyr yn y Cyngor Gofal, gan ddweud y byddai'r Bil yn datblygu'r gwaith hwn, ac yn gosod dyletswydd newydd ar y rheoleiddwyr i gyhoeddi polisiau ar ymgysylltu â'r cyhoedd ac adroddiadau blynyddol ar y gweithredu. Disgrifiodd yr ymagwedd hon fel un a oedd yn ddigon hyblyg i ganiatáu i'r rheoleiddwyr addasu er mwyn ymateb i ddewisiadau ac anghenion y cyhoedd.<sup>59</sup>

---

<sup>55</sup> [RISC10 Cynghair Gofal a Lles Cymdeithasol Cymru a Chynghrair Ail-alluogi Cymru](#)

<sup>56</sup> [RISC21 Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>57</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 209 a 244\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>58</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 238\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>59</sup> [RISC A102 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Mai 2015](#)

### ***Barn y Pwyllgor***

60. Roedd y Pwyllgor yn cytuno bod ymgysylltu ystyrion â'r dinesydd yn golygu bod angen sawl ffordd i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr wneud cyfraniad a'r rheiny'n adlewyrchu gwahanol anghenion a dewisiadau; efallai na fyddai ymgynghori neu gyfarfodydd ffurfiol yn briodol i bawb. Roedd y Pwyllgor yn cytuno hefyd fod angen i unigolion a fyddai'n cyfrannu syniadau neu sylwadau gael adborth am yr effaith y bydden nhw'n ei chreu.<sup>60</sup>

**Argymhelliad 6: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad yn nodi ei ddisgwyliadau ynghylch sut y bydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru'n ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn cynnwys y cyhoedd yn eu swyddogaethau rheoleiddio a'u swyddogaethau eraill.**

**Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried a ddylai gofynion ychwanegol gael eu cynnwys ar wyneb y Bil i sbarduno gwelliannau o ran cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd wrth reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol.**

### **Cydnabod gofalwyr**

61. Amlygodd llawer o randdeiliaid bryderon ynghylch diffyg cydnabyddiaeth drwy'r Bil i gyd i rôl gofalwyr di-dâl, eu llesiant a'r gwasanaethau cymorth y gallen nhw eu cael. Er enghraifft, dywedodd rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys Cynghair Henoed Cymru, Cynghair Cynhalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, nad oes darpariaeth i arolygwyr siarad yn breifat â theulu neu ofalwyr y rhai sy'n derbyn gofal.<sup>61</sup> Yn yr un modd, does dim sôn am ofalwyr yn adrannau 39, 55 a 70, sy'n gosod dyletswyddau ar AGGCC, yr awdurdodau lleol, a GCC o ran ymgysylltu â'r cyhoedd.<sup>62</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

62. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r rhanddeiliaid fod angen i'r Bil gael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth i ofalwyr di-dâl a geir

<sup>60</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 243\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>61</sup> [RISC09 Cynghair Cynhalwyr Cymru](#), [RISC32 Cynghair Henoed Cymru](#), [RISC 43 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru](#)

<sup>62</sup> [RISC09 Cynghair Cynhalwyr Cymru](#), [RISC30 Age Cymru](#)

yn Neddf 2014, a bod angen cysondeb yn y modd y mae'r gofalywr hyn yn cael eu cynnwys yn y gyfundrefn rheoleiddio ac arolygu o dan y Bil.<sup>63</sup>

**Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau er mwyn sicrhau bod gofalywr yn cael eu cydnabod drwy'r Bil i gyd, er enghraifft, yn adrannau 33, 39, 55 a 70.**

### **Arolygwyr lleyg**

63. Mynegodd llawer o'r rhanddeiliaid siom ynglŷn â'r diffyg cyfeiriad at arolygwyr lleyg, gan bwysleisio mor bwysig oedd cynnwys llais arolygwyr lleyg sy'n ddefnyddwyr gwasanaethau ac yn ofalwyr fel rhan o dimau gyda gweithwyr proffesiynol sydd ag arbenigedd yn y gwasanaeth perthnasol, a chan ddweud y gallai safbwyntiau ychwanegol gyfoethogi'r broses reoleiddio.<sup>64</sup> Nododd Cynghrair Ail-alluogi Cymru y gallai defnyddio arolygwyr lleyg helpu i atal rheoleiddio rhag bod yn "top-down process" drwy roi llais i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalywr.<sup>65</sup> Dywedodd aelodau teuluoedd pobl hŷn a oedd wedi dioddef camdriniaeth ac esgeulustod mewn cartrefi gofal, gan gynrychioli Grŵp Ymgyrch Justice for Jasmine, wrth y Pwyllgor fod aelodau'r cyhoedd yn gweld darlun gwahanol iawn o wasanaethau i'r un yr oedd gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol yn ei weld. Awgrymodd y grŵp y gallai arolygwyr lleyg chwarae rhan wrth gynnal ymweliadau ad hoc i ategu arolygiadau ffurfiol.<sup>66</sup>

64. Amlinellodd AGGCC eu hymagwedd nhw at ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys ystyried cynlluniau aseswyr lleyg yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig. Dywedodd AGGC wrth y Pwyllgor eu bod, yn ychwanegol at BCC AGGCC, yn bwriadu sefydlu byrddau cynghori rhanbarthol i helpu i sicrhau ansawdd eu gwaith. Dywedon nhw eu bod wedi dod i'r casgliad mai'r ffordd fwyaf effeithiol i'r cyhoedd gael ei gynnwys yn eu gwaith oedd eu dwyn i gyfrif a llunio'u blaenoriaethau, yn hytrach na chael eu cynnwys fel rhan o'r drefn, fel arolygwyr lleyg, gan ddweud:

---

<sup>63</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 40\]](#), 29 Ebrill 2015, [RISC09 Cynghrair Cynhalwyr Cymru](#), [RISC30 Age Cymru](#), [RISC40 Cymdeithas Alzheimer](#)

<sup>64</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 115\]](#), 13 Mai 2015, [RISC21 Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#), [RISC30 Age Cymru](#), [RISC 43 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru](#)

<sup>65</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 95\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>66</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 190 a 194\]](#), 13 Mai 2015

“Nid ydym yn credu bod defnyddio’r cyhoedd mewn arolygiadau fel mater o drefn yn effeithiol o ran cost (nid oes gennym yr adnoddau i wneud hyn), ac mae ein hadborth o gynlluniau blaenorol, a chynlluniau cyfredol eraill, yn dangos nad yw bobl sy’n cymryd rhan mewn arolygiadau yn rheolaidd yn parhau i fod yn bobl “leyg” yn hir. Yn hytrach na mynd ar ôl y defnydd rheolaidd o arolygwyr lleyg, credwn y dylwn fanteisio i’r eithaf ar ymgysylltu â’r cymunedau naturiol o gwmpas gwasanaethau wrth gynnal arolygiadau, ac ar yr adborth a geir ganddynt. Rydym yn annog pobl i fod yn wylidwrs ar ein rhan, ac i dynnu ein sylw at bryderon [...] Rydym wedi bod yn datblygu atebion sy’n defnyddio’r we a’r cyfryngau cymdeithasol gyda rhywfaint o lwyddiant – ac yn parhau i wneud felly”.<sup>67</sup>

65. Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn wrth y Pwyllgor ei bod yn pryderu nad oedd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i arolygwyr lleyg gael eu defnyddio nac yn nodi rôl i’r cynghorau iechyd cymuned.<sup>68</sup> Gan gyfeirio at raglen Arbenigwyr drwy Brofiad y Comisiwn Ansawdd Gofal, nododd fod yna gydnabyddiaeth bod arolygwyr lleyg yn cynnig safbwynt gwahanol i’r rhai sy’n gweithio mewn rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau, gan roi golwg ar ansawdd bywyd defnyddwyr gwasanaethau a’u profiad nhw o ofal. Cydnabu fod yna gost wrth ddefnyddio arolygwyr lleyg, ond dywedodd:

“Er bod y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at gost ariannol fel rhwystr (er mai cost isel o £43,000 ar draws yr holl wasanaethau gofal cymdeithasol yw hon), mae cost peidio â mynd i’r afael â materion cyn iddyn nhw fynd yn arwyddocaol yn llawer uwch”.<sup>69</sup>

66. Mynegodd Cynghrair Henoed Cymru bryder ynghylch barn AGGCC nad oedd arolygwyr lleyg yn gost-effeithiol. Dywedodd y Cynghrair wrth y Pwyllgor fod angen buddsoddi i helpu i ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac y dylai’r buddsoddiad hwnnw gael ei asesu yn ôl arferion da wedi’u seilio ar dystiolaeth, ac nid ar gostau yn unig. Cydnabu’r Cynghrair y byddai yna gostau parhaus ynglŷn â recriwtio a hyfforddi, ond cyfeiriodd at y manteision a geid drwy gynnwys

---

<sup>67</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>68</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 71\]](#), 13 Mai 2015

<sup>69</sup> [RISC A108 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru](#)

arolygwyr lleyg drwy weithio mewn partneriaeth i gynnwys dinasyddion ar lefel wirfoddol i gydategu gwaith yr arolygiaeth.<sup>70</sup>

67. Clywodd y Pwyllgor gan Dan Pitt, cyn ddefnyddiwr gwasanaethau a oedd wedi cymryd rhan mewn cynllun peilot arolygwyr lleyg, ei fod ef a'r bobl ifanc yr oedd wedi siarad â nhw yn ystod y cynllun peilot, wedi gweld ei fod yn brofiad cadarnhaol iawn. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod defnyddio arolygwyr lleyg yn ychwanegu atebolrwydd at y broses arolygu, ac yn ffordd werthfawr o ymgysylltu â phobl ifanc, a allai fod yn fwy abl i greu perthynas ag asesydd lleyg am eu bod yn rhannu profiadau tebyg o fod yn berson ifanc yn y system gofal cymdeithasol.<sup>71</sup>

68. Adleisiwyd hyn gan Grŵp Ymgynghori Annibynnol Gwasanaeth Lleoli Oedolion Gorllewin Cymru, a ddywedodd ei bod yn debyg y byddai'r gofalwyr a'r defnyddwyr gwasanaethau yn eu gwasanaethau nhw yn debyg o'i chael yn llai brawychus siarad ag arolygwyr lleyg sydd â phrofiad o'r sector gofal nag arolygwyr proffesiynol.<sup>72</sup>

69. Dywedodd y Comisiynydd Plant wrth y Pwyllgor ei bod hi mewn swydd flaenorol wedi bod yn rhan o waith ymchwil a oedd yn cynnwys pobl ifanc a oedd â phrofiad o fod yn arolygwyr cyfoed. Dywedodd eu bod nhw wedi dod â'u safbwyntiau unigryw i'r rôl, a bod eu profiadau diweddar o wasanaethau tebyg yn golygu bod plant a phobl ifanc wedi bod yn fwy cyffyrddus yn siarad â nhw.<sup>73</sup>

70. Nododd Christopher Dunn o Voices from Care fod defnyddio cyn ddefnyddwyr gwasanaethau fel arolygwyr lleyg nid yn unig yn fanteisiol i'r broses arolygu, ond hefyd i'r defnyddwyr gwasanaethau neu'r gofalwyr o dan sylw, ar yr amod eu bod yn cael cymorth priodol gan AGGCC ac asiantaethau eraill. Gallen nhw godi sgiliau a hyder gwerthfawr, a dod â dimensiwn a safbwynt ychwanegol i'r broses yn sgil eu profiadau personol eu hunain o dderbyn gwasanaethau.<sup>74</sup>

71. Dywedodd Kate Chamberlain o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ("AGIC") wrth y Pwyllgor fod AGIC wedi cynnal cynllun peilot ynglŷn â defnyddio arolygwyr lleyg fel rhan o'u timau arolygu. Dywedodd y

---

<sup>70</sup> [RISC AI05 Cynghrai Henoed Cymru](#)

<sup>71</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 202 a 239\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>72</sup> [RISC41 Grŵp Ymgynghori Annibynnol Cynllun Lleoliadau Oedolion Gorllewin Cymru](#)

<sup>73</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 43\]](#), 21 Mai 2015

<sup>74</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 204 a 216\]](#), 23 Ebrill 2015



gallai cyngorau iechyd cymuned chwarae rhan werthfawr hefyd wrth ymweld â gwasanaethau, craffu ar eu gwaith a'u monitro, er enghraifft, drwy helpu i gasglu safbwyntiau cleifion cyn adolygiadau thematig, yn hytrach na chymryd rhan mewn arolygiadau ffurfiol. Dadleuai ei bod yn synhwyrol i gynghorau iechyd cymuned gael eu cynnwys wrth gasglu safbwyntiau o ran gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol, wrth i'r rheiny fynd yn fwyfwy integredig.<sup>75</sup>

72. Cydnabu'r rhanddeiliaid y risg o 'broffesiynoli' y person lleyg drwy ei gynnwys yn y broses rheoleiddio ac arolygu. Roedden nhw'n cytuno bod annibyniaeth yr arolygydd lleyg yn holl-bwysig, gan nodi bod angen cynnwys ystod eang o bobl.<sup>76</sup>

73. Cydnabu'r Gweinidog y cyfraniad effeithiol a allai gael ei wneud gan arolygwyr lleyg, ond dywedodd nad oedd yn bwriadu gosod gofynion ynglŷn â'u defnyddio ar wyneb y Bil am nad oedd yn awyddus i gyfyngu'r rheoleiddiwr i ddilyn ymagwedd benodol at gynnwys y cyhoedd. Cydnabu hefyd y cysylltiad y gallai'r cyngorau iechyd cymuned eu ffurfio rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a dinasyddion. Dywedodd nad oedd y Bil, fel yr oedd wedi'i ddrafftio, yn atal y cyngorau iechyd cymuned rhag cael eu cynnwys yn y broses arolygu, ond dywedodd hefyd nad oedd wedi'i ddarbwylllo ei bod yn briodol gosod gofyniad bod rhaid eu cynnwys ar wyneb y Bil. Dywedodd ei fod yn disgwyl i rôl y cyngorau iechyd cymuned mewn rheoleiddio ac arolygu fod yn rhan o'r trafod ar y Papur Gwyrdd ar ansawdd y GIG ("y Papur Gwyrdd"), a oedd i fod i gael ei gyhoeddi cyn toriad haf 2015.<sup>77</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

74. Mae'r Pwyllgor yn credu y gall defnyddio arolygwyr lleyg gyfoethogi'r wybodaeth sydd ar gael am ansawdd bywyd defnyddwyr gwasanaethau a'u profiad o ofal. Yn yr un modd ag unrhyw gyfranogiad gan y cyngorau iechyd cymuned, dylai'r ymglymiad hwn fod yn hyblyg ac yn gymesur, o bosibl gan ddilyn dull y bartneriaeth wirfoddol a amlinellwyd gan Gynghrair Henoed Cymru. Er bod yna gost wrth recriwtio, hyfforddi a chefnogi arolygwyr lleyg, rhaid i ystyriaeth gael ei rhoi hefyd i'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau yn sgil cael

---

<sup>75</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 231\]](#), 21 Mai 2015

<sup>76</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 218-9\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>77</sup> [RISC AI02 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Mai 2015](#)

gofal gwael, a'r safbwyntiau a'r ddirnadaeth werthfawr y gall arolygwyr lleyg eu cynnig.

75. Mae'r Pwyllgor yn derbyn barn y Gweinidog nad yw'n dymuno cyfyngu'r dulliau y gallai'r rheoleiddwyr eu defnyddio wrth gynnwys y cyhoedd drwy ragnodi bod rhaid defnyddio arolygwyr lleyg ar wyneb y Bil. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai fod yn ofynnol i AGGCC gynnwys defnyddio arolygwyr lleyg fel rhan annatod o'u hymagwedd at reoleiddio ac arolygu.

**Argymhelliad 9: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i osod gofyniad ar wyneb y Bil i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gynnwys defnyddio arolygwyr lleyg fel rhan annatod o'u hymagwedd at reoleiddio ac arolygu.**

## 5. Atebolrwydd a thryloywder

---

### Datganiadau blynyddol

76. Mae adran 8 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu cyhoeddi. Bydd ffurf a chynnwys y datganiad yn cael eu nodi mewn rheoliadau. Bydd yn drosedd:

- o dan adran 45, i wneud gosodiadau ffug neu gamarweiniol mewn datganiad blynyddol; ac
- o dan adran 46, i fethu cyflwyno datganiad blynyddol o fewn terfyn amser sydd i'w ragnodi gan Weinidogion Cymru.

77. Mae adran 144A o Ddeddf 2014, sydd i'w mewnosod gan adran 55 o'r Bil, yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol lunio, cyhoeddi a chyflwyno i Weinidogion Cymru, adroddiadau blynyddol ar arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi cynnwys a fformat yr adroddiadau blynyddol.

78. Rhoddodd y rhanddeiliaid groeso i'r darpariaethau yn y Bil ynglŷn â datganiadau ac adroddiadau blynyddol fel modd i wella tryloywder ac atebolrwydd, ategu penderfyniadau ar lefelau lleol a chenedlaethol, gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol, a helpu unigolion i wneud penderfyniadau am eu gofal.<sup>78</sup> Cafwyd consensws bod rhaid i ddatganiadau ac adroddiadau blynyddol ganolbwyntio ar y dinesydd, cael eu hysgrifennu'n glir a bod yn hwylus er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn gallu eu cyrchu os ydyn nhw'n dymuno.<sup>79</sup>

79. Dywedodd y Comisiynydd Plant a sefydliadau plant yn y trydydd sector wrth y Pwyllgor eu bod yn croesawu'r ffaith y gallai plant a phobl ifanc weld gwybodaeth am y gwasanaethau yr oedden nhw'n eu cael, gan gynnwys graddau ansawdd a allai gael eu cyflwyno o dan y Bil, ond rhoddwyd rhybudd bod angen i'r modd y câi gwybodaeth ei

---

<sup>78</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 257\]](#), 23 Ebrill 2015, [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

<sup>79</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 227\]](#), 23 Ebrill 2015, [Cofnod y Trafodion \[para 118\]](#), 21 Mai 2015, [RISC21 Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

darparu ar eu cyfer, a'r cymorth a roddid, gael eu hystyried yn ofalus i osgoi creu trallod diangen neu eu gadael yn agored i niwed, yn benodol felly am ei bod yn bosibl na fydd gan blant a phobl ifanc ddewis bob amser am y gwasanaethau y maen nhw'n eu cael.<sup>80</sup>

80. Cytunodd yr UKHCA fod y gofyniad bod rhaid i ddarparwyr lunio datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru yn un rhesymol. Er hynny, nododd yr UKHCA y gallai'r gofyniad bod rhaid cwblhau a chydlynu datganiadau o'r fath osod baich trwm ar y darparwyr. Pwysleisiodd fod angen i Weinidogion Cymru, wrth ragnodi fformat a chynnwys y datganiadau, ofyn am wybodaeth hanfodol neu fuddiol yn unig, er mwyn sicrhau bod y costau a'r ymdrechion angenrheidiol wrth eu cwblhau yn gymesur.<sup>81</sup>

81. Awgrymodd rhai o'r rhanddeiliaid elfennau penodol i'w cynnwys yn natganiadau blynyddol darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys:

- cynlluniau gweithredu yn dangos sut roedd y darparwyr gwasanaethau yn gweithio i wella lle roedd angen gwelliant;<sup>82</sup>
- manylion am sut roedd defnyddwyr gwasanaethau, gofawyr a dinasyddion eraill wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth ac wedi effeithio arno, a thystiolaeth am sut roedd defnyddwyr gwasanaethau a gofawyr wedi'u cynnwys wrth ddylunio'u cynlluniau gofal a chymorth unigol eu hunain, fel tystiolaeth o sut roedd gwaith i gyflawni canlyniadau unigol ystyrlon yn cael ei ategu;<sup>83</sup>
- adroddiadau ar gyflawni dyletswyddau'r darparwyr gwasanaethau o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*, gan gynnwys addasiadau rhesymol i ddefnyddwyr gwasanaethau sydd â cholled synhwyraidd.<sup>84</sup>

82. Rhoddodd y rhanddeiliaid groeso i'r gofyniad ar yr awdurdodau lleol i lunio adroddiadau blynyddol a fyddai'n cynnwys canolbwyntio ar ganlyniadau defnyddwyr gwasanaethau.<sup>85</sup> Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd CLILC ac ADSS Cymru y dylai'r gofynion

---

<sup>80</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 45 a 113-5\]](#), 21 Mai 2015

<sup>81</sup> [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#)

<sup>82</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 222\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>83</sup> [RISC16 Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru](#)

<sup>84</sup> [RISC26 Sense Cymru](#), [RISC28 RNIB Cymru](#)

<sup>85</sup> [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#), [RISC38 Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

ynghylch adroddiadau blynyddol o dan y Bil gydategu ac adeiladu ar y gofynion presennol ynghylch adroddiadau blynyddol cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, a hynny er mwyn osgoi creu gormod o faich.<sup>86</sup>

83. Dywedodd Cynghrair Cynhalwyr Cymru wrth y Pwyllgor nad yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol esbonio sut maen nhw wedi cynnwys gofalwyr wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, gan awgrymu y dylai adran 144A o Ddeddf 2014, sydd i'w mewnosod gan adran 55 o'r Bil, gael ei diwygio i gynnwys hyn.<sup>87</sup>

84. Croesawodd AGGCC y gofyniad yn y Bil bod rhaid i adroddiadau blynyddol yr awdurdodau lleol, ac adolygiadau AGGCC o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol, gael eu gosod gerbron y Cynulliad. Dywedodd AGGCC y byddai'n gwella tryloywder, a'r gwaith craffu lleol a chenedlaethol ar berfformiad yr awdurdodau lleol. Er hynny, dywedodd AGGCC fod rhaid i'r gofyniad bod rhaid i'r awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad blynyddol ar amcanion lleol a chenedlaethol beidio â thynnu oddi ar y ffocws ar ddarparu gofal a chanlyniadau da i bobl. I helpu yn hyn o beth, awgrymodd AGGCC y dylai'r gofynion ynghylch fformat a chynnwys yr adroddiadau o dan y Bil hwn, a deddfwriaeth arall, fod yn hyblyg ac yn gymesur.<sup>88</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

85. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r darpariaethau yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau lunio a chyflwyno datganiadau blynyddol, ac i'r awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi adroddiadau blynyddol. Er hynny, mae'n nodi'r pryderon a fynegwyd gan ddarparwyr a'r awdurdodau lleol ynghylch y potensial i'r gofynion fod yn feichus. Wrth ddatblygu'r fformat a'r cynnwys angenrheidiol ar gyfer y datganiadau a'r adroddiadau, mae'n bwysig rhoi ystyriaeth i adeiladu ar y dyletswyddau presennol, a sicrhau bod cynllun y fformat yn gelfydd. Rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i sicrhau bod y datganiadau a'r adroddiadau'n cael eu hysgrifennu a'u cyflwyno mewn modd hwylus ac eglur er mwyn sicrhau y gall defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr ac

---

<sup>86</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>87</sup> [RISC09 Cynghrair Cynhalwyr Cymru](#)

<sup>88</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

aelodau eraill o'r cyhoedd eu gweld a'u deall. I gyflawni hyn bydd angen ymgynghori â defnyddwyr gofal cymdeithasol a gofalwyr, darparwyr gofal cymdeithasol, a'r awdurdodau lleol.

86. Mae'r Pwyllgor yn cytuno y dylai datganiadau blynyddol y darparwyr gynnwys manylion y camau y mae'r darparwr yn eu cymryd i wneud gwelliannau lle mae eu hangen a manylion am gynnwys ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, ac y dylai fod yn ofynnol i'r darparwyr gyflwyno adroddiad ar eu dyletswyddau o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*.

**Argymhelliad 10: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymgynghori â'r rhanddeiliaid ynghylch fformat a chynnwys y datganiadau blynyddol a'r adroddiadau blynyddol sy'n angenrheidiol o dan adran 8 o'r Bil, ac o dan adran 144A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (sydd i'w mewnosod gan adran 55 o'r Bil), cyn gwneud rheoliadau ynglŷn â'r adrannau hynny.**

**“Unigolyn cyfrifol”**

87. Mae'r Bil yn ceisio cynyddu atebolrwydd corfforaethol drwy sefydlu rôl yr “unigolyn cyfrifol”. Bydd yn ofynnol i'r unigolyn hwn fod yn gynrychiolydd lefel uchel i'r darparwr gwasanaethau. Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud rheoliadau i osod dyletswyddau ar unigolion cyfrifol.

88. Clywodd y Pwyllgor gan randdeiliaid, gan gynnwys Grŵp Ymgyrch Justice for Jasmine, am yr anawsterau a allai godi wrth geisio cael gwybod pwy oedd yn atebol pan fyddai gofal gwael wedi'i roi. Dywedodd y Grŵp Ymgyrch wrth y Pwyllgor y gallai'r darpariaethau fod yn fuddiol o ran sicrhau bod gan deuluoedd a defnyddwyr gwasanaethau eglurder ynghylch pwy oedd yn atebol, ar yr amod bod yr unigolyn yn gymwys ac yn broffesiynol.<sup>89</sup>

89. Dywedodd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol wrth y Pwyllgor fod yna linellau atebolrwydd clir yn barod mewn cyrff statudol, gan groesawu'r ffaith bod atebolrwydd clir yn cael ei ymestyn i'r sector annibynnol, a dweud y byddai hyn yn helpu eu gwaith comisiynu

---

<sup>89</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 181 a 185\]](#), 13 Mai 2015

nhw.<sup>90</sup> Cafwyd cefnogaeth unfrydol ymysg y rhanddeiliaid i rôl unigolyn cyfrifol, i'w dal gan unigolion digon uchel i fod ag awdurdod i greu newid mewn sefydliad.<sup>91</sup> Er hynny, roedd rhai rhanddeiliaid yn poeni a fyddai gan yr unigolion cyfrifol y gallu i oruchwylio sawl gwasanaeth gofal,<sup>92</sup> ac a allai'r atebolrwydd gael ei lastwreiddio ar lefel y safle unigol.<sup>93</sup>

90. Nododd AGGCC ei bod weithiau yn her dod o hyd i linellau atebolrwydd clir o ran darparwyr gwasanaethau, gan ddweud y byddai enwi unigolyn cyfrifol yn gosod yr atebolrwydd yn union lle y dylai fod.<sup>94</sup> Roedd y Cyngor Gofal yn cytuno, a dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai enwi pobl ar lefel fwy strategol yn lleihau enghreifftiau o osod cyfrifoldebau amhriodol ar reolwyr gofal cymdeithasol.<sup>95</sup>

91. Clywodd y Pwyllgor rai pryderon ynghylch a oedd digon o unigolion a fyddai'n gymwys, yn alluog ac yn llawn cymhellant i ymgymryd â rôl statudol glir ac iddi ddyletswyddau ac atebolrwydd wedi'u diffinio gan y gyfraith, ac ynghylch yr amser a allai fod yn angenrheidiol er mwyn datblygu'r gallu priodol yn y gweithlu.<sup>96</sup> Nododd BCC AGGCC eu bod yn gofidio y gallai newidiadau mynych ymysg unigolion cyfrifol danseilio parhad a chysondeb gwasanaethau gofal.<sup>97</sup>

92. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai diffinio unigolyn uchel a oedd â chyfrifoldebau cyfreithiol arwyddocaol yn unigolyn cyfrifol yn peri bod yr atebolrwydd wedi'i rannu'n briodol:

“amongst those people who, in the end, are making money out of the services that they provide to very vulnerable people”.<sup>98</sup>

93. Cafodd pryderon eu codi hefyd a oedd y darpariaethau ynglŷn â'r unigolyn cyfrifol, fel yr oedden nhw wedi'u drafftio, yn hoelio gormod

---

<sup>90</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 68\]](#), 23 Ebrill 2015, [Cofnod y Trafodion \[para 278\]](#), 21 Mai 2015

<sup>91</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 185\]](#), 29 Ebrill 2015, [RISC18 Y Coleg Nyrsio Brenhinol](#)

<sup>92</sup> [RISC21 Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>93</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 183\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>94</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 110\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>95</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 260\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>96</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 69\]](#), 23 Ebrill 2015, [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>97</sup> [RISC21 Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>98</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 119\]](#), 25 Mawrth 2015

o sylw ar y sector statudol ac annibynnol. Dadleuai cyrff yn y trydydd sector nad oedd y Bil yn rhoi digon o ystyriaeth i'w strwythurau a'u trefniadau nhw, yn enwedig yn achos sefydliadau sy'n gweithredu ledled y Deyrnas Unedig.<sup>99</sup> Dywedodd Barnardo's Cymru wrth y Pwyllgor eu bod o blaid egwyddor yr unigolyn cyfrifol, ond nad oedden nhw'n glir sut y byddai'r darpariaethau'n gweithio yn ymarferol o ran sefydliadau gwirfoddol a allai fod heb y swyddi corfforaethol a ddisgrifir yn adran 19(2) o'r Bil. Yn eu hachos nhw, oherwydd eu strwythur corfforaethol ac am eu bod wedi'u cofrestru ledled y Deyrnas Unedig gyda'r Comisiwn Elusennau, dywedodd Barnardo's Cymru y gallai rhoi'r Bil ar waith fel yr oedd wedi'i ddrafftio olygu bod rhaid i'r unigolyn cyfrifol fod yn aelod o'u Bwrdd Rheoli Corfforaethol ar lefel y Deyrnas Unedig, yn hytrach nag yn uwch-reolwr yng Nghymru.<sup>100</sup> Cydnabu'r Gweinidog y pryderon hyn a dywedodd fod ei swyddogion wrthi'n trafod gyda'r trydydd sector.<sup>101</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

94. Mae'r Pwyllgor yn croesawu sefydlu rôl yr unigolyn cyfrifol er mwyn rhoi eglurder ynghylch ble mae'r atebolrwydd yn gorwedd mewn gwasanaeth rheoleiddiedig. Ar yr amod bod yr unigolyn yn ddigon uchel i greu'r newidiadau diwylliant a all fod yn angenrheidiol, fe ddylai'r darpariaethau hyn gryfhau atebolrwydd ar y lefel gorfforaethol.

95. Er hynny, fe fyddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad gan y Gweinidog ar sut y bydd y darpariaethau'n ymwneud â sefydliadau ar lefel y Deyrnas Unedig neu sefydliadau amlwladol. Bydd angen cydbwysedd i sicrhau bod yr unigolyn yn ddigon uchel yn y sefydliad i greu newid, ond yn ddigon sefydlog yng nghyd-destun Cymru, neu'n ddigon ymwybodol ohono, i sicrhau bod yna oruchwyliaeth ddigonol ar wasanaethau a safleoedd unigol.

**Argymhelliad 11: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol amlinellu sut y bydd y darpariaethau sy'n ymwneud ag unigolion cyfrifol yn gymwys i sefydliadau ar lefel y Deyrnas Unedig neu sefydliadau amlwladol**

---

<sup>99</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 143-4\]](#), 21 Mai 2015

<sup>100</sup> [RISC29 Barnardo's Cymru](#)

<sup>101</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 141\]](#), 3 Mehefin 2015



## **sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, a hynny cyn diwedd toriad haf 2015.**

### **Addaswydd i fod yn berchennog**

96. Rhoddodd y Comisiynydd Pobl Hŷn groeso i'r darpariaethau o ran unigolion cyfrifol, gan ddweud y bydden nhw'n cryfhau atebolrwydd corfforaethol. Er hynny, roedd yn amau i ba raddau y gallai hyn gael ei roi ar waith, ac a fyddai newid diwylliant yn cael ei sicrhau pe bai unigolyn a oedd yn gyfrifol am wasanaeth a oedd yn methu yn colli ei le i aelod arall o'r bwrdd presennol. Dywedodd wrth y Pwyllgor hefyd fod ganddi bryderon bod yna risg y gallai perchnogion diegwyddor roi pwysau amhriodol ar yr unigolyn cyfrifol, oni bai bod y Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch addaswydd i fod yn berchennog gwasanaeth rheoleiddiedig, ynghyd â phrawf priodol o addaswydd a fyddai'n mynd y tu hwnt i hyfywedd ariannol.<sup>102</sup> Dywedodd y dylai'r Bil atal unigolion a oedd wedi bod yn berchnogion o'r blaen ar wasanaethau sydd wedi methu "neu sy'n methu oherwydd gofal gwael neu ansefydlogrwydd ariannol [...] rhag dod i'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru".<sup>103</sup>

97. Pan ofynnwyd iddo am brawf o addaswydd i fod yn berchennog, dywedodd Kelvyn Morris o Grŵp Ymgyrch Justice for Jasmine ei fod yn cytuno bod y mwyafrif o berchnogion yn sefydlu gwasanaethau rheoleiddiedig er mwyn darparu gofal da, ond mai elw oedd sbardun rhai perchnogion. Er hynny, cydnabu anawsterau dod o hyd i berchnogion diegwyddor cyn i broblem godi, a nododd mor bwysig oedd arolygiadau rheoleiddio, dulliau chwythu'r chwiban a dulliau rhoi adborth er mwyn sicrhau bod problemau'n dod i'r fei.<sup>104</sup>

98. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad oedd yn credu y dylai'r Bil gael effaith ar hawliau unigolion i fod yn berchennog eiddo. Dywedodd ei fod o'r farn ei bod yn fwy priodol canolbwyntio ar addaswydd i ddarparu gwasanaethau gofal. Amlinellodd y darpariaethau ynglŷn â chofrestru darparwyr gwasanaethau, gan nodi y byddai'r gofynion ynglŷn â chofrestru yn mynd y tu hwnt i hyfywedd

---

<sup>102</sup> [RISC45 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru](#)

<sup>103</sup> [RISC A108 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru](#)

<sup>104</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 184\]](#), 13 Mai 2015

ariannol, er mwyn cymryd i ystyriaeth a oedd darparwyr yn addas ac yn briodol.<sup>105</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

99. Does gan y Pwyllgor ddim digon o dystiolaeth i wybod a oes yna bryderon helaeth ynghylch perchnogion gwasanaethau rheoleiddiedig. Er hynny, mae o blaid yr egwyddor y dylai fod modd sicrhau bod yna wiriadau priodol i sicrhau na all unigolion anaddas ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth y Gweinidog y bydd y gofynion ynghylch cofrestru darparwyr gwasanaethau yn mynd y tu hwnt i hyfywedd ariannol. Mae'n credu bod rhaid i'r gofynion hyn gynnwys amrediad o feini prawf i sicrhau bod y rhai sy'n darparu gwasanaethau rheoleiddiedig yn addas ac yn briodol i wneud hynny.

**Argymhelliad 12: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adolygu'r darpariaethau yn y Bil er mwyn sicrhau bod yna ddigon o amddiffyniad i atal unigolion anaddas rhag darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.**

### **Chwythu'r chwiban**

100. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, nododd Grŵp Ymgyrch Justice for Jasmine fod gweithwyr gofal cymdeithasol, yn eu profiad nhw, wedi bod yn anfodlon rhoi gwybod am ofal gwael i'r rheoleiddwyr am fod arnyn nhw ofn colli eu swyddi.<sup>106</sup>

101. Dywedodd rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor y bydden nhw'n croesawu cynnwys darpariaethau yn y Bil ynghylch chwythu'r chwiban, fel rhan o newidiadau ehangach yn ethos a diwylliant y sector gofal cymdeithasol. Clywodd y Pwyllgor fod angen diwylliant lle roedd pawb, gan gynnwys staff gofal cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol eraill, defnyddwyr gwasanaethau, a'u teuluoedd, yn teimlo eu bod yn gallu siarad am arferion gwael, a lle byddai rheoleiddwyr, darparwyr a chomisiynwyr yn cymryd camau ynglŷn â'r pryderon hynny.<sup>107</sup>

---

<sup>105</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 126-8\]](#), 3 Mehefin 2015

<sup>106</sup> [RISC49 Grŵp Ymgyrch Justice for Jasmine](#)

<sup>107</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 70\]](#), 23 Ebrill 2015, [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 61, 184-5 a 234\]](#), 29 Ebrill 2015, [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 132 a 198-9\]](#), 13 Mai 2015, [Cofnod y Trafodion \[para 165\]](#), 21 Mai 2015

102. Dywedodd y Comisiynydd Plant wrth y Pwyllgor ei bod yn credu y gallai'r Bil gael ei ddefnyddio i sefydlu disgwyliad bod rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol roi gwybod am gamdriniaeth neu esgeulustod, er enghraifft drwy ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddwyr fynd ati fel rhan o'r broses arolygu i holi sut roedd chwythu'r chwiban yn cael ei alluogi a'i gefnogi yn y manau yr oedden nhw'n eu harolygu.<sup>108</sup> Cytunodd ADSS Cymru fod yna le i gryfhau trefniadau chwythu'r chwiban drwy'r Bil, a sicrhau bod pawb a oedd yn gweithio mewn gofal cymdeithasol yn teimlo y gallai gynnig sylwadau pe bai ganddo bryderon am ansawdd gofal.<sup>109</sup>

103. Does gan y Bil ddim darpariaethau penodol o ran chwythu'r chwiban. Yn ystod y gwaith craffu ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), cyflwynodd William Graham AC welliannau i'r Bil ynghylch chwythu'r chwiban. Tynnodd y gwelliannau yn ôl ar ôl i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd ddweud:

“Nid Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yw'r cyfrwng priodol i ddeddfu ar y mater hwn. Rwyf eisoes wedi ymrwmo i ystyried y mater hwn yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth sydd ar ddod am reoleiddio ac arolygu.

Fodd bynnag, rwyf yn barod i fynd ymhellach heddiw, ac i wneud ymrwymiad cadarn y byddaf yn cynnwys chwythu'r chwiban o fewn y fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer rheoleiddio ac arolygu; os bydd hynny'n bosibl, gwnaf hynny ar wyneb y Bil, ond os nad yw, gwnaf hynny drwy reoliadau neu ganllawiau statudol”.<sup>110</sup>

104. Mae'r darpariaethau ynglŷn â chwythu'r chwiban yn [Neddf Hawliau Cyflogaeth 1996](#) (fel y'i diwygiwyd) (“Deddf 1996”) yn gymwys i ystod eang o weithwyr yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys cyflogeion, contractwyr, gweithwyr asiantaeth, gweithwyr cartref a gweithwyr proffesiynol penodol o dan gontract yn y GIG, megis meddygon a deintyddion. Gan hynny, bydd Deddf 1996 yn gymwys i weithwyr sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Bil. Os bydd gweithwyr o'r fath yn gwneud datgeliad gwarchoddedig (hynny yw, yn chwythu'r chwiban) maen nhw'n cael dibynnu ar yr amddiffyniadau sydd wedi'u

<sup>108</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 68\]](#), 21 Mai 2015

<sup>109</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 70-2\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>110</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn, [Cofnod y Trafodion](#), 11 Chwefror 2014

nodi yn Neddf 1996. Bwriad y darpariaethau hyn yw amddiffyn y sawl sy'n chwythu'r chwiban rhag i rywun dalu'r pwyth, ac felly annog gweithwyr i godi eu llais pan fôn nhw'n ymwybodol o unrhyw drosedd yn y gweithle neu beryglon megis risgiau i iechyd a diogelwch.

105. Mewn llythyr at y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog ei fod yn bwriadu defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau a geir yn adran 26 er mwyn:

“place a duty on service providers to ensure that they have adequate policies and procedures in place with regard to whistle-blowing. Furthermore, the guidance which will be issued pursuant to section 28 of the Bill would then set out more detail in terms of what is expected from those policies and procedures”.<sup>111</sup>

106. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod yna anghytuno rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru a oedd gan y Cynulliad gymhwysedd i ddeddfu ynghylch chwythu'r chwiban neu beidio.<sup>112</sup> Dywedodd y byddai ymagwedd Llywodraeth Cymru at chwythu'r chwiban yn cael ei chynnwys mewn trafodaethau polisi ar y Bil rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Gan nodi y byddai angen i gymhwysedd o ran unrhyw ddarpariaethau yn ymwneud â chwythu'r chwiban gael ei asesu ar sail manylion y ddarpariaeth benodol, ymrwymodd y Gweinidog i rannu cyngor cyfreithiol Llywodraeth Cymru o ran unrhyw gynigion penodol ar gyfer deddfwriaeth y gallai'r Pwyllgor eu hargymell ynghylch cynnwys chwythu'r chwiban yn y Bil.<sup>113</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

107. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn holl-bwysig bod unigolion sy'n dymuno chwythu'r chwiban am arferion gwael a allai greu risg i ddefnyddwyr gwasanaethau yn cael eu hamddiffyn yn iawn. Mae'n croesawu'r bwriad y mae'r Gweinidog wedi'i fynegi i gynnwys gofynion i ddarparwyr gael polisiau i hwyluso chwythu'r chwiban a chodi pryderon.

---

<sup>111</sup> [RISC A112 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 10 Mehefin 2015](#)

<sup>112</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 95\]](#), 3 Mehefin 2015

<sup>113</sup> [RISC A112 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 10 Mehefin 2015](#)

108. Mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Gweinidog y gallai darpariaethau penodol o ran amddiffyn chwythwyr chwiban arwain at gwestiynau ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol, gan ddibynnu ar y darpariaethau penodol a gâi eu cynnig.

109. Mae'r cyngor cyfreithiol a gafodd y Pwyllgor yn awgrymu bod diben ac effaith cyfundrefn ar gyfer chwythu'r chwiban yn perthyn yn ddigon agos i ddarparu lles cymdeithasol neu i hwyluso amddiffyniad a gofal i blant neu bobl sy'n agored i newid nes y gallai darpariaethau ynglŷn â chwythu'r chwiban fod o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

**Argymhelliad 13: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol i reoliadau o dan adran 26 a chanllawiau o dan adran 28 gynnwys gofynion bod rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gael polisïau a gweithdrefnau priodol ynglŷn â chwythu'r chwiban.**

**Hawl i apelio i ddefnyddwyr gwasanaethau**

110. Mae Rhan 10 o Ddeddf 2014 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch ystyried cwynion gan unigolion o ran eu gofal a/neu eu cymorth. Does dim darpariaeth yn y Ddeddf i ddefnyddwyr gwasanaethau neu eu gofalwyr apelio yn erbyn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar eu hasesiad, eu gofal neu eu cymorth.

111. Clywodd y Pwyllgor rywfaint o dystiolaeth gan dystion yn y trydydd sector y gellid barnu bod y diffyg hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau sy'n cael eu cymryd ar eu hasesiad, eu gofal neu eu cymorth yn annheg o'i gymharu â hawl gweithwyr gofal cymdeithasol i apelio yn erbyn penderfyniadau sy'n cael eu cymryd ynglŷn â nhw o safbwynt ei haddasrwydd i ymarfer.<sup>114</sup>

112. Mewn llythyr at y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog nad oedd yn credu y byddai'n briodol cynnwys darpariaethau ar apelio yn y Bil, gan mai mater a oedd yn fwy priodol ar gyfer Deddf 2014 oedd hwn. Esboniodd mai bwriadol oedd hepgor proses apelio o Ddeddf 2014, ac amlinellodd y darpariaethau yn Neddf 2014 ynghylch asesu, ailasesu

---

<sup>114</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 70\]](#), 29 Ebrill 2015

ac adolygu cymhwystra unigolyn ar gais yr unigolyn hwnnw, a'r camau a oedd ar gael drwy weithdrefn gwyno'r awdurdod lleol perthnasol.<sup>115</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

113. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon a godwyd gan rai rhanddeiliaid o ran diffyg proses apelio yn Neddf 2014 i bobl sy'n cael eu hasesu, gan ddyfarnu nad ydyn nhw'n gymwys i gael gwasanaethau. Mae pryderon tebyg wedi'u codi yng nghyd-destun gwaith y Pwyllgor ar [\*Reoliadau Gofal a Chymorth \(Cymhwystra\) \(Cymru\) 2015\*](#).

114. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid sicrhau darpariaeth ddigonol i bobl y dyfarnwyd eu bod yn anghymwys i dderbyn gwasanaethau sicrhau iawn. Mae'n nodi tystiolaeth y Gweinidog o ran y darpariaethau yn Neddf 2014 i roi hawl i unigolion gael ailasesiad ac adolygiad o'u cymhwystra; mae'n bwysig bod y dulliau hyn yn gadarn, a'u bod yn caniatáu ar gyfer iawn priodol.

**Argymhelliad 14: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol barhau i adolygu'r trefniadau sydd wedi'u nodi yn adrannau 19, 21 a 24 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn sicrhau bod y dulliau ar gyfer ailasesu ac adolygu penderfyniadau o ran cymhwystra unigolion yn gadarn ac yn darparu iawn priodol.**

---

<sup>115</sup> [\*RISC A112 Gohebiaeth gan y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 10 Mehefin 2015\*](#)

## 6. Gwasanaethau rheoleiddiedig

---

115. Mae Rhan 1 o'r Bil yn ymwneud â rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'n diffinio 'gwasanaeth rheoleiddiedig' at ddibenion y Bil, ac mae'n darparu bod Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, yn cael rhagnodi gwasanaethau ychwanegol sydd i fod yn wasanaethau rheoleiddiedig, neu sydd i beidio â bod yn wasanaethau rheoleiddiedig.

116. Mae Pennod 2 o Ran 1 yn ymwneud yn benodol â chofrestru gwasanaethau, gan gynnwys y gofyniad bod rhaid cofrestru, prosesau sy'n gysylltiedig ag ymgeisio, amrywio a dileu cofrestriadau, ac apelio. O dan y Bil, ni fydd yn ofynnol mwyach i ddarparwyr gwasanaethau gofrestru ar wahân ar gyfer pob gwasanaeth nac ym mhob lleoliad lle y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

### Ymestyn y gwasanaethau y mae'n ofynnol eu cofrestru

117. Mae'r Gweinidog wedi dweud nad yw'n bwriadu ymestyn y gofyniad bod rhaid cofrestru i unrhyw wasanaethau ychwanegol ar wyneb y Bil, ond ei fod yn bwriadu rhoi ystyriaeth gynnar i ymestyn gwaith rheoleiddio i wasanaethau eiriolaeth, gofal ychwanegol a gwasanaethau gofal dydd drwy ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 2(1)(h). Mae rheoliadau o'r fath yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol, a gofyniad o dan adran 2(4) bod rhaid ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

118. Rhoddodd y rhanddeiliaid groeso i'r pŵer i wneud rheoliadau er mwyn i Weinidogion Cymru ymestyn y rhestr o wasanaethau y mae'n ofynnol iddyn nhw gofrestru gydag AGGCC, ac ymrwymiad y Gweinidog i fynd ati o dro i dro i adolygu a ddylai gwasanaethau gael eu hychwanegu at y rhestr.<sup>116</sup> Cafwyd consensws y byddai hynny'n helpu i sicrhau bod y gyfundrefn reoleiddio yn ddigon hyblyg i ymateb i newidiadau yn y sector gofal cymdeithasol yn sgil Deddf 2014.<sup>117</sup>

119. Er hynny, pwysleisiodd Sense Cymru fod angen cydnabod yr effaith y gallai'r gofyniad i gofrestru ei chael ar ddarparwyr

---

<sup>116</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 267\]](#), 13 Mai 2015

<sup>117</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 15\]](#), 23 Ebrill 2015, [RISC26 Sense Cymru](#)

gwasanaethau. Awgrymodd felly y dylai rheoliadau a gâi eu gwneud o dan adran 2(1)(h) ddod o dan y weithdrefn uwch-gadarnhaol.<sup>118</sup>

120. Roedd tystion yn credu y dylai cofrestru gael ei ymestyn i nifer o wasanaethau, gan gynnwys y canlynol:

– **Gwasanaethau eiriolaeth plant**

Y rheswm am hyn oedd bod y gwasanaethau hyn wedi ennill eu plwyf, ac oherwydd y rhan bwysig sy'n cael ei chwarae gan eiriolwyr.<sup>119</sup> Yn ychwanegol, amrywiol yw ansawdd y gwasanaethau hyn, ac mae'r safonau cenedlaethol cymwys yn wirfoddol a heb gael eu gorfodi'n aml.<sup>120</sup>

– **Pob gwasanaeth eiriolaeth**

Er gwaethaf cefnogaeth eang i hyn, roedd yna bryderon ynghylch sut i ddiffinio rheoleiddio yn y cyd-destun hwn, yn arbennig gan nad oedd effaith Deddf 2014 yn glir eto.<sup>121</sup> Ar ben hynny, honnwyd bod yna risg o niweidio argraffiadau defnyddwyr gwasanaethau a thanseilio annibyniaeth gwasanaethau o'r fath.<sup>122</sup>

– **Ysgolion arbennig preswyl**

Mae'n ofynnol i gartrefi gofal i blant sy'n darparu addysg yn fewnol gofrestru gydag AGGCC ac Estyn. Er hynny, mae ysgolion preswyl sy'n rhoi neu'n trefnu llety i unrhyw blentyn am fwy na 295 o ddiwrnodau bob blwyddyn yn dod o dan drefniadau gwahanol, er y gall plant a phobl ifanc gael gofal personol mewn ysgolion o'r fath. Tynnwyd sylw at hyn fel anghysondeb a allai gael sylw o dan y Bil hwn.<sup>123</sup>

– **Gwasanaethau cymorth tai**

Cafwyd rhywfaint o bryder ynghylch diffyg eglurder,<sup>124</sup> a chefnogaeth i broses gofrestru ehangach, wedi'i seilio ar wasanaethau, a fyddai'n fodd i leoliadau sydd ar hyn o bryd yn cael eu cofrestru ar gyfer gofal cartref yn unig gael eu

---

<sup>118</sup> [RISC26 Sense Cymru](#)

<sup>119</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 104 a 106\]](#), 21 Mai 2015

<sup>120</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 21-4\]](#), 21 Mai 2015

<sup>121</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 20\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>122</sup> [RISC21 Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>123</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 55\]](#), 21 Mai 2015, [RISC51 Comisiynydd Plant Cymru](#)

<sup>124</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 16\]](#), 29 Ebrill 2015



hadnabod a'u harolygu ar gyfer yr ystod ehangach o wasanaethau yr oedden nhw'n eu darparu.<sup>125</sup>

- **Gwasanaethau a sicrheir drwy Daliadau Uniongyrchol neu'r Gronfa Byw'n Annibynnol**

Disgwylir gweld y defnydd ar Daliadau Uniongyrchol a'r Gronfa Byw'n Annibynnol yn cynyddu o dan Ddeddf 2014.<sup>126</sup> Roedd y rhanddeiliaid yn poeni bod yna risg uwch o bosibl i ddefnyddwyr gwasanaethau o'r fath nag yn achos y rhai y mae eu gofal yn cael ei brynu gan awdurdodau cyhoeddus, ac nad yw'n cael ei reoleiddio ar hyn o bryd.<sup>127</sup>

121. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn bwriadu iddi fod yn ofynnol o hyd i'r gwasanaethau hynny y mae'n ofynnol iddyn nhw gofrestru o dan y trefniadau presennol gael eu cofrestru o dan y Bil. Nododd y byddai gan Weinidogion Cymru bwerau i ymestyn cofrestru drwy reoliadau, ond bod angen bod yn gymesur a chymryd y goblygiadau ariannol i ystyriaeth.<sup>128</sup>

122. Cydnabu fod gwasanaethau eiriolaeth i blant wedi ennill eu plwyf ac y gallen nhw gael eu cynnwys o bosibl ar wyneb y Bil fel gwasanaethau rheoleiddiedig. Er hynny, dywedodd ei fod yn bwriadu i'r ystod lawn o wasanaethau eiriolaeth gael eu rheoleiddio yr un pryd, a chadarnhaodd ei fod yn bwriadu i wasanaethau eiriolaeth gael eu cynnwys yn y gyfres gyntaf o reoliadau a gâi eu gwneud o dan y Bil yn 2016, ar ôl trafod gyda'r sector. Dywedodd y byddai hefyd yn ystyried a ddylai fod yn ofynnol i wasanaethau gofal ychwanegol a gwasanaethau gofal dydd gofrestru.<sup>129</sup>

123. Dywedodd Kate Johnson, un o gyfreithwyr Llywodraeth Cymru, fod AGGCC wrthi'n ystyried y materion a godwyd gan y Comisiynydd Plant o ran rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a oedd yn cael eu darparu gan ysgolion arbennig preswyl. Pe bai angen egluro'r diffiniad yn y Bil, meddai, byddai'r Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau i'r perwyl hwnnw.<sup>130</sup>

---

<sup>125</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>126</sup> [RISC26 Sense Cymru](#)

<sup>127</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 11 a 18\]](#), 29 Ebrill 2015, [RISC47 Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru](#)

<sup>128</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 17\]](#), 25 Mawrth 2015

<sup>129</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 17\]](#), 25 Mawrth 2015, [Cofnod y Trafodion \[para 143\]](#), 3 Mehefin 2015

<sup>130</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 145\]](#), 3 Mehefin 2015

## ***Barn y Pwyllgor***

124. Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch yr anghysondeb a godwyd o ran ysgolion arbennig preswyl, ac mae'n croesawu ymrwymiad y Gweinidog i egluro'r diffiniad os bydd angen hynny.

125. Mae'r Pwyllgor yn nodi bwriad y Gweinidog i ystyried a ddylid ymestyn cofrestru drwy reoliadau. Mae'n croesawu ei ddatganiad ei fod yn bwriadu ymestyn cofrestru i'r ystod lawn o wasanaethau eiriolaeth drwy reoliadau, ac mae'n derbyn bod hyn yn deillio o aeddfedrwydd cynyddol rhai gwasanaethau eiriolaeth.

126. Er hynny, mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y dystiolaeth gref a gyflwynwyd gan y rhanddeiliaid o blaid rheoleiddio eiriolaeth, yn enwedig felly gwasanaethau eiriolaeth i blant. Mae eiriolwyr yn darparu gwasanaeth holl-bwysig i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed, ac mae'n bwysig y gall y defnyddwyr gwasanaethau hyn fod yn hyderus bod ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn gywir. Gan hynny, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai gwasanaethau eiriolaeth gael eu cynnwys ar wyneb y Bil, yn hytrach nag mewn rheoliadau.

**Argymhelliad 15: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i gynnwys gofyniad ar wyneb y Bil bod rhaid i wasanaethau eiriolaeth gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.**

### **Rheoleiddio modelau cyflwyno gwasanaethau sy'n dod i'r golwg**

127. Cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol mai un o ganlyniadau Deddf 2014 oedd dyfodiad gwasanaethau ataliol a modelau newydd o gyflwyno gwasanaethau. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod angen i'r Bil fod yn ddigon hyblyg i sicrhau bod yna reoleiddio priodol ar wasanaethau o'r fath, ond cymysg oedd y farn ynghylch i ba raddau yr oedd y Bil yn hyblyg yn hyn o beth.

128. Roedd gan gynrychiolwyr ADSS Cymru safbwyntiau gwahanol ar hyn. Dywedodd Sue Evans fod y Bil yn rhoi cydnabyddiaeth ddigonol i'r potensial y gallai gwasanaethau newydd godi. Er hynny, nododd Phil Evans fod materion yn codi eisoes o ran gwasanaethau a oedd yn cael eu gweddnewid gan Ddeddf 2014, megis gofal ychwanegol a

gwasanaethau gofal dydd. Dywedodd ei fod yn gofidio nad oedd y Bil yn addas ar gyfer ei ddiben eto, o bosibl.<sup>131</sup>

129. Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryder y gallai'r posibilrwydd o gael eich rheoleiddio o dan y Bil atal gwasanaethau arloesol neu wasanaethau o dan arweiniad y defnyddwyr rhag codi a'i bod yn bosibl na fyddai rheoleiddio'n briodol i rai gwasanaethau, megis rhwydweithiau o gymheiriaid neu grwpiau cymorth.<sup>132</sup> Dywedodd Macmillan Cymru fod rhaid i'r fframwaith rheoleiddio ddiogelu defnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed, ond sicrhau hefyd fod gan y rhai sydd wrthi'n datblygu modelau gwasanaeth arloesol ddigon o annibyniaeth.<sup>133</sup>

130. Ailadroddodd y Gweinidog fod y Bil yn gymar i Ddeddf 2014, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol hybu modelau newydd o gyflwyno gwasanaethau megis mentrau cydweithredol a mentrau cymdeithasol. Dywedodd na fyddai Deddf 2014 wedi'i rhoi ar waith yn gyfan gwbl tan fis Ebrill 2016, ac na fyddai'n eglur, nes iddi ddod i rym yn llawn, sut olwg fyddai ar dirlun gofal cymdeithasol. Dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai'r Bil yn galluogi'r gyfundrefn reoleiddio i ymateb i newid yn y sector gofal cymdeithasol drwy ychwanegu modelau gwasanaeth newydd at y rhestr o wasanaethau rheoleiddiedig yn y dyfodol os byddai hynny'n briodol.<sup>134</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

131. Mae'r Pwyllgor yn rhannu pryderon y rhanddeiliaid a fydd y Bil yn gallu ymdopi'n ddigon da â modelau newydd o gyflwyno gwasanaethau a tharo'r cydbwysedd priodol rhwng hybu datblygiadau mewn gwasanaeth ac amddiffyn y cyhoedd.

**Argymhelliad 16: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad i nodi sut mae'n bwriadu monitro ac asesu a ddylai'r gofyniad bod rhaid cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gael ei ymestyn i wasanaethau ataliol, a modelau arloesol o gyflwyno gwasanaethau sy'n codi o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

<sup>131</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 13-4\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>132</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 27\]](#), 29 Ebrill 2015, [RISC26 Sense Cymru](#)

<sup>133</sup> [RISC39 Macmillan Cymru](#)

<sup>134</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 19\]](#), 25 Mawrth 2015

## Model cofrestru wedi'i seilio ar y gwasanaeth

132. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau'n cael eu rheoleiddio fesul lleoliad. Bydd y Bil yn sefydlu model cofrestru sydd wedi'i seilio ar y gwasanaeth. Bydd darparwyr sy'n cynnig sawl gwasanaeth yn cael cyflwyno un cais am gofrestru sawl gwasanaeth. Bydd y darparwyr hefyd yn cael gwneud cais am amrywio neu ddileu eu cofrestriad.

133. Cafwyd consensws cyffredinol ymysg y rhanddeiliaid, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau, cyrff proffesiynol a rheoleiddwyr, fod symud tuag at fodel cofrestru wedi'i seilio ar y gwasanaeth yn gam cadarnhaol a fyddai'n symleiddio ac yn mireinio'r trefniadau,<sup>135</sup> ac yn cynnig hyblygrwydd i'r awdurdodau lleol a'r darparwyr o ran modelau newydd o gyflwyno gwasanaethau.<sup>136</sup> Er hynny, rhybuddiodd rhai rhanddeiliaid fod rhaid i'r dull newydd beidio â thynnu oddi ar ymdeimlad o gyfrifoldeb lleol dros wasanaethau, arolygiadau safle neu siarad â defnyddwyr gwasanaethau unigol.<sup>137</sup>

134. Dywedodd AGGCC y byddai'r model newydd yn caniatáu:

- iddyn nhw gydweithio â darparwyr ar lefel darparwr neu ar lefel gwasanaeth i wneud gwaith gorfodi neu i fynd ar ôl atebion, nid dim ond ar lefel y lleoliadau unigol;
- gwell hyblygrwydd a chyfrannedd o ran cofrestru gwasanaethau neu leoliadau newydd gyda darparwyr sydd eisoes yn bod; ac
- iddyn nhw ddwyn yr unigolion cyfrifol i gyfrif.<sup>138</sup>

135. Dywedodd Phil Evans o ADSS Cymru wrth y Pwyllgor y byddai cofrestru ar sail y gwasanaeth yn cynyddu atebolrwydd ac effeithlonrwydd, gan alluogi'r awdurdodau lleol i ddefnyddio gwybodaeth am un lleoliad neu wasanaeth mewn cysylltiad â lleoliadau neu wasanaethau eraill sy'n cael eu darparu gan yr un darparwr. Er hynny, nododd y byddai strwythur y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru – sydd i raddau helaeth yn cynnwys darparwyr bach sy'n

---

<sup>135</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 139\]](#), 29 Ebrill 2015, [RISC18 Y Coleg Nyrsio Brenhinol](#)

<sup>136</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 8 a 147\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>137</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 140\]](#), 29 Ebrill 2015, [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#), [RISC21 Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>138</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

gweithio ar draws un neu ddau yn unig o leoliadau – yn cyfyngu ar effaith weddnewidiol model sydd wedi'i seilio ar y gwasanaeth.<sup>139</sup>

136. Roedd gan rai rhanddeiliaid bryderon am yr effaith y gallai model cofrestru wedi'i seilio ar y gwasanaeth ym maes gofal cymdeithasol ei chael ar integreiddio ag iechyd, gan y byddai gwasanaethau iechyd yn dal i gael eu rheoleiddio ar sail y sefydliad.<sup>140</sup> Er hynny, rhoddodd Lynda Williams o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (“Bwrdd Cwm Taf”) groeso i’r ymagwedd newydd, gan ddweud y byddai’n helpu’r byrddau iechyd a’r awdurdodau lleol wrth iddyn nhw wneud eu penderfyniadau ar gomisiynu.<sup>141</sup> Dywedodd Kate Chamberlain o AGIC wrth y Pwyllgor nad oedd yn rhag-weld anawsterau o bwys ar gyfer arolygiadau integredig ar iechyd a gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu’n gyhoeddus, ond y gallai gwaith i arolygu gwasanaethau gofal integredig a oedd yn cael eu darparu gan ddarparwyr gofal iechyd annibynnol fod yn fwy cymhleth. Awgrymodd y gallai fod angen mynd i’r afael â chysoni’r dulliau a oedd yn cael eu defnyddio mewn iechyd ac mewn gofal cymdeithasol yn y Papur Gwyrdd a oedd yn yr arfaeth.<sup>142</sup>

137. Clywodd y Pwyllgor rai pryderon gan y rhanddeiliaid ynghylch effaith symud o’r model cofrestru presennol i’r model newydd sydd wedi'i seilio ar y gwasanaeth. Gan gyfeirio at y goblygiadau ariannol a goblygiadau trosiannol eraill, roedd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys AGGCC a CLILC, yn gofyn a fyddai rhai darparwyr yn dewis rhoi’r gorau i fasnachu yn hytrach na chofrestru o dan y trefniadau newydd.<sup>143</sup> Dywedodd David Francis o AGGCC wrth y Pwyllgor y gallai hyn fod yn wir yn benodol yn achos darparwyr a oedd yn eu strwythuro’u hunain at ddibenion treth yn hytrach nag ar sail y gwasanaethau. Awgrymodd y gallai busnesau o’r fath fod yn anfodlon ymuno â’r model cofrestru newydd.<sup>144</sup>

---

<sup>139</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 6-7\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>140</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 225\]](#), 21 Mai 2015

<sup>141</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 255\]](#), 21 Mai 2015

<sup>142</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 191-2\]](#), 21 Mai 2015

<sup>143</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 9 a 113\]](#), 23 Ebrill 2015, [RISC38 Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

<sup>144</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 114\]](#), 23 Ebrill 2015

## ***Barn y Pwyllgor***

138. Mae'r Pwyllgor yn croesawu symud tuag at fodel rheoleiddio sydd wedi'i seilio ar y gwasanaeth, ac mae'n credu y bydd hyn yn helpu i osgoi dyblygu ac yn cynyddu hyblygrwydd i ddarparwyr gwasanaethau ac i'r rheoleiddiwr. Er hynny, mae'n bwysig nad yw cyflwyno'r ymagwedd newydd at gofrestru'n gwanhau'r ffocws ar leoliadau unigol. Rhaid i effaith y model newydd o reoleiddio ar sail y gwasanaeth ar y broses o reoleiddio gwasanaethau integredig mewn iechyd a gofal cymdeithasol gael ei monitro'n ofalus, a'i chymryd i ystyriaeth wrth i unrhyw gynigion ar gyfer deddfau yn y dyfodol gael eu datblygu o ran rheoleiddio gwasanaethau iechyd.

139. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen trefniadau pontio cadarn er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, ac er mwyn ymateb i unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau a allai godi os bydd darparwyr gwasanaethau'n dewis rhoi'r gorau i fasnachu yn hytrach na chofrestru gydag AGGCC o dan y trefniadau newydd.

**Argymhelliad 17: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol amlinellu'r trefniadau a'r cymorth a fydd ar gael i ddarparwyr gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod pontio tuag at fodel cofrestru sydd wedi'i seilio ar y gwasanaeth o dan y Bil.**

### **Diwylliant rheoleiddio yn y sector gofal cymdeithasol**

140. Cyfeiriodd sawl un o'r rhanddeiliaid at bwysigrwydd diwylliant rheoleiddio. Dywedodd AGGCC wrth y Pwyllgor fod angen i bob rhan o'r sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys rheoleiddwyr, darparwyr, a chomisiynwyr yn yr awdurdodau lleol ac ym myd iechyd, rannu atebolrwydd a chydweithio'n systemataidd.<sup>145</sup> Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, disgrifiodd CLILC ac ADSS Cymru yr angen am newid diwylliant mewn sefydliadau fel un o'r rhwystrau posibl mwyaf a allai atal y Bil rhag cael ei roi ar waith.<sup>146</sup>

141. Dywedodd Rhian Huws Williams o'r Cyngor Gofal mai bwriad y Gweinidog oedd y dylai'r Bil helpu i newid yr ethos sy'n sail i waith

---

<sup>145</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 109\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>146</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol. Dywedodd mai'r bwriad oedd symud at fodel a oedd yn golygu:

“regulation for improvement, for success, as opposed to regulation that defines and focuses on failure – becomes an important component of that to create that culture of transparency and openness from the point of determining the services that are required, and the move to working together across boundaries with a co-production model right through to evidencing whether something continues to be viable”.<sup>147</sup>

142. Dywedodd Phil Evans o ADSS Cymru wrth y Pwyllgor fod newid diwylliant wedi dechrau, ond y byddai'n cymryd amser i sicrhau newid ymddygiad a diwylliant ymysg darparwyr gwasanaethau, comisiynwyr, a rheoleiddwyr y gwasanaethau a'r gweithlu.<sup>148</sup>

143. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn credu y byddai darparwyr gwasanaethau yn disgrifio'u perthynas ag AGGCC fel un “gritty” yn hytrach nag un “cosy”. Cydnabu fod yna risg mewn sector cymharol fach:

“relationships that ought to be constructive and challenging can shade into being too cosy, and we have to make sure that that doesn't happen”.<sup>149</sup>

144. Dywedodd nad oedd am weld sefyllfa lle roedd y rheoleiddiwr yn cael ei weld gan y darparwyr fel gelyn; yn hytrach roedd yn awyddus i weld ffocws ar wella, nid ar ddadlennu methiannau. Dywedodd y Gweinidog hefyd ei fod yn credu bod y “step change” yn ymglymiad defnyddwyr gwasanaethau a phobl leyg yn y gyfundrefn gofal cymdeithasol ac arolygu yn helpu i gadw'r system yn onest ac yn galluogi'r rheoleiddiwr i helpu gwelliannau.<sup>150</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

145. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen newid sylfaenol yn niwylliant ac ethos rheoleiddio ac arolygu. Er ei fod yn cydnabod yr angen i'r rhanddeiliaid yn y sector weithio gyda'i gilydd i sbarduno gwelliant, er

---

<sup>147</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 269\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>148</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 49\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>149</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 81\]](#), 3 Mehefin 2015

<sup>150</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 81-2\]](#), 3 Mehefin 2015

mwyn i reoleiddio weithio'n effeithiol, mae'n glir bod angen her ddigon cadarn o du'r rheoleiddwyr i ddarparwyr gwasanaethau. Mae yna risg y gallai'r her gadarn hon gael ei chyfaddawdu os bydd yna berthynas rhy agos rhwng y rheoleiddwyr a'r sector.

146. Nid yw'r Pwyllgor wedi'i ddarbwylo gan farn y Gweinidog y bydd ymglymiad defnyddwyr gwasanaethau a lleygwyr, ar ei ben ei hun, yn dod â'r dycnwch angenrheidiol i'r gyfundrefn rheoleiddio ac arolygu. Mae ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymglymiad cyhoeddus yn hanfodol, ond ddylai'r rhain ddim cael eu gweld fel elfennau a all gymryd lle gwaith rheoleiddio a herio cadarn gan y rheoleiddiwr.

**Argymhelliad 18: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol amlinellu sut y bydd y Bil yn sicrhau diwylliant o reoleiddio ac arolygu lle nad yw'r ffrydiau cefnogi a gwella yng ngwaith Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn cyfaddawdu'r broses o reoleiddio a gorfodi cadarn ac effeithiol.**



## 7. Diffinio ‘gofal’

---

### Diffinio ‘gofal’

147. Mae adran 3 o'r Bil yn diffinio ‘gofal’ a ‘cymorth’ at ddibenion y Bil. Mae'r Bil yn dweud bod gofal yn ymwneud â thasgau ac anghenion corfforol beunyddiol y person sy'n derbyn gofal; a'r prosesau meddyliol sy'n gysylltiedig â'r tasgau a'r anghenion hynny. Mae'n diffinio ‘cymorth’ i olygu cwnsela, cyngor neu unrhyw gymorth arall sy'n cael ei roi fel rhan o gynllun sydd wedi'i lunio.

148. Roedd llawer o randdeiliaid yn pryderu ynghylch i ba raddau yr oedd y diffiniad o ‘gofal’ yn y Bil yn gyson ag ethos ac ymagwedd Deddf 2014, yn benodol o ran ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, a chydabod eu llesiant gwybyddol ac emosiynol, eu hanghenion, a'u hawl i gael llais a rheolaeth.<sup>151</sup> Tynnodd rhai sylw at yr amwysedd ynghylch prosesau meddyliol pwy a oedd o dan sylw yn adran 3(1)(b) – ai prosesau'r defnyddiwr gwasanaeth ynteu prosesau'r gweithiwr gofal cymdeithasol.<sup>152</sup> Roedd y rhanddeiliaid yn pryderu bod y diffiniad yn gyfyngol, yn gul ac yn hen-ffasiwn o ran ei ffocws,<sup>153</sup> gan ddweud wrth y Pwyllgor y byddai'r ymagwedd ehangach, wedi'i seilio ar lesiant, a geid yn Neddf 2014 yn debycach o gymell gofal o ansawdd dda.<sup>154</sup>

149. Dywedodd Cynghrair Henoed Cymru wrth y Pwyllgor eu bod yn pryderu y gallai ymagwedd at ddiffinio gofal a oedd yn dibynnu'n ormodol ar dasgau arwain at ddulliau a oedd yn canolbwyntio'n ormodol ar dasgau wrth gomisiynu gwasanaethau a fyddai'n methu rhoi digon o ystyriaeth i gyflawni a chynnal canlyniadau personol.<sup>155</sup> Yn yr un modd â rhanddeiliaid eraill, roedd y Comisiynydd Plant yn credu bod y ffocws ar dasgau corfforol fel pe bai'n rhoi blaenoriaeth anghymesur i anghenion corfforol yn hytrach na llesiant emosiynol.<sup>156</sup>

150. Gan siarad ar ran darparwyr gwasanaethau, dywedodd yr UKHCA wrth y Pwyllgor fod y diffiniad yn y Bil yn peri siom, ac y byddai'n well ganddyn nhw weld diffiniad mwy holistig o ofal a fyddai'n cynnwys

---

<sup>151</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 31\]](#), 29 Ebrill 2015, [Cofnod y Trafodion \[para 37\]](#), 13 Mai 2015, [RISC03 Coleg y Therapyddion Galwedigaethol](#)

<sup>152</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 32\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>153</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 36-8\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>154</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 65\]](#), 21 Mai 2015, [RISC40 Cymdeithas Alzheimer](#)

<sup>155</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 122\]](#), 13 Mai 2015

<sup>156</sup> [RISC51 Comisiynydd Plant Cymru](#)

gwasanaethau ymgysylltu cymdeithasol a chymorth â thasgau sy'n gysylltiedig ag iechyd.<sup>157</sup>

151. Er hynny, dywedodd AGGCC wrth y Pwyllgor y dylai'r diffiniad yn y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio gael ei weld fel man cychwyn, ar gyfer y safonau ansawdd a'r codau a gâi eu gwneud o dan y Bil ac a fyddai'n cynnig nodau o ran ansawdd gofal.<sup>158</sup>

152. Mae Datganiad Llywodraeth Cymru o Fwriad y Polisi'n nodi mai diben y diffiniad yw gosod y paramedrau y gallai gwasanaethau gael eu rheoleiddio o'u mewn yn y dyfodol. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, cydnabu'r Gweinidog y pryderon a godwyd gan y rhai a oedd wedi rhoi tystiolaeth, ond dadleuodd fod y pryderon yn deillio o gamddeall bwriad y Bil. Dywedodd wrth y Pwyllgor y dylai'r diffiniad o 'gofal' yn adran 3 gael ei ystyried yng nghyd-destun adran 26.

153. Mae adran 26 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran gwasanaethau rheoleiddiedig. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff y rheoliadau hyn gynnwys darpariaethau sy'n pennu'r safon gofal a'r cymorth y mae'n rhaid eu rhoi. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, wrth wneud rheoliadau o dan is-adran (3), roi sylw i'r safonau ansawdd a fydd yn cael eu cynnwys mewn unrhyw god a gyhoeddir o dan adran 9 o Ddeddf 2014 (codau i helpu i gyflawni canlyniadau llesiant).

154. Fel hyn, meddai'r Gweinidog wrth y Pwyllgor "the Bill does put a whole new emphasis on well-being and on improvement". Dywedodd:

"the standards that will be set through the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill will be standards that have to take account of not just the physical but the mental health and the well-being of users of the services. The standards will reflect that and the inspection regime will report against it".<sup>159</sup>

155. Mewn nodyn i'r Pwyllgor yn sgil tystiolaeth y Gweinidog, dywedodd Cynghrair Ail-alluogi Cymru, Cynghrair Cynhalwyr Cymru a Chynghrair Gofal Cymdeithasol a Llesiant Cymru eu bod yn derbyn

---

<sup>157</sup> [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#)

<sup>158</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 159\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>159</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 27-9\]](#), 25 Mawrth 2015

eglurhad y Gweinidog. Er hynny, dywedodd y cynghreiriau y bydden nhw'n parhau:

“to recommend that it [sef y diffinaid o ‘gofal’] be removed or altered and replaced with a definition which supports more explicitly the intent of the 2014 Act [...] The definition needs to provide users with a real understanding of what care means and what they can expect”.<sup>160</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

156. Mae'r Pwyllgor yn rhannu pryderon y rhanddeiliaid bod y diffiniad o 'gofal' yn y Bil yn canolbwyntio'n ormodol ar dasgau, ac nad yw'n rhoi ystyriaeth ddigonol i anghenion holistig unigolion, nac i bwysigrwydd y cydadwaith rhwng pobl.

157. Mae'n cydnabod esboniad y Gweinidog, ond mae'n pryderu bod y ddeddfwriaeth wedi'i drafftio mewn modd sy'n golygu nad yw hyn yn glir i gynifer o'r rhai sydd wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau, y trydydd sector, y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant. Os yw'r gofal sy'n cael ei roi i bobl yng Nghymru am gymryd eu llesiant i ystyriaeth yn llawn, rhaid i'r ddeddfwriaeth gael ei deall yn glir gan y rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno'r gofal hwnnw, a chan y rhai sy'n eu dwyn nhw i gyfrif, yn ogystal â chan y bobl sy'n derbyn y gofal.

**Argymhelliad 19: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i'r diffiniad o 'gofal' yn adran 3 o'r Bil er mwyn sicrhau ei fod yn cymryd i ystyriaeth y diffiniad o 'llesiant' yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

158. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai pwerau dewisol yw'r pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 26(1) a (3) o'r Bil. Yn y Datganiad o Fwriad y Polisi, mae'r Gweinidog wedi dweud ei fod yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn. O gofio mor bwysig yw'r rheoliadau hyn er mwyn sicrhau bod llesiant unigolion yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth arolygu ansawdd gofal, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r darpariaethau hyn gael eu diwygio i ddweud bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o'r fath, yn hytrach na dweud y caniateir iddyn nhw eu gwneud.

---

<sup>160</sup> [RISC AI01 Cynghrair Ail-alluogi Cymru, Cynghrair Cynhalwyr Cymru a Chynghrair Gofal Cymdeithasol a Llesiant Cymru](#)

**Argymhelliad 20: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adrannau 26(1) a (3) i'w gwneud yn ofynnol bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o ran gwasanaethau rheoleiddiedig yn hytrach na chaniatáu iddyn nhw eu gwneud.**

159. Mae rheoliadau o dan adran 26(1) yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod adran 26(5) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori, cyn gwneud rheoliadau o dan adran 26, â'r personau hynny sydd yn eu barn nhw'n briodol oni bai mai mân newidiadau yn unig sy'n cael eu gwneud, o dan adran 26(6) gan y rheoliadau hynny i reoliadau eraill sydd wedi'u gwneud o dan yr adran. O gofio arwyddocâd y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan yr adran, mae'r Pwyllgor yn credu y byddai'n briodol iddi fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad yn nodi sut mae canlyniadau'r ymgynghori wedi dylanwadu ar y rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adrannau 26(1) a (3).

**Argymhelliad 21: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i adran 26 i'w gwneud yn ofynnol llunio datganiad am yr ymgynghori a gynhaliwyd o dan adran 26(5) i gyd-fynd â rheoliadau drafft ynghylch gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau, gan gynnwys safon y gofal a'r cymorth y mae'n rhaid eu darparu.**

## 8. Arolygiadau

---

### Y gyfundrefn arolygu

160. Mae Rhan 1, pennod 3 yn nodi pwerau Gweinidogion Cymru i fynnu gwybodaeth, a phwerau a swyddogaethau arolygwyr awdurdodedig sy'n cynnal arolygiadau o wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys caniatáu i arolygwyr sicrhau gwybodaeth, arolygu gwasanaethau, cyf-weld â staff yn breifat, a chipio dogfennau.

161. Dywedodd y rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor y byddai graddfa effaith rheoleiddio ac arolygiadau ar ansawdd gwasanaethau gofal yn dibynnu ar i ba raddau y câi argymhellion y rheoleiddiwr ar gyfer gwelliannau eu rhoi ar waith a'u dilyn. Dywedodd y Fonesig June Clark nad oedd y Bil yn rhoi digon o sylw i hyn, a hefyd:

“there are many reports of failure by the service providers to implement recommendations, infrequency of follow-up inspections, and lack of appropriate sanctions or incentives to ensure implementation”.<sup>161</sup>

162. Roedd Dan Pitt, cyn ddefnyddiwr gwasanaethau ac aelod o Fwrdd Cynghori Cenedlaethol AGGCC, yn cytuno bod angen canolbwyntio ar arolygiadau dilynol. Er hynny, lle roedd y safonau'n methu, yn hytrach na chanolbwyntio ar sancsiynau neu gosbau, dywedodd y dylid canolbwyntio ar adsefydlu. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

“What we need to have is a creative and positive outlook in helping services to become consistent, wherever they are in Wales”.<sup>162</sup>

163. Cafwyd consensws cyffredinol yn y dystiolaeth y dylai'r gyfundrefn rheoleiddio ac arolygu hoelio sylw ar ansawdd bywyd, canlyniadau unigolion, a sicrhau bod y canlyniadau hynny'n cael eu sicrhau mewn modd urddasol, llawn gofal.<sup>163</sup> Cafodd y bwriad i symud oddi wrth ymagwedd wedi'i seilio ar gydymffurfio at ymagwedd sy'n canolbwyntio ar bobl, ac ar eu canlyniadau a'u hanghenion, ei

---

<sup>161</sup> [RISC42 Yr Athro y Fonesig June Clark](#)

<sup>162</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 224\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>163</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 235\]](#), 23 Ebrill 2015, [Cofnod y Trafodion \[para 143\]](#), 29 Ebrill 2015, [Cofnod y Trafodion \[para 128\]](#), 13 Mai 2015, [RISC22 Cynghrair Pensiynwyr y Gwasanaeth Sifil](#)

groesawu'n eang fel un a oedd yn angenrheidiol er mwyn gwireddu dyheadau Deddf 2014.<sup>164</sup>

164. Er hynny, roedd yna bryder y byddai sefydlu ymagwedd wedi'i seilio ar ganlyniadau yn anodd yn ymarferol ac yn gofyn am newid diwylliant, yn ogystal â newidiadau mewn systemau a phrosesau.<sup>165</sup> Dywedodd Colin Angel o'r UKHCA y gallai marchnadoedd lleol gael eu hansefydlogi oni bai bod pobl yn meddwl yn ofalus am sut y byddai model wedi'i seilio ar ganlyniadau ac a oedd yn talu yn ôl y canlyniadau yn gweithio.<sup>166</sup> Dywedodd Melanie Minty o Fforwm Gofal Cymru wrth y Pwyllgor y byddai'r dull hwn yn gofyn am gryn newid diwylliant ymysg darparwyr a chomisiynwyr, ac y byddai'n bwysig sicrhau bod manylion y dull yn gywir.<sup>167</sup>

165. Dywedodd Fforwm Gofal Cymru wrth y Pwyllgor y bydden nhw'n croesawu ymagwedd debyg i'r un a oedd wedi'i mabwysiadu wrth reoleiddio hylendid bwyd, lle roedd y darparwyr yn cael cymorth gan yr awdurdodau lleol i wella'u gwasanaeth. Cyferbynnodd y Fforwm hyn â'r hyn yr oedd yn ei ddisgrifio fel "regulatory focus" AGGCC, gan ddweud bod ar ddarparwyr eisiau darparu gwasanaeth da, ond y gallai fod arnyn nhw angen cymorth a chefnogaeth i wneud hynny.<sup>168</sup>

166. Dywedodd Stewart Blythe o CLILC fod yr ymagwedd a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael ei dilyn mewn gwledydd eraill hefyd, yn enwedig yn yr Alban. Er hynny, dywedodd nad oedd y rheoleiddiwr wedi cael ei gynnwys eto yn yr Alban, a allai arwain at:

"almost two systems [...]: you've got social care practice, which is focusing on an outcomes-based approach, but you've got a regulator which is then looking at almost some of the other issues which aren't being focused on by the social workers or social care. So, you end up with local authorities and social care having to demonstrate two different practices: one to appease

---

<sup>164</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 32\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>165</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#), [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#), [RISC26 Sense Cymru](#)

<sup>166</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 145\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>167</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 144\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>168</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 163\]](#), 29 Ebrill 2015

the regulators and one to say, ‘This is the approach that we are taking and this is why we’re doing it’<sup>169</sup>.

167. Dywedodd AGGCC wrth y Pwyllgor fod y Bil yn ceisio ailgydbwysu sut roedd rheoleiddio’n cael ei ddefnyddio, er mwyn rhoi blaenoriaeth i lesiant pobl a oedd yn defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol. Dywedodd AGGCC eu bod wedi bod yn gweithio ar gynnwys canlyniadau unigolion yn eu methodoleg arolygu ers 2012, gan ddweud hyn:

“it’s very important to understand that the quality and safety of services is protected, promoted and maintained throughout a service, and I think it’s really important to focus on the impact of those services for the people who receive them”.<sup>170</sup>

168. Dywedodd David Francis o AGGCC wrth y Pwyllgor fod adborth gan y darparwyr yn sgil cynlluniau peilot cychwynnol arolygiadau wedi’u seilio ar ganlyniadau wedi dangos y gallai rhannu’r adroddiadau gyda’r staff helpu i gymell y staff a chodi eu hysbryd.<sup>171</sup>

169. Er mwyn iddi fod yn effeithiol, clywodd y Pwyllgor y byddai ymagwedd a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn gofyn am gyd-ddealltwriaeth ymysg y comisiynwyr, y darparwyr, y rheoleiddwyr, y gweithlu a’r dinasyddion (gan gynnwys plant a phobl ifanc) o ran sut beth oedd “da”.<sup>172</sup> Nododd tystion y gallai hyn fod yn her, am y gallai fod gan ddefnyddwyr gwasanaethau safbwyntiau pur wahanol i weithwyr proffesiynol.<sup>173</sup>

170. Cafodd pryderon eu codi hefyd ynghylch heriau cyfuno canlyniadau unigolion mewn ffordd ystyrlon at ddibenion arolygu gwasanaethau. Dywedodd Sue Evans o ADSS Cymru wrth y Pwyllgor:

“speaking to real people about what matters to them and the impact of a service or support they’re receiving is absolutely the right thing to do, underpinned by activity data so you get some of that quantitative analysis. So, it is the right way, but

---

<sup>169</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 40-2\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>170</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 108-9\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>171</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 137-8\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>172</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>173</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 128\]](#), 21 Mai 2015

it's making sure it's proportionate to what we get out of it, I think".<sup>174</sup>

171. Roedd Phil Evans, hefyd o ADSS Cymru, yn croesawu symud tuag at gyfuniad o asesiadau meintiol ac ansoddol ar wasanaethau, ond dywedodd ei fod yn pryderu y ceid cynnydd yng nghostau rheoleiddio a gostyngiad cyfatebol yng ngraddfa'r gwaith rheoleiddio a oedd yn cael ei wneud.<sup>175</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

172. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffocws ar ganlyniadau unigolion yn y trefniadau arolygu o dan y Bil, ond mae'n cydnabod pryderon y rhanddeiliaid.

**Argymhelliad 22: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi rhagor o fanylion cyn diwedd toriad haf 2015 am sut mae'n rhag-weld y bydd y darpariaethau o ran arolygu wedi'i seilio ar ganlyniadau yn gweithio'n ymarferol, ac a ddisgwylir y bydd yna oblygiadau o ran adnoddau neu gapasiti i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn sgil hynny.**

### **Darpariaeth i siarad yn breifat ag arolygwyr**

173. Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yn croesawu'r darpariaethau i arolygwyr siarad yn uniongyrchol ac yn breifat â'r rhai a oedd yn cael gwasanaethau fel rhan o'r broses arolygu. Er hynny, cafodd pryderon eu codi ynghylch y diffyg eglurder o ran a fyddai gan yr arolygwyr ddigon o hyfforddiant i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a oedd ag anawsterau cyfathrebu, er enghraifft o ganlyniad i ddementia, a diffyg darpariaeth i arolygwyr siarad â gofalwyr.<sup>176</sup> Awgrymwyd hefyd y byddai'n briodol bod eiriolwyr annibynnol ar gael i helpu defnyddwyr gwasanaethau i ymgysylltu â'r broses arolygu, neu i'r arolygwyr ddychwelyd yn nes ymlaen i siarad â defnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr neu unigolion perthnasol eraill.<sup>177</sup>

---

<sup>174</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 36\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>175</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 34\]](#), 25 Mawrth 2015

<sup>176</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 97\]](#), 29 Ebrill 2015, [RISC09 Cynghrair Cynhalwyr Cymru](#), [RISC15 Ategi Shared Lives](#), [RISC40 Cymdeithas Alzheimer](#)

<sup>177</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 194\]](#), 13 Mai 2015, [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 36-7 a 42\]](#), 21 Mai 2015, [RISC35 Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro](#)



## ***Barn y Pwyllgor***

174. Mae'r Pwyllgor yn cytuno y dylai pob safbwynt perthnasol gael ei gymryd i ystyriaeth fel rhan o arolygiadau, gan gynnwys safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, teuluoedd, gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, darparwyr gwasanaethau a chomisiynwyr. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r rhanddeiliaid bod rhaid sicrhau trefniadau i helpu'r grwpiau hyn i gymryd rhan, boed drwy ailymweliadau yn sgil arolygiadau dirybudd, ffurflenni ar-lein, cymorth eiriolwyr, neu ddulliau eraill.

**Argymhelliad 23: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau er mwyn cynnwys o fewn adran 33 o'r Bil, ac adran 161 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (i'w mewnosod gan adran 56 o'r Bil), ddarpariaeth i arolygwyr gael siarad â gofalwyr defnyddwyr gwasanaethau, eu teulu neu bobl berthnasol eraill yn breifat.**

**Argymhelliad 24: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gynnwys gofynion bod rhaid i arolygwyr gael eu hyfforddi'n briodol i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau sydd ag anghenion cyfathrebu penodol yn y codau ymarfer o ran arolygu sydd i'w cyhoeddi o dan adran 32 o'r Bil, ac adran 161A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (i'w mewnosod gan adran 56 o'r Bil).**

## **Graddau ansawdd**

175. Mae adran 35 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch graddau arolygu o ran ansawdd y gofal a'r cymorth sy'n cael eu rhoi gan ddarparwr gwasanaethau. Mae adran 149B o Ddeddf 2014 (sydd i'w mewnosod gan adran 56 o'r Bil) yn gwneud darpariaeth debyg o ran awdurdodau lleol.

176. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn disgrifio'r cynnig ynglŷn â graddau ansawdd fel y newid mwyaf arwyddocaol mewn arolygiadau. Cyn i'r pŵer gael ei ddefnyddio, mae'n dweud y bydd ymgynghori arwyddocaol â'r rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Mae'r rheoliadau o dan adran 35(1) yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol, ond does dim gofyniad bod rhaid ymgynghori ar wyneb y Bil.

177. Cafwyd consensws cyffredinol y byddai defnyddio graddau ansawdd yn beth cadarnhaol, ar yr amod y gallech fod yn hyderus bod y graddau'n gyson, yn gadarn ac yn ystyrlon. Dywedodd AGGCC wrth y Pwyllgor y byddai'n werthfawr adnabod tueddiadau yn y graddau ansawdd dros amser er mwyn pwysu a mesur perfformiad darparwyr ar draws lleoliadau ac asesu perfformiad comisiynwyr.<sup>178</sup>

178. Nododd y rhanddeiliaid ei bod yn bwysig sicrhau digon o wrthrychedd a chysondeb mewn graddau ansawdd i osgoi peri dryswch i ddefnyddwyr gwasanaethau neu randdeiliaid eraill.<sup>179</sup> Cafodd rhai pryderon eu codi am sut y byddai amrywiadau sydyn yn ansawdd y gwasanaeth yn cael eu casglu mewn graddau ansawdd, a fyddai'n gipolwg ar wasanaeth penodol ar adeg benodol.<sup>180</sup>

179. Cafwyd consensws bod rhaid i'r graddau ansawdd fod ar gael ar fformat clir, hwylus a hawdd ei ddarllen er mwyn osgoi camddechongli neu gamddeall ymysg defnyddwyr gwasanaethau.<sup>181</sup> Dywedodd yr UKHCA y byddai graddau ansawdd, yn ychwanegol at fod o les i ddarparwyr, yn cynnig gwell gwybodaeth i'r cyhoedd na'r adroddiadau arolygu presennol, a ddisgrifiodd fel hyn:

“not always particularly eloquently or logically written, which then leads to: ‘Yes, but what does this mean if I’m the person using the service?’”<sup>182</sup>

180. Roedd Fforwm Gofal Cymru hefyd o blaid cyflwyno system graddau ansawdd fel modd i hybu gwelliannau parhaus. Rhoddodd gymhariaeth â'r system sgoriau hylendid bwyd, gan ddweud bod honno'n syml ac yn cael ei deall yn dda. Dywedodd Melanie Minty, ar ran Fforwm Gofal Cymru, wrth y Pwyllgor y byddai sefydlu system raddio ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol yn fwy cymhleth, gan bwysleisio'r angen am gydweithredu a gweithio ar y cyd â'r sector gofal cymdeithasol wrth benderfynu ar y manylion.<sup>183</sup> Nododd Christopher Dunn o Voices from Care y byddai'n bwysig sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'r presennol a'r gorffennol yn cael eu

---

<sup>178</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>179</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 93\]](#), 23 Ebrill 2015, [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 135-6\]](#), 13 Mai 2015

<sup>180</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 93-4\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>181</sup> [RISC26 Sense Cymru](#), [RISC28 RNIB Cymru](#), [RISC37 Croes Goch Prydain](#)

<sup>182</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 149\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>183</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 150\]](#), 29 Ebrill 2015

cynnwys wrth sefydlu'r fframwaith ansawdd a sut beth fyddai pob un o'r graddau.<sup>184</sup>

181. Dywedodd Imelda Richardson wrth y Pwyllgor y byddai'r fframwaith graddau ansawdd yr oedd AGGCC yn ei drafod gyda'r sector gofal cymdeithasol yn darparu graddau ar lesiant pobl, arweinyddiaeth a rheolaeth, ansawdd y gofal a'r cymorth, ac ansawdd yr amgylchedd. Dywedodd y byddai hyn yn cynnig "an opportunity to have a transparent and open account of every part of the business".<sup>185</sup>

182. Cafwyd consensws ymysg y rhanddeiliaid, gan gynnwys sefydliadau darparwyr, y byddai graddau ansawdd yn cael eu croesawu gan ddarparwyr fel modd i sicrhau cydnabyddiaeth a gwobr am eu gwasanaethau.<sup>186</sup> Roedd y dystiolaeth yn awgrymu y byddai'r graddau'n gymhelliant i wella ansawdd y tu hwnt i'r safonau gofynnol gan godi ansawdd gofal cymdeithasol.<sup>187</sup> Nododd John Moore o Age Cymru a My Home Life Cymru ei fod ef wedi cymryd rhan wrth ddatblygu fframwaith ansawdd rhanbarthol ar gyfer cartrefi gofal yn ardal Bae'r Gorllewin. Dywedodd eu bod wedi hoelio sylw ar nodi sut beth fyddai'r perfformiad ar bob safon, er mwyn helpu gwasanaethau i ymgyrraedd at safonau darparu uwch ac i gynnig cymhellion ar gyfer buddsoddi a gwella.<sup>188</sup>

183. Dywedodd AGGCC wrth y Pwyllgor y byddai cyflwyno graddau ansawdd yn sbarduno gwelliannau mewn gwasanaethau rheoleiddiedig ac yn swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol, gan gynnwys comisiynu.<sup>189</sup> Nododd David Francis fod y Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol wedi cynnal cynllun peilot ynglŷn â graddau ansawdd yn Lloegr a arweiniodd at ostyngiad yn lefel y darparwyr gwael o 22 y cant i rhwng 3 a 5 y cant. Er hynny, dywedodd fod y graddau wedi canolbwyntio'n fwy ar ddiogelwch nag ar agweddau fel llesiant emosiynol. Dywedodd fod AGGCC wedi ymrwymo i roi mwy o ystyriaeth i ansawdd bywyd pobl.<sup>190</sup>

---

<sup>184</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 227-9\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>185</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 136\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>186</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 119\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>187</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 137-8\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>188</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 138-9\]](#), 13 Mai 2015

<sup>189</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>190</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 137-8\]](#), 23 Ebrill 2015

184. Er hynny, dywedodd y rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor nad oedd graddau ansawdd ar eu pen eu hunain yn ddigon i alluogi pobl i wneud penderfyniadau am y gwasanaeth a oedd yn iawn iddyn nhw. Nododd John Moore o My Home Life Cymru fod ar ddefnyddwyr gwasanaethau gwahanol anghenion gwahanol, a'i bod yn bosibl felly y gallen nhw ddewis gwasanaethau gwahanol.<sup>191</sup>

185. Cafodd pryderon eu codi hefyd ynghylch y risg o ganolbwyntio ar y sgôr neu'r radd, yn hytrach nag ar unrhyw naratif cysylltiedig ynghylch ansawdd y gwasanaeth neu'r hyn y gallai fod angen ei wella,<sup>192</sup> a dywedodd rhai o'r rhanddeiliaid y byddai'n well ganddyn nhw weld naratif gryno a fyddai'n disgrifio'r perfformiad ac yn llywio penderfyniadau gwybodus.<sup>193</sup>

186. Dywedodd Kate Chamberlain o AGIC wrth y Pwyllgor y gallai symud at fframwaith graddau ansawdd ddadlennu diffygion a oedd heb ddod i'r golwg o'r blaen. Er y gallai dod o hyd i ofal gwael drwy'r fframwaith graddau effeithio ar y galw am rai gwasanaethau neu ar y gwasanaethau a oedd ar gael yn y tymor byr, dywedodd nad oedd hynny'n ddadl yn erbyn cyflwyno graddau a allai godi ansawdd yn y tymor hirach.<sup>194</sup>

187. Cododd rhai rhanddeiliaid bryderon ynghylch yr effaith bosibl ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd pe bai eu darparwyr gwasanaethau'n cael graddau gwael, gan ddweud bod angen meddwl am reoli'r effaith.<sup>195</sup> Pe bai gwasanaethau'n cael graddau gwael, dywedodd rhai y byddai'n bwysig i'r darparwr gwasanaethau gyhoeddi manylion ynglŷn â'r hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r materion a gwella'r arferion.<sup>196</sup> Dywedodd BCC AGGCC eu bod yn cydnabod manteision gweld gwybodaeth glir a thryloyw, ond y gallai tyndra godi ynghylch yr opsiynau a fyddai ar gael i bobl mewn ardaloedd lle nad oedd ond dewis cyfyngedig o ofal da ar gael.<sup>197</sup>

---

<sup>191</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 141-3\]](#), 13 Mai 2015

<sup>192</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 206-7\]](#), 21 Mai 2015

<sup>193</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>194</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 206-7\]](#), 21 Mai 2015

<sup>195</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 93\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>196</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 226\]](#), 23 Ebrill 2015, [Cofnod y Trafodion \[para 129\]](#), 21 Mai 2015

<sup>197</sup> [RISC21 Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

188. Cydnabu Lin Slater o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan y gellid gweld canlyniadau anfwriadol i ddefnyddwyr gwasanaethau ac i weithwyr gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau y byddai eu graddau'n gostwng. Dywedodd hefyd ei bod yn bosibl y gwelid effaith ar y ffioedd am wasanaethau penodol wrth i'w graddau godi neu ostwng, gan y gallai darparwyr geisio codi mwy am wasanaethau â graddau uwch.<sup>198</sup>

189. Pwysleisiodd yr UKCHA mor bwysig oedd hi bod defnyddwyr gwasanaethau'n cael rhoi adborth am y gwasanaethau yr oedden nhw'n eu cael. Er hynny, dywedodd Colin Angel fod defnyddio gwefannau adborth i gasglu barn defnyddwyr gwasanaethau yn tueddu i arwain at nifer isel o sylwadau a'r rheiny'n mynegi safbwyntiau pur gyferbyniol. Dywedodd y gallai hynny arwain at ymatebion anghymesur i nifer fach o sylwadau, gan awgrymu y byddai'n fwy effeithiol i'r rheoleiddiwr gasglu a defnyddio tystiolaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau am eu profiadau a'u canlyniadau.<sup>199</sup>

190. Cafwyd consensws cyffredinol bod rhaid i system graddau ansawdd gynnwys darpariaeth i'r darparwyr apelio yn erbyn eu gradd, a gofyn am ailrolygiad (am ffi).<sup>200</sup> Nododd yr UKHCA fod angen digon o gydbwysedd yn y system i atal ail-geisiadau amhriodol,<sup>201</sup> a dywedodd AGIC y dylid gosod cyfnodau addas cyn i ailrolygiad ddigwydd, er mwyn hybu gwelliannau cyson.<sup>202</sup>

191. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwysig sicrhau bod gan unigolion a oedd yn gwneud penderfyniadau am eu gofal, neu am ofal i'w teuluoedd, wybodaeth dda, ac roedd yn rhag-weld y câi system graddau ansawdd ei chyflwyno ar gyfer darparwyr gwasanaethau ac awdurdodau lleol. Esboniodd mai'r bwriad oedd y byddai'r system raddau yn sbarduno gwelliannau yn ansawdd gofal cymdeithasol wrth i'r darparwyr ymgynghoriad at raddau uwch. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn wedi dangos bod cefnogaeth gref ledled y sector gofal cymdeithasol i raddau ansawdd, yn benodol felly ymysg darparwyr a oedd am hysbysebu ansawdd eu gwasanaethau gofal.

---

<sup>198</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 319-21\]](#), 21 Mai 2015

<sup>199</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 155\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>200</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 141-3\]](#), 13 Mai 2015, [RISC35 Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro](#)

<sup>201</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 161\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>202</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 211\]](#), 21 Mai 2015

192. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn effro i'r canlyniadau anfwriadol posibl. Dywedodd y byddai cyflwyno system graddau ansawdd annibynadwy yn peri niwed, a bod angen sicrhau y gallai'r fframwaith gael ei ddefnyddio mewn modd cyson cyn iddo gael ei gyflwyno.

193. Cytunodd y Gweinidog y byddai'n bwysig bod ailrolygu ar gael i'r darparwyr, gan ddweud y gallai fod yn briodol i hynny ddigwydd ar sail ffi. Nododd David Pritchard, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu'r Gweithlu yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio yn Llywodraeth Cymru, y byddai manylion unrhyw broses ailrolygu yn cael eu nodi mewn rheoliadau ar ôl ymgynghori â'r sector. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn fodlon gwranddo ar farn y Pwyllgor ynghylch a ddylai gweithdrefn uwch-gadarnhaol gael ei defnyddio ar gyfer rheoliadau o dan adran 35.<sup>203</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

194. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi cyflwyno graddau ansawdd ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol ac awdurdodau lleol. Mae'n croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ymgynghori'n eang, ond mae'n credu y dylai gofynion ynglŷn â hyn gael eu nodi ar wyneb y Bil. Yr hyn sy'n cyfiawnhau hyn yw effaith y fframwaith graddau ansawdd a'r angen i'r dyfarniadau sy'n cael eu gwneud odano fod yn gyson, yn wrthrychol ac yn ystyrlon os yw'r darparwyr a'r cyhoedd i fod yn hyderus yn eu cylch.

**Argymhelliad 25: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori'n eang â'r sector gofal cymdeithasol cyn gwneud rheoliadau o dan adran 35 o ran sefydlu system graddau ansawdd.**

195. Mae'r Pwyllgor yn nodi tystiolaeth y Gweinidog y byddai manylion cyfundrefn graddau'n cael eu nodi mewn rheoliadau. Mae'n cytuno â'r rhanddeiliaid y dylai'r rheoliadau hyn ddarparu hawl i ddarparwyr gwasanaethau ofyn am ailrolygiadau. Er hynny, mae'n credu y dylai'r cais gael ei wneud am ffi, ar y sail y caiff y gost lawn ei hadennill, ac y dylid sicrhau dulliau diogelu priodol i ddarparu bod digon o amser ar gael i welliannau gael eu cyflawni, gan sicrhau yr un pryd fod gwybodaeth fanwl-gywir ac amserol ar gael i'r cyhoedd.

---

<sup>203</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 79, 82, 85-6, 88-9 a 91-2\]](#), 25 Mawrth 2015

**Argymhelliad 26: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gynnwys darpariaeth, wrth wneud rheoliadau o dan adran 35, ar gyfer:**

- hawl i ddarparwyr gwasanaethau ofyn am ailrolygiad;
- ffioedd am ailrolygu ar y sail bod y gost lawn yn cael ei hadennill; a
- dulliau diogelu priodol i sicrhau bod amseriad ailrolygiadau'n briodol i helpu gwelliannau ac i sicrhau bod gwybodaeth fanwl-gywir ac amserol ar gael i'r cyhoedd.

## 9. Pŵer i godi ffioedd

---

### Pŵer i godi ffioedd

196. Mae'r Bil yn darparu pŵer cyffredinol ac eang i Weinidogion Cymru godi ffioedd am weithgareddau rheoleiddio. Mae adran 38 yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth i ffi gael ei thalu am amryw o ddarpariaethau gan gynnwys gwneud cais am gofrestru, neu gael copi o adroddiad ar arolygiad. Mae adran 38(3) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru fynd ati, cyn gwneud rheoliadau ynglŷn â ffioedd, i gymryd camau rhesymol i ymgynghori â phobl y maen nhw'n credu yr effeithir arnyn nhw, ac unrhyw rai eraill y maen nhw'n credu eu bod yn briodol.

197. Roedd llawer o randdeiliaid o blaid cynnwys y pŵer i godi ffioedd am gofrestru yn y Bil ond, pe bai ffioedd yn cael eu cyflwyno, cafwyd consensws mai dim ond mewn modd graddol y dylai hynny ddigwydd a hynny ar ôl ymgynghori.

198. Dywedodd y Cyngor Gofal, yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, y gallai fod yn briodol cyflwyno ffioedd am weithgareddau rheoleiddio, ond nid pe bai'r gwaith o gasglu neu weinyddu ffioedd yn fwy na'r incwm a geid.<sup>204</sup>

199. Rhoddodd AGGCC groeso i'r pŵer yn y Bil i gyfundrefn ffioedd gael ei chyflwyno drwy reoliadau. Pe bai ffioedd yn cael eu cyflwyno (mewn modd graddol), dywedodd y byddai angen i'r model ariannol fod yn deg ac yn hyblyg er mwyn sicrhau bod y ffioedd yn adlewyrchu cost gwasanaethau a bod cymorthdaliadau priodol yn cael eu darparu. Dywedodd y gallai ffioedd, o'u defnyddio'n gymesur, fod yn ffordd i gryfhau cyfrifoldebau'r darparwyr a'r comisiynwyr wrth wella gofal cymdeithasol yng Nghymru, er enghraifft pe bai angen gwaith gorfodi neu ymyriad arwyddocaol ar gyfer darparwyr.<sup>205</sup>

200. Roedd CLILC ac ADSS Cymru yn erbyn cyflwyno ffioedd. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig fe ddywedon nhw y byddai ffioedd yn

---

<sup>204</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

<sup>205</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)



ychwanegu at faich darparwyr, ac yn cael eu trosglwyddo yn y pen draw i ddefnyddwyr gwasanaethau.<sup>206</sup>

201. Tynnodd Croes Goch Prydain sylw at broses ymgynghori ynglŷn â ffioedd, gan ddweud eu bod o blaid ffioedd o ran egwyddor, ond na ddylai cyflwyno ffioedd atal darparwyr rhag cyflwyno gwasanaethau, a allai leihau'r dewis o wasanaethau a fyddai ar gael i ddinasyddion.<sup>207</sup> Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhannu'r pryder y gellid gweld effaith andwyol ar y darparwyr yn sgil cyflwyno ffioedd.<sup>208</sup>

202. Dywedodd yr UKHCA wrth y Pwyllgor fod Cymru'n anarferol yn y Deyrnas Unedig yn yr ystyr nad oedd ffioedd cofrestru'n cael eu codi ar y darparwyr. Cydnabu fod hwn yn ddull synhwyrol oherwydd y risg mai'r cyfan a fyddai'n digwydd fyddai symud arian cyhoeddus o amgylch. Pe bai ffioedd yn cael eu cyflwyno, dywedodd Colin Angel y byddai'n bwysig gwneud hynny mewn modd graddol a fyddai'n rhoi digon o rybudd i'r darparwyr a'r gweithlu gofal cymdeithasol gynllunio er mwyn osgoi ansefydlogi busnesau bach a chanolig, neu beri eu bod yn anhyfyw yn ariannol.<sup>209</sup>

203. Dywedodd Barnardo's Cymru fod rhoi newid ar waith yn y sector gofal cymdeithasol yn sgil Deddf 2014 ar gyfnod o gyfyngiadau a chyni ariannol yn gosod pwysau ar y sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol yn barod. Dywedodd y gallai gosod galwadau ariannol ychwanegol drwy godi ffioedd greu'r risg o danseilio bwriadau polisi'r Bil.<sup>210</sup>

204. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, nododd NSPCC Cymru eu pryder ynghylch effaith cyflwyno ffioedd am gofrestru gwasanaethau gofal a chymorth ar ddarparwyr gofal cymdeithasol yn y trydydd sector.<sup>211</sup> Roedd y pryder hwn yn cael ei rannu gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, a ddywedodd:

---

<sup>206</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>207</sup> [RISC37 Croes Goch Prydain](#)

<sup>208</sup> [RISC38 Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

<sup>209</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 189\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>210</sup> [RISC29 Barnardo's Cymru](#)

<sup>211</sup> [RISC20 NSPCC Cymru](#)

“fees would disproportionately impact quality-focused, small, third sector services who are already operating in difficult and constrained economic climate”.<sup>212</sup>

205. Roedd Fforwm Gofal Cymru yn cytuno y gellid gweld risgiau i'r sector pe bai ffioedd yn cael eu cyflwyno. Dywedodd Melanie Minty wrth y Pwyllgor fod y sector gofal cymdeithasol yn cael ei danariannu, a phe bai ffioedd yn cael eu cyflwyno y byddai'n bwysig dwyn comisiynwyr i gyfrif ynglŷn a chomisiynu ansawdd ac nid dim ond ar sail y gost.<sup>213</sup> Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd Fforwm Gofal Cymru:

“Given that the majority of care is funded by the statutory sector we see this as simply moving money around the system without improving the quality of regulation and increasing public expenditure on collection”.<sup>214</sup>

206. Cafwyd rhywfaint o bryder am y pwerau yn y Bil i godi tâl am ddogfennau polisi neu gopiau o adroddiadau, y bernid ei fod yn rhwystr posibl a allai atal ymgysylltu cyhoeddus a dealltwriaeth gyhoeddus o ofal cymdeithasol.<sup>215</sup>

207. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor mai Cymru oedd yr unig ran o'r Deyrnas Unedig nad oedd yn codi ffioedd cofrestru ar ddarparwyr. Dywedodd fod y darparwyr ar eu hennill o waith arolygu, ond nad oedden nhw'n cyfrannu at y gost ar hyn o bryd. Serch hynny, dywedodd wrth y Pwyllgor nad oedd yn bwriadu cyflwyno ffioedd yn y tymor byr am mai'r awdurdodau lleol oedd yn ariannu'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Roedd hynny'n golygu y byddai codi ffioedd yn arwain at gylchredeg arian cyhoeddus a mwy o fiwrocratiaeth. Nododd y Gweinidog mai dyna pam roedd ffioedd wedi cael eu diddymu yng Nghymru. Cyn iddo gyflwyno ffioedd, dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai angen iddo gael ei ddarbwylo:

---

<sup>212</sup> [RISC43 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru](#)

<sup>213</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 191\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>214</sup> [RISC11 Fforwm Gofal Cymru](#)

<sup>215</sup> [RISC35 Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro](#)

“that there was an income stream being generated and that it wasn’t just local authorities being charged higher fees in order to pay the fees that we’re now charging them for”.<sup>216</sup>

208. Nododd y gallai cyflwyno ffioedd addasu’r cydbwysedd rhwng darparwyr a’r rheoleiddiwr, a chreu perthynas fwy proffesiynol rhwng y ddau. Cydnabu y gallai ffioedd beri ansefydlogrwydd yn y farchnad yn y cyfnod o bontio i’r trefniadau o dan y Bil, ond dywedodd y dylai’r pŵer gael ei gynnwys yn y Bil, oherwydd pe bai’r amgylchiadau’n newid fe allai fod yn briodol i ffioedd gael eu codi.<sup>217</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

209. Mae’r Pwyllgor yn nodi nad yw’r Gweinidog yn bwriadu defnyddio’r pwerau yn y Bil ar hyn o bryd i godi ffioedd cofrestru na ffioedd eraill. Gan fod cyfran fawr o’r gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei hariannu gan yr awdurdodau lleol, mae’n cytuno mai aneffeithlon fyddai cyflwyno cyfundrefn codi ffioedd.

210. Er hynny, pe bai’r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno cyfundrefn ffioedd yn y dyfodol, mae’n glir ar sail y dystiolaeth a gafwyd y byddai angen mynd ati mewn modd cymesur i osgoi effaith andwyol ar fentrau bach a chanolig, a darparwyr gwasanaethau yn y trydydd sector. Byddai angen hefyd i’r gyfundrefn fod yn destun ymgynghoriad llawn â’r sector gofal cymdeithasol. Mae’r Pwyllgor yn nodi bod rheoliadau o dan adran 38(1) i gyflwyno ffioedd yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol, a gofynion statudol ychwanegol i ymgynghori â’r rhai y gellid effeithio arnyn nhw o dan adran 38(3). Mae’r Pwyllgor yn croesawu’r ffaith bod y gofyniad bod rhaid ymgynghori wedi’i gynnwys ar wyneb y Bil, ond mae’n credu y byddai’n briodol diwygio’r gofyniad i’w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad yn nodi sut mae canlyniadau’r ymgynghori wedi’u cymryd i ystyriaeth yn y rheoliadau drafft, yr un pryd ag y maen nhw’n gosod y rheoliadau drafft.

---

<sup>216</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 47-8\]](#), 25 Mawrth 2015

<sup>217</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 50\]](#), 25 Mawrth 2015

**Argymhelliad 27: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i adran 38 i'w gwneud yn ofynnol cael datganiad ynghylch yr ymgynghori a gynhaliwyd o dan adran 38(3) i gyd-fynd â rheoliadau drafft yn sefydlu cyfundrefn ffioedd.**

## 10. Gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol

---

### Gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol

211. Mae Pennod 6 o Ran 1 yn diwygio Deddf 2014 o ran swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth:

- yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnal adolygiadau o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol;
- o ran pwerau i awdurdodi arolygwyr i fynd i fangreoedd a'u harolygu;
- i Weinidogion Cymru fynnu gwybodaeth am sut mae swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu harfer;
- ynghylch troseddau mewn cysylltiad ag arolygiadau neu ofynion i ddarparu gwybodaeth; ac
- ynghylch rheoleiddio'r broses o arfer swyddogaethau'r awdurdodau lleol sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n derbyn llety.

212. Dywedodd AGGCC wrth y Pwyllgor y byddai'r Bil, ar y cyd â Deddf 2014, yn eu galluogi i asesu sut roedd swyddogaethau'r awdurdodau lleol ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cyflawni, gan gynnwys asesu, cynllunio gofal, comisiynu, a goruchwyllo a chyflwyno gofal rheoleiddiedig.<sup>218</sup> Er hynny, dywedodd Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru ("BASW Cymru") fod y Bil wedi colli cyfle i reoleiddio ansawdd cymorth y rheolwyr a safonau proffesiynol yn yr awdurdodau lleol. Dywedodd y byddai hynny'n tansilio gwaith i gyflawni disgwyliadau Deddf 2014.<sup>219</sup>

213. Roedd yr UKHCA yn croesawu'r pŵer yn y Bil i Weinidogion Cymru gynnal adolygiadau o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol. Er hynny, dywedodd yr UKHCA y byddai'n well ganddyn nhw weld rhaglen yn cael ei sefydlu o adolygiadau rheolaidd,

---

<sup>218</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>219</sup> [RISC47 Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru](#)

gan gynnwys ystyried effaith yr awdurdod lleol ar ei farchnad leol.<sup>220</sup> Roedd RNIB Cymru'n cytuno y dylid cael adolygiadau o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol fel rhan o'r drefn gan Weinidogion Cymru. Dywedodd RNIB Cymru y byddai hynny'n allweddol "in raising standards of social care commissioning".<sup>221</sup>

214. Cyfeiriodd Cynghair Henoed Cymru at y duedd i'r awdurdodau lleol gomisiynu gwasanaethau'n fwyfwy yn lle eu darparu. Dywedodd fod pobl hŷn yn fwyfwy yn derbyn gwasanaethau i'w helpu i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Dywedodd Rosanne Palmer fod y tueddiadau hyn yn golygu bod angen canolbwyntio ar y modd yr oedd gwasanaethau ataliol a gofal yn y cartref yn cael eu comisiynu, ac a oedd yna ddarparwyr priodol ar gael a oedd yn ddigon hyfyw i roi gofal o safon a oedd yn gwella ansawdd bywydau defnyddwyr gwasanaethau.<sup>222</sup>

215. Dywedodd llawer o'r rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor fod gwaith effeithiol i gomisiynu gwasanaethau yn hanfodol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n derbyn gwasanaethau o safon dda.<sup>223</sup> Dywedwyd bod safonau comisiynu yn eisiau yn y Bil fel yr oedd wedi'i ddrafftio, a bod rhaid mynd i'r afael â hyn os bwriedir cyflawni nodau'r Bil o sicrhau llesiant dinasyddion a gwella gofal a chymorth yng Nghymru. Nododd Sue Evans o ADSS Cymru y gallai cysylltiadau agosach rhwng comisiynwyr a darparwyr, a fyddai'n cymryd barn defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr cymdeithasol a'r rheoleiddiwr am wasanaeth i ystyriaeth, helpu i wella ansawdd drwy ddarparu cymorth ymarferol, cefnogaeth a chanllawiau.<sup>224</sup>

216. Disgrifiodd y Comisiynydd Pobl Hŷn y diffyg cyfeiriad penodol at gomisiynu fel hepgoriad arwyddocaol, gan nodi mor bwysig oedd comisiynu effeithiol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaethau y mae arnyn nhw eu hangen, a'r ymddiriedaeth y mae'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau ei rhoi mewn comisiynwyr ar gyfnod pan fôn nhw'n agored i niwed. Pwysleisiodd fod angen i ansawdd bywyd a llesiant fod yn rhan o waith comisiynu yn ogystal â rheoleiddio ac arolygu er mwyn sicrhau:

---

<sup>220</sup> [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#)

<sup>221</sup> [RISC28 RNIB Cymru](#)

<sup>222</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 160\]](#), 13 Mai 2015

<sup>223</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 195\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>224</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 63\]](#), 23 Ebrill 2015

“we all have eyes on the same thing and so that commissioning, regulation and inspection and provision are consistent”.<sup>225</sup>

217. Cydnabu'r Gweinidog fod comisiynu gofal cymdeithasol yn rhan bwysig o sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n cael gofal cymdeithasol o safon a bod eu hanghenion yn cael eu hateb, ond dywedodd fod darpariaeth ar gyfer comisiynu wedi'i gwneud yn Neddf 2014 ac yng nghanllawiau 2010 ar gomisiynu.<sup>226</sup> Dywedodd fod y Bil yn darparu ar gyfer rheoleiddio ac arolygu swyddogaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol, ac felly y byddai'n rhoi hyder i bobl fod y rheoleiddiwr yn rhoi sylw i'r modd yr oedd yr awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau comisiynu. Dywedodd y byddai'n rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor o ran cynnwys comisiynu yn y Bil.<sup>227</sup>

218. Dywedodd ADSS Cymru fod yna ganllawiau i gomisiynwyr yn yr awdurdodau lleol, a bod y comisiynwyr mewn deialog â darparwyr gwasanaethau er mwyn dod o hyd i ffioedd priodol. Er hynny, nododd Phil Evans ei bod yn anodd cydbwysu cynnydd yn y galw â chyni a chyllidebau tynnach yr awdurdodau lleol.<sup>228</sup>

219. Dywedodd Fforwm Gofal Cymru wrth y Pwyllgor nad oedd comisiynwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu dwyn i gyfrif yn erbyn y canllawiau ar gomisiynu sydd wedi'u sefydlu. Er mwyn sicrhau bod canlyniadau wedi'u cynnwys yn effeithiol mewn gwaith comisiynu a gwaith monitro contractau, dywedodd y Fforwm y dylai'r gyfundrefn arolygu a rheoleiddio arolygu gwaith comisiynu, yn ogystal â darparwyr. Ar hyn o bryd, meddai'r Fforwm, doedd y mwyafrif o'r awdurdodau lleol ddim yn comisiynu yn ôl cyfradd a oedd yn cynnal canlyniadau o safon, na chyflogau a oedd yn hybu gweithlu proffesiynol mewn gofal cymdeithasol.<sup>229</sup> Roedd tystion eraill yn rhannu'r pryderon hyn am effaith comisiynu ar sail y gost yn hytrach

---

<sup>225</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 36 a 45\]](#), 13 Mai 2015

<sup>226</sup> [Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol: Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru dros y Degawd Nesaf](#) (sy'n cael ei ddiweddararu ar hyn o bryd)

<sup>227</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 87-9\]](#), 3 Mehefin 2015

<sup>228</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 84\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>229</sup> [RISC11 Fforwm Gofal Cymru](#)

nag ar sail ansawdd, gan ddweud wrth y Pwyllgor mai gofal o ansawdd wael a staff digalon oedd y canlyniad.<sup>230</sup>

220. Lle'r oedd anawsterau wedi codi yn y gorffennol, megis y rhai y bu Ymgyrch Jasmine yn ymchwilio iddyn nhw, dywedodd BASW Cymru fod y comisiynu wedi hoelio sylw ar gostau yn hytrach na chanlyniadau, a bod yna ddiffyg cysylltiad rhwng gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol a'r dasg o gomisiynu gwasanaethau. Dywedodd Robin Moulster fod angen i hyn gael ei egluro a'i gryfhau er mwyn cymryd i ystyriaeth y canlyniadau yr oedd ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr eisiau eu cyflawni.<sup>231</sup>

221. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai'r Bil yn cael effaith ar gomisiynu ar sail ansawdd yn hytrach na chost. Cydnabu'r dystiolaeth a roddodd Fforwm Gofal Cymru, ond dywedodd nad oedd yna berthynas gyferbyniol syml, yn ei farn ef, rhwng comisiynu ar sail y gost a chomisiynu ar sail ansawdd, gan y byddai gofal o ansawdd wael yn arwain at gostau uwch beth bynnag.<sup>232</sup>

222. Cafwyd consensws cyffredinol bod angen agwedd at gomisiynu a oedd yn canolbwyntio ar y canlyniadau. Nododd John Moore o Age Cymru a My Home Life Cymru fod angen hoelio sylw'n gyson ar ganlyniadau i unigolion ar draws gwaith cynllunio, comisiynu a chyflwyno gwasanaethau, gan ddweud:

“We can't plant one thing and expect to reap something different; we've got to have consistency through what we plan at the beginning, support that process and we'll get the benefits at the very end of that”.<sup>233</sup>

223. Dywedodd Cynghrair Cynhalwyr Cymru fod gwasanaethau gofal yn y trydydd sector yn dweud bod comisiynu ar sail y pris yn unig yn gosod eu gwasanaethau mewn risg, gan fod y gwasanaethau gofal hyn yn rhoi blaenoriaeth i ansawdd. Dywedodd Kieron Rees y byddai hyn yn gwaethygu ymhellach pe bai'r pwerau yn y Bil i godi ffioedd yn cael

---

<sup>230</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 102 a 106\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>231</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 257\]](#), 13 Mai 2015

<sup>232</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 107-8\]](#), 25 Mawrth 2015

<sup>233</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 168-9\]](#), 13 Mai 2015



eu defnyddio, gan y byddai darparwyr yn y trydydd sector a darparwyr bach yn ei chael yn anodd ymdopi â'r costau ychwanegol.<sup>234</sup>

224. Dywedodd AGGCC eu bod yn gweithio gyda phrosiectau yn Sir Fynwy a Bae'r Gorllewin i ystyried sut y gallai gwaith comisiynu a chomisiynwyr gael eu dwyn i gyfrif, er mwyn helpu i ddeall lle y gallai gofal gwael fod yn deillio o gomisiynu gwael.<sup>235</sup>

225. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd AGGCC y byddai'r Bil, ar y cyd â Deddf 2014, yn gwella'u hanel a'u pwerau i ymyrryd ar draws y sector gofal cymdeithasol. Cydnabu bwysigrwydd a chyfrifoldebau comisiynwyr, a dweud bod gwaith comisiynu ar hyn o bryd yn aml yn canolbwyntio'n ormodol ar y tymor byr ac ar ymateb i bwysau ar gyllidebau. Dywedodd y rheoleiddiwr y gallai trefniadau'r awdurdodau lleol ar gyfer comisiynu fod yn gymhleth, ond y byddai'r pwerau cryfach a fyddai ganddyn nhw o dan y Bil i ddwyn cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol i gyfrif yn helpu yn hyn o beth.<sup>236</sup>

226. Nododd y Gweinidog fod swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol wedi'u nodi yn Atodlen 2 i Ddeddf 2014, gan ddweud bod adrannau 9 a 145 o'r Ddeddf honno'n darparu y câi Gweinidogion Cymru gyhoeddi codau ar ganlyniadau llesiant ac ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn y drefn honno. Mewn llythyr at y Pwyllgor, dywedodd y byddai'r codau'n sefydlu gofyniad bod rhaid i'r awdurdodau lleol sicrhau bod y gofal a'r cymorth a fyddai'n cael eu darparu ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn ateb eu hanghenion yn ddigonol.<sup>237</sup>

227. Cytunodd yr UKHCA fod yna bwerau yn y Bil eisoes i alluogi'r rheoleiddiwr i graffu ar waith comisiynu, a'u bod yn awyddus i weld y Gweinidogion yn arfer y pwerau hyn fel rhan o'r drefn. Dywedodd UKHCA wrth y Pwyllgor fod eu gwaith ymchwil ar lefel y Deyrnas Unedig gyfan yn dangos bod gofal cartref yn gyson yn cael ei gomisiynu am £2 yr awr yn llai na'r hyn oedd yn eu barn nhw yn isafswm a oedd yn angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaeth o

---

<sup>234</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 110\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>235</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 140\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>236</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>237</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 110\]](#), 25 Mawrth 2015, [RISC A102 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Mai 2015](#)

safon. Dywedodd yr UKHCA fod hyn yn creu effaith uniongyrchol ar delerau ac amodau gwaith y gweithlu gofal cymdeithasol.<sup>238</sup>

228. Roedd UNSAIN yn cytuno y dylai mwy o ystyriaeth gael ei rhoi, wrth i waith comisiynu gael ei wneud, i bolisiau megis talu'r cyflog byw wrth gomisiynu gwasanaethau gan ddarparwyr gofal cymdeithasol.<sup>239</sup>

229. Dywedodd Plant yng Nghymru y bydden nhw'n hoffi gweld y Bil yn pennu bod gan y gweithlu hyfforddiant priodol i weithio gyda phlant a phobl ifanc, wrth gomisiynu gwasanaethau i blant. Nododd Catriona Williams y gallai canolbwyntio ar ddeddfwriaeth i bob oedran arwain at golli'r ffocws ar ddatblygiad plant.<sup>240</sup>

230. Dywedodd David Francis o AGGCC wrth y Pwyllgor mai'r ffocws cryfach ar swyddogaethau'r awdurdodau lleol oedd un o gryfderau'r Bil. Nododd nad oedd comisiynu iechyd yn dod o dan y Bil, ond bod hynny'n rhywbeth yr hoffai ei weld yn cael ei ystyried yn y Papur Gwyrdd.<sup>241</sup>

231. Soniodd rhanddeiliaid eraill hefyd am rôl y byrddau iechyd lleol wrth gomisiynu gofal cymdeithasol,<sup>242</sup> a dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf eu bod yn gyfrifol am gomisiynu tua 1,000 o leoliadau mewn cartrefi gofal yn eu hardal. Dywedodd Lynda Williams o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf fod angen i'r Bil gael ei gryfhau o safbwynt rôl y byrddau iechyd lleol mewn cydgomisiynu neu gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol ar eu pen eu hunain. Er bod swyddogaethau comisiynu iechyd yn cael eu cyfrif yn rhan o arolygiadau thematig AGIC o wasanaethau iechyd, nododd mai cyflwyno gwasanaethau a oedd o dan sylw, ac nid y swyddogaethau craidd eraill megis arferion comisiynu a chynllunio.<sup>243</sup>

232. Dywedodd Kate Chamberlain o AGIC fod yna oruchwyliaeth yn barod dros brosesau comisiynu'r byrddau iechyd lleol, yn ogystal â phrosesau'r awdurdodau lleol. Dywedodd fod AGIC yn gweithio'n fwyfwy gyda'r byrddau iechyd o ran eu rolau goruchwyllo a llywodraethu, a chydag AGGCC i rannu gwybodaeth yn ôl yr angen.

---

<sup>238</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 194\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>239</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 234\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>240</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 159-60\]](#), 21 Mai 2015

<sup>241</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 151\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>242</sup> [RISC31 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda](#)

<sup>243</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 260 a 293\]](#), 21 Mai 2015

Dywedodd nad oedd yn glir ynglŷn â'r hyn a fyddai'n cael ei ychwanegu drwy gynnwys trefniadau comisiynu yn y Bil, ond cydnabu y gallai mwy o ffocws a sylw ar gomisiynu fod yn fuddiol.<sup>244</sup>

233. Cydnabu AGGCC fod gan y byrddau iechyd lleol hefyd gyfrifoldeb dros gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac y gallai'r strwythurau comisiynu a chaffael amrywio ar draws y byrddau iechyd. Dywedodd AGGCC fod angen trefniadau i gynnwys comisiynwyr iechyd yn y system reoleiddio, gan ddweud y byddai'r Papur Gwyrdd, a ddisgwylir yn nes ymlaen eleni, yn gyfle i ystyried hyn.<sup>245</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

234. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r eglurhad gan y Gweinidog ynghylch sut y bydd y Bil yn mynd i'r afael â chomisiynu. Os bwriedir i safonau comisiynu wella, gan sicrhau comisiynu ar sail canlyniadau yn hytrach nag ar sail y gost, bydd angen goruchwyliaeth o du'r rheoleiddiwr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r dystiolaeth a glywodd y byddai adran 149B sydd i'w mewnosod yn Neddf 2014 gan adran 56 o'r Bil yn galluogi AGGCC i arolygu'r awdurdodau lleol o ran arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, sy'n cynnwys comisiynu.<sup>246</sup>

235. Mae'r Pwyllgor yn credu bod gwella safon gwaith comisiynu'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol yn allweddol ar gyfer gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol. Er hynny, nid yw wedi'i ddarbwylllo eto fod y Bil yn rhoi digon o sylw i'r broses o gomisiynu gofal cymdeithasol, naill ai yn yr awdurdodau lleol, nac yn y byrddau iechyd lleol.

236. Mae'n credu bod angen i'r Bil gael ei gryfhau er mwyn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn briodol â chomisiynu er mwyn i'r cyhoedd, a'r sector gofal cymdeithasol, gael sicrwydd bod cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol ym maes comisiynu yn cael eu cyflawni'n briodol ac yn effeithiol.

**Argymhelliad 28: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i osod dyletswydd ar Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol**

<sup>244</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 194-5 a 236-8\]](#), 21 Mai 2015

<sup>245</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>246</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 119\]](#), 3 Mehefin 2015

**Cymru i adolygu gwaith comisiynu'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol ym maes gwasanaethau gofal cymdeithasol yn erbyn canlyniadau ansawdd bywyd.**

### **“Gofal 15-munud”**

237. Yn ystod y gwaith craffu ar Ddeddf 2014, ymrwymodd y Dirprwy Weinidog ar y pryd i ystyried ymweliadau gofal 15-munud fel rhan o'r Bil, gan ddweud:

“I expect commissioning and contracting practice to be focused on the quality of care provision, and that this is managed and monitored appropriately. [...] I have asked my officials to consider this amendment in the context of the work that they are undertaking in the forthcoming regulation and inspection legislation, which the Government will bring forward before the end of this Assembly”.<sup>247</sup>

238. Mynegodd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys Age Cymru, y farn y dylai'r Bil fynd i'r afael ag ymweliadau gofal cartref amhriodol o fyr.<sup>248</sup> Cyfeirir at y rhain yn aml fel “ymweliadau gofal 15-munud” ond nododd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn, nad mater o bennu terfyn amser yw hyn; dylid canolbwyntio yn hytrach ar ateb anghenion a chanlyniadau'r person.<sup>249</sup>

239. Roedd Cymdeithas MS Cymru yn cytuno y byddai mwy o reoleiddio o dan y Bil yn golygu y byddai darparwyr gwasanaethau'n gweithio i ddatblygu “high quality and sustainable services”, ac na fyddai ymweliadau gofal cartref amhriodol o fyr yn cael eu comisiynu.<sup>250</sup>

240. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod adrannau 34(3) a (4) o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i sicrhau bod y cyfnod amser a oedd gan weithwyr gofal cymdeithasol i gyflawni eu dyletswyddau yn ddigonol i'r dyletswyddau hynny gael eu cyflawni.

---

<sup>247</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 146\]](#), 13 Tachwedd 2013

<sup>248</sup> [RISC30 Age Cymru](#), [RISC44 Leonard Cheshire Disability](#)

<sup>249</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 112\]](#), 29 Ebrill 2015, [Cofnod y Trafodion \[para 37\]](#), 13 Mai 2015

<sup>250</sup> [RISC33 Cymdeithas MS Cymru](#)

Dywedodd ei fod yn anfodlon cynnwys cyfeiriad at gyfnodau amser penodol ar wyneb y Bil.<sup>251</sup>

241. Os bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud rheoliadau o dan adran 26(1) yn pennu safon y gofal a'r cymorth y mae'n rhaid i ddarparwyr gofal cymdeithasol ei darparu, mae adran 26(4) o'r Bil yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r safonau ansawdd a geir mewn unrhyw god sydd wedi'i gyhoeddi o dan adran 9 o Ddeddf 2014 (codau i helpu i wireddu canlyniadau llesiant). Mewn ymateb i gwestiwn a ddylai cyfeiriadau at adrannau 34(3) a (4) gael eu cynnwys yn y Bil i sicrhau yr arolygir yn erbyn y darpariaethau hyn, dywedodd y Gweinidog nad oedd wedi'i ddarbwylllo eto mai 'clo dwbl' fel hyn fyddai'r dull gorau i osgoi ymweliadau amhriodol o fyr. Dywedodd y gallai hyn gymhlethu'r atebolrwydd yn y system, a hefyd:

“Awdurdodau lleol sy'n gorfod sicrhau bod ymweliadau yn ddigon hir a dylai hyn gael ei adlewyrchu drwy eu gwaith comisiynu. Mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb i fodloni ei hun bod ei ofynion cytundebol yn cael eu bodloni ac nid wyf yn argyhoeddedig y dylai'r Arolygiaeth weithredu, i bob diben, fel eu rheolwyr contract yn yr achos hwn. [...] Felly, bydd y system gyffredinol a sefydlir o dan reoliadau yn sicrhau bod y rheoleiddiwr gwasanaethau yn arolygu darparwr mewn perthynas ag ansawdd y gofal a ddarperir heb orfod gwneud darpariaeth benodol ar gyfer hyn”.<sup>252</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

242. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r rhanddeiliaid y gall comisiynu ymweliadau gofal cartref sy'n amhriodol o fyr gael effaith andwyol ar y rhai sy'n derbyn gofal os nad yw'r ymweliad yn para'n ddigon hir i roi'r gofal y mae ar y defnyddiwr gwasanaethau ei angen. Yn hytrach na chanolbwyntio ar barhad yr ymweliadau'n benodol, mae'n credu bod rhaid rhoi'r flaenoriaeth i sicrhau bod anghenion holistig pobl yn cael eu bodloni, a bod eu canlyniadau llesiant a'r canlyniadau y maen nhw'n eu dymuno yn cael eu hategu. Mae'n credu y dylai gwaith comisiynu gwasanaethau o'r fath a'r broses o'u rheoleiddio gael eu seilio ar yr egwyddor hon.

---

<sup>251</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 112\]](#), 25 Mawrth 2015

<sup>252</sup> [RISC AI02 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Mai 2015](#)

## 11. Sefydlogrwydd y farchnad a chynaliadwyedd ariannol

---

### Y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru

243. Clywodd y Pwyllgor gan y rhanddeiliaid mai un gymhleth a bregus yw'r farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru, a bod angen osgoi'r risg o danseilio neu ansefydlogi'r farchnad wrth arfer y swyddogaethau o dan y Bil sy'n ymwneud â goruchwylio'r farchnad a sefydlogrwydd y farchnad.<sup>253</sup> Dywedodd y tystion wrth y Pwyllgor fod y farchnad cartrefi gofal yng Nghymru yn bur wahanol i'r un yn Lloegr o ran ei hamrywiaeth. Mae'r farchnad yng Nghymru'n cynnwys rhwng 70 ac 80 y cant o ddarparwyr cartrefi annibynnol, ac o'r rhain un neu ddau o gartrefi yn unig sydd gan 70 y cant ohonyn nhw.<sup>254</sup>

244. O ran y farchnad gofal cartref, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y farchnad yn dibynnu'n drwm ar sut roedd gwasanaethau'n cael eu comisiynu. Siaradodd John Moore o My Home Life Cymru am y cymysgedd o ddarparwyr awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol, gan gyfeirio at yr afluniadau posibl a allai godi pe bai rhai darparwyr yn dewis a dethol er mwyn osgoi achosion cymhleth.<sup>255</sup>

### Adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad

245. Mae adran 144B sydd i'w mewnosod yn Neddf 2014 gan adran 55 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi adroddiadau blynyddol ar sefydlogrwydd y farchnad, sy'n gorfod cynnwys asesiad o ba mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gofal a chymorth yn yr ardal. O dan adran 62 bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiadau cenedlaethol am sefydlogrwydd y farchnad gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

### *Y gofyniad ynglŷn ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad*

246. Cafodd y dyletswyddau yn y Bil i'r awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru lunio adroddiadau lleol a chenedlaethol ar sefydlogrwydd y farchnad eu croesawu. Dywedodd y rhanddeiliaid fod yna botensial, pe bai camau'n cael eu cymryd yn sgil yr adroddiadau, i weld bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau, i ategu gwaith

---

<sup>253</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 49\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>254</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 157\]](#), 13 Mai 2015

<sup>255</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 161\]](#), 13 Mai 2015

blaengynllunio ac i ennyn hyder y cyhoedd yn sefydlogrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol.<sup>256</sup>

247. Er hynny, pwysleisiodd AGGCC na fyddai'n bosibl cynnig "complete assurance or be sighted on the unknown". O ran sefydliadau a oedd yn darparu ledled y Deyrnas Unedig, dywedodd AGGCC y byddai angen cydweithredu â rheoleiddwyr eraill ar draws y Deyrnas Unedig.<sup>257</sup> Nododd y Cyngor Gofal:

"the only way forward will be by sharing information, working in a concerted fashion to try and ensure that the services are, and that the sector is, as stable as possible".<sup>258</sup>

248. Serch hynny, er y gallai'r adroddiad cenedlaethol ar sefydlogrwydd y farchnad annog darparwyr gwasanaethau i ddod i'r farchnad neu i addasu eu darpariaeth gwasanaethau, rhybuddiodd yr UKHCA y gallai hefyd atal rhai darparwyr rhag dod i'r farchnad.<sup>259</sup>

249. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y Bil yn anelu at gryfhau:

"the capacity of public authorities to shape the market in the future, rather than simply to be dealing always with the consequences of the way that markets operate".<sup>260</sup>

250. Dywedodd fod y darpariaethau'n adlewyrchu'n gryf y darpariaethau a gafodd eu sefydlu yn Lloegr mewn ymateb i gwmp Southern Cross, gan nodi hyn:

"The Southern Cross experience is that, when a private provider goes bad, it's the public sector that ends up picking up the pieces. The purpose of these parts of this Bill is to put the public, through its regulators and inspectors, in a much more powerful position".<sup>261</sup>

251. Mewn llythyr at y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog y byddai cynnwys dyletswydd statudol i lunio adroddiadau ar sefydlogrwydd y

---

<sup>256</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#), [RISC28 RNIB Cymru](#), [RISC39 Macmillan Cymru](#)

<sup>257</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>258</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 264\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>259</sup> [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#)

<sup>260</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 118\]](#), 25 Mawrth 2015

<sup>261</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 119\]](#), 25 Mawrth 2015

farchnad yn sicrhau cydymffurfiaeth ac yn gwella cysondeb ledled Cymru, ond fe fyddai hefyd yn sicrhau:

“bod gan awdurdodau lleol y dulliau i hwyluso'r broses o ddod â phartneriaid o amgylch y bwrdd er mwyn datblygu dull mwy cydweithredol o nodi a diwallu anghenion penodol eu cymunedau”.<sup>262</sup>

252. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymagwedd hon.

### ***Byrddau iechyd lleol***

253. Mewn tystiolaeth lafar, siaradodd cynrychiolwyr y byrddau iechyd am yr angen i roi sylw i rôl cynllunio a chomisiynu'r byrddau iechyd mewn gofal cymdeithasol, ac iddyn nhw gael eu cynnwys mewn gwaith cydweithredol â'r awdurdodau lleol yn y gwaith i ddadansoddi'r farchnad. Dywedodd y cynrychiolwyr y gallai'r ddyletswydd ar yr awdurdodau lleol i ystyried cydweithredu ac ymgysylltu â'r byrddau iechyd fod yn fuddiol.<sup>263</sup> Dywedodd Lynda Williams o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf y byddai'r byrddau iechyd lleol ar eu hennill drwy sicrhau bod y farchnad yn darparu gwasanaethau gofal dibynadwy o safon am fod hynny'n effeithio'n uniongyrchol ar lwybr cleifion i mewn i wasanaethau gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd a thrwyddyn nhw.<sup>264</sup> Nododd AGIC hefyd ei bod yn bwysig bod adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn cymryd i ystyriaeth y rhyngwyneb rhwng iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol, a chynnwys y byrddau iechyd lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth eu paratoi.<sup>265</sup>

### ***Cynnwys a mynychder adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad***

254. Cyflwynodd rhai o'r rhanddeiliaid sylwadau ar yr hyn a ddylai gael ei gynnwys yn yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad:

#### **- Comisiynu**

Dywedodd y rhanddeiliaid y dylai adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad gynnwys y math o ofal cymdeithasol ac am ba gost yr oedd yn cael ei gomisiynu,<sup>266</sup> a dadansoddiad o effaith y

---

<sup>262</sup> [RISC AI02 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Mai 2015](#)

<sup>263</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 314-6\], 21 Mai 2015](#)

<sup>264</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 307\], 21 Mai 2015](#)

<sup>265</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 198\], 21 Mai 2015](#)

<sup>266</sup> [RISC09 Cynghrair Cynhalwyr Cymru, RISC30 Age Cymru](#)



gwaith comisiynu ar ddarparwyr a gweithwyr cymdeithasol lleol.<sup>267</sup>

– **Mentrau'r trydydd sector a mentrau cymdeithasol**

I sicrhau cysondeb â Deddf 2014, dywedodd Macmillan Cymru y dylai'r adroddiadau gynnwys ystyriaeth o rôl mentrau'r trydydd sector a mentrau cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau.<sup>268</sup>

– **Y farchnad lafur**

Nododd y rhanddeiliaid bryderon am effeithiolrwydd cynlluniau gweithlu ar draws gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ac i blant yng Nghymru, gan alw am i'r adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ystyried y farchnad lafur mewn gofal cymdeithasol.<sup>269</sup>

255. Dywedodd y Gweinidog y byddai adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn gwella'r wybodaeth a oedd ar gael i helpu comisiynwyr i wneud penderfyniadau effeithiol yn eu marchnadoedd lleol.<sup>270</sup>

256. Cyfeiriodd y Gweinidog at [bapur cyfarwyddyd gan yr SSIA ar 'Baratoi datganiad ar Sefyllfa Marchnad'](#) y dywedodd ei fod yn dangos bod awdurdodau lleol Cymru eisoes wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r mater. Mae'r papur yn cynnwys awgrym o gynnwys adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, er bod y Gweinidog wedi dweud mewn llythyr at y Pwyllgor ei fod yn bwriadu sicrhau ymgysylltu ac ymgynghori o ran y gofynion ynglŷn ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad a fyddai'n debyg o arwain at wahaniaethau o'r model a amlinellwyd yn y papur.<sup>271</sup>

257. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad oedd yn bwriadu i wyneb y Bil ragnodi amserlen adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, gan fod angen sicrhau hyblygrwydd ac ymatebolrwydd, gan bwysu a mesur y cylch adrodd yn erbyn newidiadau yn y farchnad.<sup>272</sup>

258. Dywedodd Mari Williams, un o gyfreithwyr Llywodraeth Cymru, fod cysylltiad rhwng y ddyletswydd o dan y Bil i lunio adroddiadau ar

---

<sup>267</sup> [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#)

<sup>268</sup> [RISC39 Macmillan Cymru](#)

<sup>269</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 282-5\]](#), 13 Mai 2015, [RISC18 Y Coleg Nyrsio Brenhinol](#)

<sup>270</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 118\]](#), 25 Mawrth 2015

<sup>271</sup> [RISC A102 Gohebiaeth gan y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Mai 2015](#)

<sup>272</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 124\]](#), 25 Mawrth 2015

sefydlogrwydd y farchnad a'r ddyletswydd ar yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol o dan adran 14 o Ddeddf 2014 i asesu'r angen am ofal a chymorth yn eu hardaloedd. Nododd fod y rheoliadau i ragnodi manylion y ddyletswydd o dan adran 14 heb eu drafftio eto, ond dywedodd y bydden nhw'n bwydo'r rheoliadau sydd i'w drafftio o dan adran 144B o Ddeddf 2014, sydd i'w mewnosod gan adran 55 o'r Bil.<sup>273</sup>

259. Dywedodd y Gweinidog bod y darpariaethau wedi'u bwriadu i sicrhau y gallai comisiynwyr weld bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau a dod o hyd i ddarparwyr i'w llenwi, ac i alluogi'r sector gofal cymdeithasol i ddod o hyd i feysydd lle ceid cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau.<sup>274</sup> Dywedodd wrth y Pwyllgor ei fod yn fodlon ystyried cyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn bendant yn ofynnol i adroddiadau lleol ar sefydlogrwydd y farchnad gynnwys dadansoddiad o waith comisiynu lleol.<sup>275</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

260. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nas oes fawr o awgrym ar hyn o bryd ar yr hyn y gallai'r adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ei gynnwys na pha mor aml y cân nhw eu llunio. Mae'n cydnabod tystiolaeth y Gweinidog bod angen rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn ymdopi ag amgylchiadau'r farchnad, ac i roi rhywfaint o sylw i'r rheoliadau sy'n dal i ddeillio o Ddeddf 2014.

261. Mae'n nodi ac yn ategu'r dystiolaeth a godwyd gan y rhanddeiliaid y dylai adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad gynnwys ystyriaeth ar gomisiynu, rôl y trydydd sector, mentrau cydweithredol a mentrau cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau, a'r farchnad lafur a chynlluniau gweithlu.

262. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ymgynghori'n llawn â'r sector cyn gwneud rheoliadau a chyhoeddi canllawiau o ran yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Mae'n nodi bod y rheoliadau o dan adran 144B o Ddeddf 2014 (sydd i'w mewnosod gan adran 55) ac adran 62 o'r Bil yn dod o dan y weithdrefn

---

<sup>273</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 125\]](#), 25 Mawrth 2015

<sup>274</sup> [RISC AI02 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Mai 2015](#)

<sup>275</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 91\]](#), 3 Mehefin 2015

negyddol, ac nad oes gofyniad ar wyneb y Bil i'r Gweinidog ymgynghori cyn gwneud y rheoliadau.

**Argymhelliad 29: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol i adroddiadau lleol ar sefydlogrwydd y farchnad gynnwys dadansoddiad o waith comisiynu, rôl y trydydd sector, mentrau cydweithredol a mentrau cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau, a'r farchnad lafur a chynlluniau gweithlu.**

**Argymhelliad 30: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i gynnwys gofynion ar wyneb y Bil ynglŷn ag ymgynghori â'r sector gofal cymdeithasol cyn gwneud rheoliadau o dan adran 144B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (sydd i'w mewnosod gan adran 55 o'r Bil) ac adran 62 o'r Bil o ran cynnwys a fformat adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad.**

#### **Capasiti i lunio adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad**

263. Clywodd y Pwyllgor bryderon gan y rhanddeiliaid ynghylch capasiti'r awdurdodau lleol ac AGGCC i lunio adroddiadau lleol a chenedlaethol ar sefydlogrwydd y farchnad. Nododd CLILC ac ADSS Cymru fod angen sicrhau nad oedd yna ddyblygu â dyletswyddau presennol yr awdurdodau lleol o ran adroddiadau ac asesiadau o'r boblogaeth o dan Ddeddf 2014. Dywedon nhw y byddai paratoi'r adroddiadau hyn yn golygu sgiliau ymchwilio a sgiliau modelu ariannol arbenigol, ac y byddai'n cymryd amser, arbenigedd ac adnoddau i'r ddyletswydd gael ei chyflawni'n effeithiol.<sup>276</sup>

264. Dywedodd AGGCC wrth y Pwyllgor eu bod yn rhag-weld y byddai'r awdurdodau lleol yn gweld bod llunio adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn waith "ymestynnol".<sup>277</sup>

265. Cydnabu ADSS Cymru y byddai angen i'r awdurdodau lleol ddatblygu'r gallu a'r capasiti i lunio adroddiadau lleol ar sefydlogrwydd y farchnad. Dywedodd cynrychiolwyr wrth y Pwyllgor fod yna bocedi o arbenigedd mewn rhai o'r awdurdodau lleol, ar draws Cymru, ac y byddai'n fwy effeithiol iddyn nhw weithio mewn

---

<sup>276</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>277</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

cydweithrediad ar linellau partneriaeth genedlaethol neu ranbarthol yn hytrach nag yn unigol, a allai olygu y bydden nhw i gyd yn cystadlu am yr un adnoddau arbenigol. Dywedon nhw fod bwrdd comisiynu cenedlaethol wedi'i sefydlu i helpu i grynhoi gwybodaeth, cydlynu gweithgareddau, a rhannu adnoddau i gomisiynu arbenigedd allanol pan oedd hynny'n briodol.<sup>278</sup>

266. Pan ofynnwyd a fyddai o gymorth pe bai yna ddyletswydd ar wyneb y Bil i'r awdurdodau lleol gydweithredu wrth lunio adroddiadau lleol ar sefydlogrwydd y farchnad, dywedodd Sue Evans o ADSS Cymru:

“the difficulty in enforcing it is that you may force the wrong partners. You may have different needs in neighbouring authorities, and there's no point trying to aggregate that if the needs are completely different. So I think it is about enabling that to happen, where it makes sense for different services”.<sup>279</sup>

267. Dywedodd y byrddau iechyd lleol y byddai llunio'r adroddiad cenedlaethol ar sefydlogrwydd y farchnad yn helpu i ddod o hyd i'r lefel is-genedlaethol neu ranbarthol neu'r lefel bartneriaeth briodol yn y farchnad gofal cymdeithasol i lunio adroddiadau lleol.<sup>280</sup>

268. Pwysleisiodd AGGCC gymhlethdod y farchnad gofal cymdeithasol, a chymhlethdod trefniadau strwythur a llywodraethiant rhai darparwyr gofal cymdeithasol. Dywedodd AGGCC wrth y Pwyllgor fod y darpariaethau yn y Bil yn rhesymol ac y bydden nhw'n eu galluogi i roi golwg gynhwysfawr ar y farchnad. Er hynny, pwysleisiodd AGGCC fod yna gyfyngiadau ar yr ymagwedd, a hefyd:

“we are not forensic accountants. We can't be forensic accountants. We can account for whether sufficient moneys are being spent on the business to run the business properly”.<sup>281</sup>

269. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, amlinellodd AGGCC rai o'r rhwystrau posibl a allai atal adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad rhag cael eu llunio a rhag bod yn effeithiol, gan gynnwys:

---

<sup>278</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 77, 80 ac 82\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>279</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 78-9\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>280</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 325\]](#), 21 Mai 2015

<sup>281</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 164 a 174\]](#), 23 Ebrill 2015

- cymhlethdod a chostau sylweddol sefydlu systemau diogel a sicrhau arbenigedd ariannol digonol;
- cymhlethdod y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru a'r baich ar ddarparwyr bach wrth ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol;
- ystyriaethau technegol a gohiriadau posibl wrth gael gafael ar wybodaeth ariannol fanwl-gywir.

270. Dywedodd AGGCC y byddai modd iddyn nhw roi proffiliau marchnad syml ar sail gwaith goruchwylio cyffredinol a thueddiadau gan adnabod risgiau hysbys ac adnabyddadwy, lle roedd y marcwyr ariannol yn mynd yn groes i'r graen neu lle câi pryderon eu codi. Er hynny, dywedon nhw na allen nhw gasglu na dadansoddi data ariannol na dangosyddion masnach mwy soffistigedig.<sup>282</sup> Nododd BCC AGGCC y byddai llunio adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn gofyn set benodol o sgiliau, a allai fod yn anodd i AGGCC.<sup>283</sup>

271. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol gynyddu eu capasiti o safbwynt y sgiliau yr oedd eu hangen i lunio adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Er hynny, dywedodd ei fod yn rhag-weld y byddai'r awdurdodau lleol yn cydweithio yn hytrach nag yn llunio adroddiadau unigol ar sefydlogrwydd y farchnad, a bod yr arferion gorau eisoes yn cael eu defnyddio ymysg rhai o'r awdurdodau lleol a allai gael eu rhannu.<sup>284</sup> Dywedodd wrth y Pwyllgor nad oedd yn bwriadu gosod gofynion ar wyneb y Bil ynglŷn â sut y dylai'r awdurdodau lleol geisio cydweithio, gan y gallai'r lefelau cydweithio priodol amrywio ledled Cymru gan ddibynnu ar yr amgylchiadau lleol.<sup>285</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

272. Mae'r Pwyllgor yn rhannu pryderon y rhanddeiliaid nad oes gan yr awdurdodau lleol ac AGGCC yr arbenigedd a'r sgiliau cywir i wneud y gwaith hwn ar hyn o bryd. Mae hefyd yn credu bod rhaid i'r awdurdodau lleol, wrth iddyn nhw lunio adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, ystyried cydweithio â'i gilydd ar hyd llinellau rhanbarthol

<sup>282</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>283</sup> [RISC21 Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>284</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 123\]](#), 25 Mawrth 2015

<sup>285</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 66\]](#), 3 Mehefin 2015

neu is-genedlaethol priodol, ac â'r byrddau iechyd lleol perthnasol. Bydd y trefniadau penodol ar gyfer gweithio ar y cyd yn dibynnu ar yr amgylchiadau lleol, ond mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid cael dyletswydd ar wyneb y Bil i'w gwneud yn ofynnol i sylw priodol gael ei roi i ymagwedd gydweithredol.

**Argymhelliad 31: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau er mwyn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd ac â byrddau iechyd lleol perthnasol i lunio adroddiadau lleol ar sefydlogrwydd y farchnad.**

**Argymhelliad 32: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r cymorth a'r adnoddau a fydd yn cael eu darparu i'r awdurdodau lleol ac i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i sicrhau bod y capasiti a'r arbenigedd cywir ar gael i lunio adroddiadau lleol a chenedlaethol ar sefydlogrwydd y farchnad.**

### **Cynaliadwyedd ariannol darparwyr gofal cymdeithasol**

273. Mae Pennod 7 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru fonitro ac adolygu cynaliadwyedd ariannol darparwyr gwasanaethau penodol. Mae adran 58 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i sefydlu meini prawf. Mae adran 60 yn dweud bod rhaid i Weinidogion Cymru asesu cynaliadwyedd ariannol busnesau darparwyr gwasanaethau penodol. Yn sgil hynny, caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i AGGCC gynnal ymarfer 'diwydrwydd dyledus' ynglŷn â'r busnes, a bydd gan AGGCC bŵer i'w gwneud yn ofynnol i'r darparwr fynd drwy adolygiad busnes a/neu ddarparu trefniadau cynllun wrth gefn.

### ***Meini prawf ynglŷn â darparwyr***

274. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y darpariaethau'n ddull diogelu pwysig i'r cyhoedd, a'u bod wedi'u cynnwys fel rhan o'r gwersi a ddysgwyd ar ôl cwmp Southern Cross. Dywedodd ei fod yn rhag-weld mai anaml yn unig y caen nhw eu defnyddio'n ymarferol.<sup>286</sup>

275. Nododd y Gweinidog ei fod yn bwriadu i'r darpariaethau yn y Bil gael eu cymhwyso at ddarparwyr cenedlaethol mawr yn unig, yn

---

<sup>286</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 148\]](#), 25 Mawrth 2015

hytrach na darparwyr bach a oedd yn dominyddu eu marchnadoedd lleol,<sup>287</sup> a dywedodd ei fod yn hyderus bod y darpariaethau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwyr ddatgelu gwybodaeth, pan oedd hynny er lles y cyhoedd, yn gymesur ac yn cydymffurfio â [Deddf Hawliau Dynol 1998](#).<sup>288</sup>

276. Nododd David Pritchard, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu'r Gweithlu yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio yn Llywodraeth Cymru fod rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i natur arbenigol y darparwr wrth iddyn nhw wneud rheoliadau o dan adran 58 i bennu'r meini prawf ynglŷn â chymhwyso cynllun goruchwyllo marchnad at ddarparwr. Byddai'r rheoliadau hynny'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol.<sup>289</sup> Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn bwriadu ymgynghori ar y darpariaethau hyn yn gynnar, gan gyflwyno rheoliadau drafft yn gynnar yn 2016.<sup>290</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

277. Mae'r Pwyllgor yn nodi nad oes gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori ag arbenigwyr na rhanddeiliaid wrth ddiffinio'r meini prawf. O gofio effaith bosibl cyfundrefn goruchwyllo'r farchnad, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r meini prawf fod yn destun ymgynghori eang, ac y dylai'r gofynion ynglŷn â hynny gael eu nodi ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 34: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau er mwyn cynnwys gofynion i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol cyn gwneud rheoliadau o dan adran 58 o ran goruchwyllo'r farchnad.**

### ***Effaith cyfundrefn goruchwyllo'r farchnad***

278. Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yn croesawu'r darpariaethau ynghylch goruchwyllo'r farchnad o safbwynt cynaliadwyedd ariannol y darparwyr. Cyfeiriodd y rhanddeiliaid at yr effaith arwyddocaol y gallai

---

<sup>287</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 59\]](#), 3 Mehefin 2015

<sup>288</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 141\]](#), 25 Mawrth 2015

<sup>289</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 61\]](#), 3 Mehefin 2015

<sup>290</sup> [RISC AI02 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Mai 2015](#)

penderfyniad sydyn gan ddarparwr mawr i dynnu gwasanaethau yn ôl ei chael ar defnyddwyr gwasanaethau a'r farchnad leol.<sup>291</sup>

279. Dywedodd Croes Goch Prydain fod cynaliadwyedd y darparwyr yn gallu dibynnu ar y telerau ariannol a oedd yn cael eu darparu gan gomisiynwyr statudol. Nododd y Groes Goch fod cyllid y trydydd sector weithiau'n cael ei drefnu ar sail flynyddol, nad oedd y costau llawn bob amser yn cael eu hadennill, a bod gwasanaethau'n cael cymhorthdal drwy gyfrwng cronfeydd elusennol. Awgrymodd y Groes Goch y gallai asesiadau o gynaliadwyedd ariannol gael eu defnyddio i hybu dyfarniadau ariannol ar gyfer cyfnodau hirach gan gomisiynwyr statudol i'r trydydd sector.<sup>292</sup>

280. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, mae AGGCC yn nodi'r hyn y maen nhw'n ei ddisgrifio fel problemau technegol mawr mewn cynlluniau goruchwylio'r farchnad. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd AGGCC wrth y Pwyllgor fod gan rai busnesau gofal strwythurau cymhleth sydd wedi'u seilio ar eu trefniadau treth yn hytrach na modelau gwasanaeth ac, er bod gan AGGCC y gallu i gasglu gwybodaeth dda ar lefel y gwasanaeth, mae sicrhau gwybodaeth dda am strwythurau a chyllid ar raddfa fwy yn her. Dywedodd AGGCC wrth y Pwyllgor:

“What we're saying is that we are already sighted on that with local authorities for escalating concerns, but we can provide a basic level of financial assurance about services and watch for these indicators and watch for things, but could we anticipate another Southern Cross around the corner? That would be very difficult, even [with] a major investment by the Welsh Government”.<sup>293</sup>

281. Nododd Melanie Minty o Fforwm Gofal Cymru:

“I think there is an issue there—well, three issues, really. One is the fact that we want a system that is straightforward and doesn't add too much to the existing level of paperwork that care homes have to wade through when they want to be getting on with the business of looking after people. The second is that, yes, for larger businesses, it is more difficult to work out the individual costs of care homes, and there are different

---

<sup>291</sup> [RISC18 Y Coleg Nyrsio Brenhinol](#)

<sup>292</sup> [RISC37 Croes Goch Prydain](#)

<sup>293</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 167\]](#), 23 Ebrill 2015



levels of efficiencies and so on. The third is, yes, I don't think that, as it stands, there is sufficient expertise within, for instance, CSSIW, or even local authorities, possibly, to make judgements about sustainability. I think there needs to be an element of professionalism brought in that isn't there at the moment".<sup>294</sup>

282. Dywedodd David Francis o AGGCC wrth y Pwyllgor fod cymhlethdod strwythurau a threfniadau ariannol darparwyr gofal cymdeithasol, a'r gwasanaethau i'r Deyrnas Unedig gyfan yr oedd rhai yn eu darparu, yn golygu ei bod yn bwysig bod y Bil yn rhoi pŵer i'r rheoleiddiwr rannu gwybodaeth gyda rheoleiddwyr eraill ar draws y Deyrnas Unedig.<sup>295</sup> Dywedodd wrth y Pwyllgor fod AGGCC yn monitro adolygiad y Comisiwn Ansawdd Gofal o'u model nhw o oruchwylio'r farchnad yn Lloegr, ac y byddai rheoleiddiwr Cymru'n anelu at ddysgu gwersi ar sail yr adolygiad.<sup>296</sup>

283. Cydnabu'r Gweinidog y gellid cael amgylchiadau, yn achos darparwyr a oedd yn darparu nifer o wasanaethau, lle roedd y cwmni yn ei gryswth yn hyfyw yn ariannol, ond bod un gwasanaeth neu leoliad penodol yn wynebu'r risg o fethu, a'r posibilrwydd o ganlyniadau andwyol yn sgil asesiad o hyfywedd ariannol y darparwr. Dywedodd y byddai angen cyfyngiadau priodol ar weld yr wybodaeth a fyddai'n cael ei chasglu o ran cyfundrefn goruchwylio'r farchnad, ac ar sut roedd yr wybodaeth yn cael ei rhannu. Dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai'r gyfundrefn yn adlewyrchu cyfundrefn Lloegr i raddau helaeth, ac y byddai ganddi'r un dulliau diogelu.<sup>297</sup>

284. Dywedodd Colin Angel o'r UKHCA wrth y Pwyllgor fod y darpariaethau yn y Bil ynglŷn â goruchwyliaeth Gweinidogion Cymru ar gynaliadwyedd ariannol darparwyr penodol yn synhwyrol, ond nad oedd rhai darparwyr yn credu y byddai methiant posibl o du'r darparwyr yn cael ei weld yn ddigon cyflym. Nododd fod y Bil yn darparu i'r rheoleiddiwr ymyrryd mewn gwasanaethau a oedd yn wynebu risg o fethu ar yr adeg pan fydden nhw'n methu. Dywedodd y byddai hynny'n lleihau'r risg o ganlyniadau anfwriadol yn sgil ymyriadau cynnar a fyddai'n peri i'r darparwr fethu wrth i gomisiynwyr

---

<sup>294</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 172\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>295</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 165\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>296</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 167\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>297</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 64\]](#), 3 Mehefin 2015

pryderus dynnu'n ôl.<sup>298</sup> Cydnabu'r Gweinidog y risg, gan ddweud ei fod yn hyderus y byddai'r system yn cynnwys dulliau diogelu digonol i leihau'r risg.<sup>299</sup>

285. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylai'r darpariaethau fynd ymhellach, o ran pa bryd y dylai gwiriadau gael eu cynnal ac o ran pa ddarparwyr a ddylai gael eu gwirio. Soniodd y GMB wrth y Pwyllgor am bwysigrwydd sicrhau bod yna waith craffu ariannol digonol ar y darparwyr cyn i wasanaethau gael eu comisiynu, gan ddweud y bydden nhw'n croesawu gwiriadau bob hyn a hyn ar bob darparwr. Dywedodd Mike Payne y byddai hynny'n arwain at fwy o dryloywder, ac yn rhoi hyder i'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau a'r gweithlu gofal cymdeithasol yng nghynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hirach.<sup>300</sup>

286. Cydnabu Cynghair Henoed Cymru effaith methiant darparwr mawr, ond nododd y gallai hyd yn oed methiant darparwr bach gael effaith arwyddocaol ar y farchnad leol pe bai'r gwasanaethau mewn rhan benodol o Gymru'n gyfyngedig. Wrth asesu pa ddarparwyr a ddylai gael eu cynnwys yng nghyfundrefn goruchwyllo'r farchnad o dan adran 58, awgrymodd Rosanne Palmer y dylai ystyriaeth gael ei rhoi i'r asesiad o anghenion y boblogaeth o dan Ddeddf 2014.<sup>301</sup>

287. Dywedodd y Cyngor Gofal wrth y Pwyllgor ei bod yn hanfodol bod darparwyr bach yn ogystal â darparwyr mawr yn gallu dangos eu bod yn hyfyw yn ariannol.<sup>302</sup> Ategwyd hyn gan CLILC ac ADSS Cymru, a ddywedodd y dylai ystyriaeth gael ei rhoi hefyd i oruchwyllo'r farchnad o ddarparwyr bach, yn benodol felly mewn marchnadoedd rhanbarthol a allai gael eu hansefydlogi'n hawdd.<sup>303</sup>

288. Cytunodd David Francis o AGGCC, gan ddweud:

“the feedback that they had in England from the local authorities, is that they were just as concerned about very local market failure as they were about big companies failing. We would suggest that, actually, that's the situation in Wales. We know of certain areas, certain communities, where there are

---

<sup>298</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 169-70\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>299</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 148\]](#), 25 Mawrth 2015

<sup>300</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 278-80\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>301</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 152-4\]](#), 13 Mai 2015

<sup>302</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 268\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>303</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

only two or three large nursing homes, two of which are financially distressed, and the impact for that local community could be just as significant".<sup>304</sup>

289. Dywedodd yr UKHCA yn eu tystiolaeth ysgrifenedig fod y darpariaethau yn y Bil yn gymesur i gyflawni'r amcan polisi oedd wedi'i ddatgan gan Lywodraeth Cymru. Cytunodd yr UKHCA fod faint o fusnes a oedd ar gael, daearyddiaeth ac arbenigeddau'r darparwyr yn fesurau priodol, ond nododd bryder na fyddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag arbenigwyr na rhanddeiliaid wrth ddiffinio'r meini prawf ar gyfer cynnwys darparwr o dan gyfundrefn goruchwylio'r farchnad. Nododd UKHCA hefyd nad oes darpariaethau i ddarparwyr ymadael â'r cynllun goruchwylio'r farchnad os bydd eu hamgylchiadau'n newid. Pwysleisiodd yr UKHCA y byddai tasg Gweinidogion Cymru o gynghori awdurdod lleol ynghylch cynaliadwyedd ariannol o dan adran 61 yn gofyn am i ddata gael ei drin mewn modd sensitif a chyfrinachol er mwyn osgoi cyflymu methiant mewn gwasanaethau.<sup>305</sup>

290. Dywedodd Colin Angel o'r UKHCA wrth y Pwyllgor fod angen i AGGCC, wrth arfer swyddogaethau goruchwylio'r farchnad, gymryd i ystyriaeth y gwahanol ffiniau ar gyfer hyfywedd ariannol a geid ymysg darparwyr cymdeithasol o wahanol feintiau a modelau.<sup>306</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

291. Mae'r Pwyllgor wedi'i ddarbwylo gan dystiolaeth y rhanddeiliaid ac mae'n credu y dylai'r Gweinidog fynd ati, wrth wneud rheoliadau o dan adran 58 i sefydlu'r meini prawf ar gyfer goruchwylio'r farchnad, i sicrhau bod darparwyr o arwyddocâd yn eu marchnadoedd lleol wedi'u cynnwys, ac nid darparwyr mawr yn unig. Mae'n credu y bydd cynnwys darparwyr sy'n arwyddocaol yn lleol, p'un a ydyn nhw'n arwyddocaol ar sail eu maint neu eu harbenigedd, yn hybu sefydlogrwydd mewn marchnadoedd lleol.

292. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r dystiolaeth a gafodd y gallai fod yn fuddiol cynnal gwiriadau ar gynaliadwyedd ariannol o dro i dro ar gyfer

---

<sup>304</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 166\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>305</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 175\]](#), 29 Ebrill 2015, [RISCO6 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#)

<sup>306</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 173\]](#), 29 Ebrill 2015

pob darparwr. Er hynny, mae'n cydnabod y byddai hynny'n dod â goblygiadau arwyddocaol o safbwynt adnoddau.

**Argymhelliad 34: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth wneud rheoliadau o dan adran 58 i sefydlu'r meini prawf ar gyfer cynnwys darparwyr mewn gwiriadau goruchwyllo'r farchnad a gwiriadau cynaliadwyedd ariannol, sicrhau bod y meini prawf yn ddigon hyblyg i fod yn briodol i ddarparwyr o bob maint sy'n arwyddocaol yn eu marchnadoedd lleol.**

### **Capasiti i oruchwyllo'r farchnad**

293. Rhoddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda groeso i rôl AGGCC mewn goruchwylloeth ariannol a chorfforaethol, ond nododd y byddai angen chwilio am arbenigedd penodol, a fyddai'n gofyn adnoddau ychwanegol.<sup>307</sup> Dywedodd Fforwm Gofal Cymru wrth y Pwyllgor nad oedd yn credu bod gan AGGCC yr arbenigedd ar hyn o bryd i wneud dyfarniadau ar gynaliadwyedd ariannol. Cytunodd Colin Angel o UKHCA, ond nododd fod hynny i'w ddisgwyl, gan nad oedd yn un o'u swyddogaethau presennol.<sup>308</sup>

294. Croesawodd David Francis o AGGCC y darpariaethau yn y Bil sy'n galluogi'r rheoleiddiwr i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr wneud profion diwydrwydd dyladwy ynglŷn â chyllid er mwyn rhoi sicrwydd i AGGCC eu bod yn ariannol gynaliadwy.<sup>309</sup>

295. Er ei fod yn cydnabod natur benodol y sector gofal cymdeithasol, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod rhywfaint o gapasiti a phrofiad ar gael eisoes yn Llywodraeth Cymru i wneud asesiadau o hyfywedd ariannol, gan gyfeirio at ei phrofiad o asesu hyfywedd ariannol cymdeithasau tai.<sup>310</sup> Dywedodd y byddai angen hefyd i AGGCC gydweithio'n agos â'r Comisiwn Ansawdd Gofal, sy'n chwarae rhan debyg mewn asesu o ran darparwyr gofal cymdeithasol yn Lloegr. Ar ben y cyfleoedd i ddysgu gwersi a rhannu arferion da, byddai natur rhai darparwyr gofal cymdeithasol a oedd yn gweithredu ledled y

---

<sup>307</sup> [RISC31 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda](#)

<sup>308</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 172-3\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>309</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 171\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>310</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 141\]](#), 25 Mawrth 2015

Deyrnas Unedig yn golygu bod angen gweithio ar y cyd er mwyn osgoi dyblygu a rhannu gwybodaeth am ddarparwyr mawr.<sup>311</sup>

296. Mae'r RIA yn amcangyfrif y byddai cynnal asesiadau o sefydlogrwydd ariannol y deg darparwr yng Nghymru sy'n rhedeg gwasanaethau mewn deg neu ragor o leoliadau (heb gynnwys cymdeithasau tai), yn costio rhyw £217,000 yn ychwanegol i AGGCC yn y flwyddyn gyntaf, a £200,000 y flwyddyn wedyn. Er hynny, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu i AGGCC i'w galluogi i wneud y gwaith hwn. Nododd ei fod yn rhag-weld y byddai angen i AGGCC brynu'r arbenigedd i mewn yn y tymor byr tra bydden nhw'n adeiladu eu capasiti eu hunain.<sup>312</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

297. Mae'r Pwyllgor yn rhannu'r pryderon a gafodd eu codi gan y rhanddeiliaid ynghylch a fydd gan AGGCC y capasiti, y sgiliau neu'r arbenigedd i gyflawni eu dyletswyddau newydd o ran goruchwyllo'r farchnad.

**Argymhelliad 35: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi sut y bydd yn sicrhau bod gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru adnoddau priodol a'r arbenigedd angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau o ran cyfundrefn goruchwyllo'r farchnad.**

---

<sup>311</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 54\]](#), 3 Mehefin 2015

<sup>312</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 53\]](#), 3 Mehefin 2015

## 12. Gofal Cymdeithasol Cymru

---

298. Mae Rhan 3 o'r Bil ac Atodlen 2 iddo yn gwneud darpariaeth o ran ailgyfansoddi'r Cyngor Gofal fel Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae Atodlen 2 yn nodi'r trefniadau ar gyfer strwythur, aelodaeth, llywodraethiant a gwaith GCC.

299. Mae adran 67(2) yn nodi amcanion GCC, sef "diogelu, hybu a chynnal diogelwch a llesiant y cyhoedd yng Nghymru", ac yn darparu bod rhaid i GCC, wrth arfer eu swyddogaethau, hybu a chynnal:

- (a) safonau uchel yn y ddarpariaeth o wasanaethau gofal a chymorth,
- (b) safonau uchel o ymddygiad ac ymarfer ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol,
- (c) safonau uchel o ran hyfforddi gweithwyr gofal cymdeithasol, a
- (d) hyder y cyhoedd mewn gweithwyr gofal cymdeithasol".

300. Mae Rhan 3 hefyd yn darparu y caiff GCC roi cyngor a chymorth i ddarparwyr gwasanaethau gofal a chymorth er mwyn hybu gwelliannau yn y ddarpariaeth gwasanaethau, a chynnal astudiaethau ymchwil i'w galluogi i wneud argymhellion i wella darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau. Mae adran 70 yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithwyr gofal cymdeithasol, gan ei gwneud yn ofynnol i GCC drefnu bod gwybodaeth ar gael, a chyhoeddi datganiad o'u polisi ar gynnwys y cyhoedd a gweithwyr gofal cymdeithasol wrth arfer eu swyddogaethau.

301. Mae Rhan 3 hefyd yn rhoi pwerau eang i GCC i wneud rheolau newydd, ac mae'n nodi'r gofynion ynghylch ymgynghori a'r gofynion eraill y mae'n rhaid i GCC gydymffurfio â nhw wrth wneud rheolau. Nid yw rheolau sy'n cael eu gwneud gan GCC yn dod o dan weithdrefnau craffu'r Cynulliad.

### Cylch gorchwyl Gofal Cymdeithasol Cymru

302. Er eu bod yn ofalus i ddweud nad yw'r manylion wedi'u pennu eto, ac y bydd angen adnoddau priodol, rhoddodd y Cyngor Gofal groeso i'r cylch gorchwyl estynedig i GCC, gan ddweud:

“Bydd yr elfennau ychwanegol, sef gwella gwasanaethau, ymchwil a gwybodaeth y cyhoedd yn dod ag ysgogiadau allweddol eraill i’r ymagwedd draws-sectorol, gydgysylltiedig at godi ansawdd y darpariaeth”.<sup>313</sup>

303. Rhoddodd rhanddeiliaid eraill hefyd groeso i ehangu cylch gorchwyl y Cyngor Gofal,<sup>314</sup> a dywedodd Sense Cymru y byddai hynny’n lleihau’r dyblygu ag asiantaethau eraill sy’n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru,<sup>315</sup> a nododd RNIB Cymru y gallai hynny godi safonau a sicrhau bod gan weithwyr y sgiliau cywir i gyflwyno gofal cymdeithasol o safon.<sup>316</sup>

304. Dywedodd CLILC ac ADSS Cymru yn eu tystiolaeth ysgrifenedig ei bod yn bwysig bod defnyddwyr gwasanaethau a llywodraeth leol yn dal i gael eu cynrychioli yn y GCC newydd, y dywedon nhw fod rhaid iddyn nhw adeiladu ar gryfderau’r Cyngor Gofal, gan gynnwys “giving service users a voice and a part to play in the education of social workers and other social care workers”.<sup>317</sup>

305. Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn fod y dystiolaeth yr oedd hi wedi’i chael yn ystod ei hadolygiad ar gartrefi gofal wedi dangos nad oedd gan y Cyngor Gofal mo’r pwerau yr oedd eu hangen i yrru’r “newid diwylliannol diwyro a systematig angenrheidiol i fod yn hyrwyddwr cryf dros ddatblygu a phroffesiynoleiddio’r gweithlu gofal cymdeithasol”. Gan hynny, roedd yn croesawu’r penderfyniad i greu GCC a’u cylch gorchwyl estynedig, er ei bod yn nodi bod ganddi bryderon mai cyfyngedig fyddai eu heffaith ar yr arferion presennol, heb adnoddau ychwanegol arwyddocaol.<sup>318</sup>

306. Roedd gan rhanddeiliaid eraill bryderon am ehangder y cylch gorchwyl newydd. Dywedodd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol (“COT”) wrth y Pwyllgor nad oedd y cylch gorchwyl sydd wedi’i nodi yn adran 67(1) i ddiogelu, hybu a chynnal diogelwch a llesiant y cyhoedd wedi’i gyfyngu i faterion gofal cymdeithasol yn unig. Ymhellach, dywedodd y Coleg fod y swyddogaethau sydd wedi’u nodi yn adran

---

<sup>313</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

<sup>314</sup> [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#)

<sup>315</sup> [RISC26 Sense Cymru](#)

<sup>316</sup> [RISC28 RNIB Cymru](#)

<sup>317</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

<sup>318</sup> [RISC45 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru](#)

67(2) yn gymwys yn ehangach i'r gweithlu gofal cymdeithasol na'r gweithwyr hynny bydd yn ofynnol iddyn nhw gofrestru gyda GCC. Nododd y Coleg ei fod yn pryderu am sut y byddai'r Bil yn effeithio ar drefniadau i'r rhannau hynny o'r gweithlu gofal cymdeithasol sy'n cael eu rheoleiddio gan reoleiddwyr eraill.<sup>319</sup> Edrychir yn fanylach ar y mater hwn yn y bennod nesaf.

307. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid fod meysydd ychwanegol a allai gael eu cynnwys yng nghylch gorchwyl GCC. Nododd y Grŵp Cyfeirio Anabledd fod gan y Cyngor Gofal rôl ar hyn o bryd fel llais cyflogwyr yn y sector, ond dywedodd y Grŵp nad yw'r Bil yn sôn dim a fyddai hyn yn rhan o rôl GCC.<sup>320</sup> Dywedodd My Home Life Cymru wrth y Pwyllgor eu bod yn credu y dylai fod gan GCC rôl wrth ddod â rheoleiddwyr a chomisiynwyr gofal cymdeithasol at ei gilydd, yn ogystal â chofrestru, hyfforddi a chefnogi'r gweithlu.<sup>321</sup>

308. Cafodd cylch gorchwyl newydd GCC o ran cynnal astudiaethau i wella effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a/neu ddarbodaeth gofal a chymorth ei groesawu gan CLILC ac ADSS Cymru.<sup>322</sup> Dywedodd AGIC wrth y Pwyllgor y byddai'n rhaid i GCC gydweithio'n agos â sefydliadau partner yn y gwasanaeth iechyd yn ogystal ag mewn gofal cymdeithasol wrth arfer eu swyddogaethau gwella, er mwyn sicrhau bod yna ffocws digonol ar sut i ddod o hyd i welliannau a modelau newydd o gyflwyno gwasanaethau yn unol â symudiadau tuag at wasanaethau mwy integredig. Dywedodd Kate Chamberlain:

“by having an improvement function that focuses on social care, and an improvement function that focuses on healthcare, we are at risk of reinforcing sectoral boundaries, whereas, actually, we want to be trying to break them down. It's important to cut across that boundary”.<sup>323</sup>

309. Dywedodd Rhian Huws Williams o'r Cyngor Gofal wrth y Pwyllgor ei bod yn croesawu'r bwriad o dan y Bil i'r cyllid ar gyfer gwella a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol gael ei gydlynu gan GCC. Dywedodd y byddai hynny'n caniatáu i flaenoriaethau strategol y cyllid

---

<sup>319</sup> [RISC03 Coleg y Therapyddion Galwedigaethol](#)

<sup>320</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 124\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>321</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 150\]](#), 13 Mai 2015

<sup>322</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

<sup>323</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 244\]](#), 21 Mai 2015



gael eu pennu'n well. Yn ychwanegol, nododd y byddai'r swyddogaethau newydd mewn ymchwil yn galluogi GCC i wneud gwaith gwyllo'r gorwel a gwaith darogan er mwyn sicrhau mai "innovation development" fyddai'r elfen o'u cylch gwaith a fyddai'n ymwneud â gwella, ac nid "sending the cavalry in". O ran cyflawni'r elfen newydd yn eu cylch gorchwyl sy'n ymwneud â gwella, dywedodd wrth y Pwyllgor fod angen i GCC gael yr adnoddau i gyd-fynd â gweledigaeth a disgwyliadau Llywodraeth Cymru.<sup>324</sup> Dywedodd y Gweinidog y byddai'r adnoddau a gâi eu dyrannu i GCC yn ddwbl yr hyn y mae'r Cyngor Gofal yn ei gael ar hyn o bryd, er mwyn eu helpu i gyflawni eu hagenda gwella.<sup>325</sup>

310. O ran pŵer GCC yn adran 68 i roi cyngor a chymorth, gan gynnwys grantiau, i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth, dywedodd AGGCC fod angen eglurder am sut roedd y rôl yn cael ei chyflawni. Nododd y byddai angen gosod protocolau er mwyn atal eu rôl rheoleiddio gwasanaethau rhag gwrthdaro â swyddogaethau gwella GCC.<sup>326</sup>

311. Roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu y byddai elfennau o gylch gorchwyl GCC yn gwrthdaro â'i gilydd, yn enwedig swyddogaethau o ran rheoleiddio a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol.<sup>327</sup> Cafwyd consensws mai diogelu'r cyhoedd oedd prif swyddogaeth GCC. Dywedodd Cyngor Henoed Cymru y dylai'r swyddogaeth honno gael ei chadw ar wahân – o safbwynt gweithredu – i'r swyddogaethau eraill, er enghraifft y rhai sy'n ymwneud a hyfforddi neu wella, a hynny drwy drefniadau llywodraethu a dulliau diogelu cadarn.<sup>328</sup> Tanlinellodd Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi eu bod nhw wedi chwarae rôl ddeuol o'r blaen, fel corff proffesiynol a chorff rheoleiddio, ond bod y trefniadau wedi'u newid fel bod ffisiotherapyddion yn cael eu rheoleiddio gan y Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol gyda golwg ar atal gwrthdrawiadau rhag codi.<sup>329</sup>

312. Roedd y Coleg Nyrsio Brenhinol ("RCN") yn cytuno mai diogelu'r cyhoedd a ddylai fod yn brif swyddogaeth i'r rheoleidiwr. Nododd y posibilrwydd ar gyfer gwrthdrawiadau buddiannau, neu'r argraff o

---

<sup>324</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 273-4\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>325</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 102\]](#), 25 Mawrth 2015

<sup>326</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>327</sup> [RISC03 Coleg y Therapyddion Galwedigaethol](#), [RISC40 Cymdeithas Alzheimer](#)

<sup>328</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 147-8\]](#), 13 Mai 2015

<sup>329</sup> [RISC23 Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi](#)

wrthdrawiadau buddiannau, o ganlyniad i gylch gorchwyl eang GCC. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Coleg nad oedd y rôl wella a'r rôl gwybodaeth gyhoeddus o reidrwydd yn anghydnaws â swyddogaethau rheoleiddio GCC, ond y byddai angen i'r rhain gael eu geirio'n ofalus.<sup>330</sup>

313. Dywedodd Gerry Evans o'r Cyngor Gofal fod y Cyngor Gofal wedi mynd ati ers y dechrau i gydbwysu swyddogaethau rheoleiddio a datblygu'r gweithlu. Cydnabu y byddai cynnwys gwella gwasanaethau yng nghylch gorchwyl GCC yn dod â heriau newydd, ond dywedodd y byddai'r manteision yn drech na'r risgiau, o ran y rôl gryfach mewn sbarduno gwelliannau. Dywedodd y gallai'r gwrthdrawiad buddiannau posibl gael ei reoli drwy'r modd y byddai GCC yn ei strwythuro'i hun a'i waith.<sup>331</sup> Cytunodd Rhian Huws Williams, gan ddweud:

“Y peth hanfodol ydy sicrhau bod y model *governance* hefyd, yn ogystal â'r ochr gweithredu, yn saff.”<sup>332</sup>

314. Cydnabu CLILC ac ADSS y potensial ar gyfer gwrthdrawiadau buddiannau rhwng y rôl rheoleiddio a'r rôl wella, ond dywedon nhw fod modd mynd i'r afael â'r rhain drwy gyfrwng:

“mature conversation about the distinction between improvement, that require current arrangements to deliver better outcomes, and innovation, that require that new responses are developed to meet changing expectations and demands, as well as new legislative requirements”.<sup>333</sup>

315. Er hynny, gan siarad ar ran UNSAIN, dywedodd Ruth Crowder wrth y Pwyllgor fod angen i'r swyddogaethau rheoleiddio gael eu gwahanu'n gryf oddi wrth y swyddogaethau gwella, datblygu ac ymchwilio. Dywedodd fod angen diwylliant cefnogol o wella, ond hefyd fod angen rheoleiddio effeithiol i fynd i'r afael â pherfformiad gwael pan fyddai angen hynny.<sup>334</sup>

316. Dywedodd Sense Cymru fod cyrff eraill â oedd â chyfrifoldebau a allai wrthdaro â'i gilydd wedi ceisio ymateb drwy gyflawni eu rôl wella

---

<sup>330</sup> [RISC18 Y Coleg Nyrsio Brenhinol](#)

<sup>331</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 278-9\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>332</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 280\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>333</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

<sup>334</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 226\]](#), 29 Ebrill 2015

mewn perthynas ag unigolion neu grwpiau nad oedd ganddyn nhw gyfrifoldeb dros eu rheoleiddio yn unig. Nododd Sense Cymru nad oedd hyn yn bosibl ar gyfer GCC, y byddai ganddyn nhw ddyletswyddau pendant ym maes gwella a datblygu o ran gweithwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys y rhai y byddai'n eu rheoleiddio.<sup>335</sup>

317. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y Cyngor Gofal wedi ennyn hyder ymysg y sector a defnyddwyr gwasanaethau ynglŷn â'r modd yr oedden nhw'n cyflawni eu dyletswyddau. Amlinellodd ei uchelgais y byddai GCC yn helpu i adeiladu gweithlu gofal cymdeithasol a fyddai'n teimlo'n werthfawr ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ac a fyddai'n darparu hyfforddiant a chynnydd. Cydnabu'r Gweinidog bryderon y rhanddeiliaid ynghylch gwrthdrawiadau buddiannau posibl, ond dywedodd fod yna ffrwd wella wedi bod yn eu gwaith erioed, yn ychwanegol at eu swyddogaethau rheoleiddio.<sup>336</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

318. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y mwyafrif o'r rhanddeiliaid yn fodlon ar y cylch gorchwyl a roddir i GCC o dan y Bil, ond bod rhai yn pryderu am y potensial ar gyfer gwrthdrawiadau buddiannau rhwng rôl reoleiddio a rôl wella GCC. Mae'r ddwy elfen yn rôl GCC yn bwysig ar gyfer diogelu'r cyhoedd a chodi safonau gofal. Mae'n bwysig bod gan y GCC newydd drefniadau llywodraethu cadarn er mwyn ennyn hyder y cyhoedd, a hyder y sector gofal cymdeithasol, eu bod yn cyflawni'r cyfan o'u cylch gorchwyl yn briodol.

**Argymhelliad 36: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad yn nodi sut y bydd trefniadau llywodraethu Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wedd newydd yn sicrhau na fydd gwrthdrawiad buddiannau, neu'r argraff o wrthdrawiad buddiannau, rhwng eu swyddogaethau rheoleiddio a'u swyddogaethau eraill.**

### **Ailfrandio Cyngor Gofal Cymru**

319. Roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu am y cynnig y dylai'r Cyngor Gofal gael ei ailfrandio fel GCC. Roedd y pryderon yn cynnwys cost

---

<sup>335</sup> [RISC26 Sense Cymru](#)

<sup>336</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 102\]](#), 25 Mawrth 2015

ailfrandio,<sup>337</sup> a'r enw newydd ei hun, yr oedd rhai rhanddeiliaid yn credu nad oedd yn cwmpasu rôl a chylch gorchwyl rheoleiddiwr y gweithlu'n fanwl-gywir.<sup>338</sup> Er nad oedd ganddyn nhw farn bendant ar yr enw ar y Cyngor Gofal, dywedodd AGGCC fod y cynnig y dylai gael ei ailenwi'n GCC wedi methu â chydabod ei rôl wrth ategu ac adeiladu capasiti mewn safonau a chymwysterau yn y gweithlu yn y sector gofal plant ehangach yng Nghymru.<sup>339</sup>

320. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Cyngor Gofal eu bod nhw, a'u rhanddeiliaid, yn gresynu bod eu brand yn cael ei golli.<sup>340</sup> Dywedodd Rhian Huws Williams o'r Cyngor Gofal fod angen cydbwysio adnabyddiaeth brand eu henw presennol yn erbyn y cyfle i greu brand a gweledigaeth newydd ar gyfer y dyfodol. Nododd fod yna gost yn perthyn i ailfrandio, a dywedodd:

“there is a need to balance that carefully at a period where a lot is changing all at once for the organisation and for the sector and to think about where there are pragmatic approaches to continuing with the brand for the areas of business that it has been associated with today”.<sup>341</sup>

321. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod yna enw newydd “o ganlyniad i roi swyddogaethau newydd i Ofal Cymdeithasol Cymru”. Cadarnhaodd y Gweinidog hyn i'r Pwyllgor, gan ddweud y byddai'r enw newydd yn tynnu sylw at gyfrifoldebau newydd rheoleiddiwr y gweithlu.<sup>342</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

322. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Memorandwm Esboniadol a'r Gweinidog yn dweud bod enw newydd y Cyngor Gofal yn deillio o'r swyddogaethau newydd. Er hynny, yng ngoleuni pryderon y rhanddeiliaid, nid yw'r Pwyllgor wedi'i ddarbwylllo eto fod ganddo ddigon o fanylion i gyfiawnhau pam mae angen ailfrandio, a allai fod yn gostus.

---

<sup>337</sup> [RISC01 Sefydliad Disability Can Do](#)

<sup>338</sup> [RISC42 Yr Athro y Fonesig June Clark](#)

<sup>339</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>340</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

<sup>341</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 276\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>342</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 102\]](#), 25 Mawrth 2015

**Argymhelliad 37: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi rhagor o fanylion ynghylch pam mae angen ailfrandio Cyngor Gofal Cymru fel Gofal Cymdeithasol Cymru.**

### **Pwerau i wneud rheolau**

323. Tystiolaeth gymysg a gafodd y Pwyllgor am y pwerau i GCC wneud rheolau heb oruchwyliaeth o du'r Gweinidogion.

324. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, nododd yr UKHCA yr hyn yr oedden nhw'n ei ddisgrifio fel "the high degree of autonomy which will be given to Social Care Wales". Tanlinellodd yr UKHCA mai pwerau i ymyrryd ar ôl y weithred fyddai pwerau Gweinidogion Cymru yn bennaf o ran GCC, yn hytrach na chymeradwyo cynigion. Dywedon nhw eu bod yn pryderu ynghylch y diffyg goruchwyliaeth o du'r Gweinidogion a'u diffyg ymwneud â rheolau ynghylch y ffioedd a fyddai'n daladwy gan y gweithlu gofal cymdeithasol o dan adran 73, gan gyfeirio at yr effaith bosibl ar weithlu sy'n tueddu i fod yn gymharol isel ei dâl.<sup>343</sup>

325. Dywedodd yr RCN nad yw'r Cyngor Gofal bob amser wedi cymryd i ystyriaeth gyfraniad y gweithlu gofal cymdeithasol ehangach i'r sector gofal cymdeithasol. Dywedodd y Coleg eu bod yn gryf yn erbyn y pwerau i GCC wneud rheoliadau, a hefyd:

"we do not think it is at all appropriate for any such body to have this wide autonomous policy making ability without democratic oversight".<sup>344</sup>

326. Ar y llaw arall, roedd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys CLILC ac ADSS Cymru yn croesawu annibyniaeth ychwanegol GCC i wneud rheolau a fyddai'n llywodraethu'r broses reoleiddio.<sup>345</sup> Roedd y Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol o blaid cael amlinelliad pendant o'r gweithdrefnau ynglŷn â chofrestru ac addasrwydd i ymarfer ar wyneb y Bil, gan ddweud y byddai hynny'n cynnig fframwaith deddfwriaethol y gallai GCC ddatblygu eu rheolau eu hunain ynddo. Nododd y Cyngor y byddai'r gallu i wneud rheolau'n annibynnol heb

---

<sup>343</sup> [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#)

<sup>344</sup> [RISC18 Y Coleg Nyrsio Brenhinol](#)

<sup>345</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

droi at Weinidogion Cymru yn galluogi GCC i ymateb i newidiadau yn fwy hyblyg ac yn fwy amserol.<sup>346</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

327. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid ynghylch annibyniaeth GCC o ran eu pwerau i wneud rheolau. Wrth barhau i graffu ar y Bil, bydd y Pwyllgor yn rhoi sylw manwl i unrhyw argymhelliad neu sylw a fydd yn cael eu cynnig ar y pwerau i wneud rheolau gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

---

<sup>346</sup> [\*RISC07 Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol\*](#)

## 13. Y gweithlu gofal cymdeithasol

---

### Cofrestru

328. Mae Rhan 4 o'r Bil yn diffinio 'gweithiwr gofal cymdeithasol'. Mae'n darparu ar gyfer cynnal cofrestr o weithwyr cymdeithasol perthnasol, gweithwyr gofal cymdeithasol, a gweithwyr cymdeithasol ar ymweliad o wladwriaethau perthnasol yn Ewrop, ac yn amlinellu trefniadau ar gyfer cofrestru'r gweithwyr hyn. O dan adran 79, bydd yn ofynnol i weithwyr cymdeithasol (sef y rhai sydd â chymhwyster gwaith cymdeithasol) a gweithwyr cymdeithasol ar ymweliad o wladwriaethau perthnasol yn Ewrop gofrestru gyda GCC. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu gwneud rheoliadau o dan adran 78 i'w gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr o weithwyr cymdeithasol, rheolwyr gwasanaethau rheoleiddiedig (e.e. cartrefi gofal), a gweithwyr preswyl gofal plant gofrestru. Dyma'r un grwpiau ag sy'n cael eu cofrestru ar hyn o bryd.

329. Mae adran 85 o'r Bil yn darparu y caiff GCC wneud rheolau i'r perwyl mai am gyfnod penodedig yn unig y mae cofrestriad yn para, gan ei gwneud yn ofynnol felly i gofrestriad gael ei adnewyddu. Mae adran 109 yn ei gwneud yn ofynnol i GCC gadw rhestr o bersonau y mae eu henwau wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr. Mae adran 110 yn cymhwyso amddiffyniadau ynglŷn â'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol', ac yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i roi amddiffyniad tebyg i deitlau gweithwyr gofal cymdeithasol penodedig eraill.

330. Mae Ffigur 1 yn nodi rôl GCC o ran y gweithlu gofal cymdeithasol.

Ffigur 1 Categoriâu o weithiwr gofal cymdeithasol at ddibenion y Bil

	Categori o weithiwr gofal cymdeithasol				
	Gweithwyr cymdeithasol (adran 79(1)(a))	Yn rheoli man lle darperir gwasanaeth wedi'i reoleiddio (adran 79(1)(b))	Yn darparu gofal a chymorth yn ystod eu cyflogaeth (adran 79(1)(c))	Yn darparu gofal a chymorth o dan gontract am wasanaethau (adran 79(1)(d))	Gweithwyr gofal cymdeithasol posibl fel y nodwyd yn adran 78(3) y gellir eu diffinio fel gweithwyr gofal cymdeithasol yn y dyfodol
<p><b>Gall Gofal Cymdeithasol Cymru:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– roi cyngor a chymorth;</li> <li>– gweithio'n agos gyda gweithwyr gofal cymdeithasol;</li> <li>– gwneud rheolau sy'n mynnu hyfforddiant;</li> <li>– cymeradwyo cyrsiau at ddibenion hyfforddi;</li> <li>– gwneud gorchmynion gwahardd? (adrannau 67, 38, 70, 74, 113, 163)</li> </ul>	Gall	Gall	Gall	Yes	Nid ar hyn o bryd, ond gellir eu hychwanegu drwy reoliadau o dan adran 78(2).
<p><b>A ydynt yn destun y cod ymarfer ar safonau a gyhoeddwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru?</b> (adran 111)</p>	Ydynt	Ydynt	Ydynt. Gallant hefyd fod yn destun codau ymarfer eraill.	Ydynt. Gallant hefyd fod yn destun codau ymarfer eraill.	Nid ar hyn o bryd, ond gellid eu hychwanegu yn y dyfodol gan reoliadau o dan adran 78(2).
<p><b>A yw'n ofynnol iddynt gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a bod yn destun gweithdrefnau addasrwydd i arfer?</b> (adrannau 79, 116, 122, 135, 158)</p>	Ydy. Ar wyneb y Bil.	Ydy. Mae'r Gweinidog wedi nodi y bydd holl reolwyr gwasanaethau rheoledig yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau.	Gweithwyr gofal preswyl plant, myfyrwyr gwaith cymdeithasol: ydy – mae'r Gweinidog wedi nodi y bydd y grwpiau hyn yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau. Gweithwyr gofal cymdeithasol eraill: nid ar hyn o bryd, ond gellid eu hychwanegu yn y dyfodol gan reoliadau.	Nid ar hyn o bryd, ond gellid eu hychwanegu yn y dyfodol gan reoliadau o dan adran 79(1)(b).	Nid ar hyn o bryd, ond gellid eu hychwanegu yn y dyfodol gan reoliadau o dan adrannau 78(2) a 79(1)(b).
<p><b>A yw'n ofynnol iddynt gofrestru gyda rheoleiddwyr eraill?</b></p>	Nac ydy	Efallai. Mae'r Gweinidog wedi nodi na fydd yn ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda rheoleiddwyr eraill gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.			



## ***Effaith cofrestru***

331. Soniodd llawer o randdeiliaid wrth y Pwyllgor am fanteision cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys cydnabod eu gwerth, a phroffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol.<sup>347</sup>

332. Dywedodd Fforwm Gofal Cymru fod cofrestru'n cynnig sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaethau, ac yn helpu darparwyr i recriwtio a chadw gweithlu o safon.<sup>348</sup> Dywedodd Colin Angel o'r UKHCA mai diogelu oedd prif bwrpas cofrestru. Cyfeiriodd at ei brofiad personol fel nyrs gofrestredig, gan ddisgrifio'r effaith yr oedd cofrestru wedi'i chreu ar ei ymdeimlad o ddyhead wrth hyfforddi ac ar ansawdd ei arferion er mwyn sicrhau ei fod yn llwyddo i gael ei gofrestru.<sup>349</sup> Disgrifiodd y Comisiynydd Pobl Hŷn gofrestru fel porth tuag at god ymarfer gorfodol, a'r hyfforddiant a'r gefnogaeth berthynol a allai hybu ffocws ar wella sgiliau, gwybodaeth a phroffesiynoldeb.<sup>350</sup>

333. Dywedodd Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru wrth y Pwyllgor y byddai'n bwysig na fyddai unrhyw brosesau cofrestru i weithwyr gofal cymdeithasol yn atal cyn ddefnyddwyr gwasanaethau rhag gweithio fel gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig. Dywedodd Alun Thomas o'r Cynghrair y gallai cyn ddefnyddwyr gwasanaethau fod yn fuddiol fel gweithwyr gofal cymdeithasol oherwydd eu gallu i ddangos empathi ac i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau presennol.<sup>351</sup>

334. Dywedodd Cynghrair Cynhalwyr Cymru fod cofrestru'n creu effaith ariannol i weithwyr gofal cymdeithasol neu ddarparwyr unigol oherwydd y ffioedd sy'n gysylltiedig â chofrestru. Nododd y Cynghrair ei bod yn anodd i sefydliadau bach yn y trydydd sector, megis y rhai a oedd yn cael eu hybu gan Ddeddf 2014, weld ble y dylai'r baich ariannol hwn orwedd.<sup>352</sup>

335. Roedd yr RIA yn cynnwys modelau ar gyfer ymestyn cofrestru gorfodol i'r cyfan o'r gweithlu gofal cymdeithasol o dan y strwythurau ffioedd presennol neu rai uwch. Mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, rhoddodd y Gweinidog amcangyfrifon pellach o oblygiadau ariannol

---

<sup>347</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 109\]](#), 13 Mai 2015

<sup>348</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 130\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>349</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 131\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>350</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 49\]](#), 13 Mai 2015

<sup>351</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 66\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>352</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 57\]](#), 29 Ebrill 2015

ymestyn cofrestru gorfodol i weithwyr gofal cartref a gweithwyr preswyl gofal oedolion (gweler Tabl 1 isod).

**Tabl 1 Amcangyfrif o'r goblygiadau ariannol i'r Cyngor Gofal yn sgil ymestyn cofrestru gorfodol i gynnwys gweithwyr gofal cartref a gweithwyr preswyl gofal oedolion<sup>353</sup>**

	Amcangyfrif o'r gost am bob unigolyn sy'n cofrestru	Amcangyfrif o'r gost	Amcangyfrif o'r incwm o ffioedd	Amcangyfrif o'r cymorth grant angenrheidiol	Cymorth grant presennol (2012-13)	Cost ychwanegol
Lefel y ffi bresennol (£10)	85.24	4,020,174	471,630	3,548,544	2,905,825	642,719
	130	6,131,190	471,630	5,659,560	2,905,825	2,753,735
	273.31	12,890,120	471,630	12,418,490	2,905,825	9,512,665
Lefel ffi uwch (£25)	85.24	4,020,174	1,179,075	2,841,099	2,905,825	-64,726
	130	6,131,190	1,179,075	4,952,115	2,905,825	2,046,290
	273.31	12,890,120	1,179,075	11,711,045	2,905,825	8,805,220

336. Tanlinellodd y Gweinidog fod yr amcangyfrifon wedi'u seilio ar arbedion graddfa sylweddol gan y Cyngor Gofal, o £273.31 am bob unigolyn sy'n cofrestru i £85.24. Ar y sail honno, gallai cadw'r ffi bresennol o £10 am bob unigolyn sy'n cofrestru arwain at gostau ychwanegol rhwng £642,719 a £9,512,665. Gallai codi'r ffi i £25 arwain at arbedion o £64,726, neu gostau ychwanegol o hyd at £8,805,220.

337. Nododd y Gweinidog ymhellach nad oedd yr amcangyfrifon hyn yn cymryd i ystyriaeth yr effaith ar y cyflenwad o weithwyr gofal cartref a gweithwyr preswyl gofal oedolion, nac ar y costau i gyflogwyr, er enghraifft y costau ynglŷn â galluogi staff i ennill cymwysterau penodol.<sup>354</sup>

### ***Ymestyn cofrestru***

338. Mae'r Bil yn dileu gallu gweithwyr gofal cymdeithasol, nad yw'n ofynnol iddyn nhw gofrestru ar hyn o bryd, i gofrestru o'u gwirfodd. Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yn croesawu'r penderfyniad i ddileu cofrestru gwirfoddol, gan ddweud nad oedd yn effeithiol ac mai ychydig yn unig o fanteision yr oedd yn eu cynnig o ran amddiffyn y

<sup>353</sup> Y tabl wedi'i baratoi ar sail data a roddwyd yn [RISC AI02 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Mai 2015](#)

<sup>354</sup> [RISC AI02 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Mai 2015](#)

cyhoedd.<sup>355</sup> Er hynny, cododd rhai, gan gynnwys CLILC ac ADSS Cymru, a Chroes Goch Prydain, bryderon ynghylch effaith dileu cofrestru gwirfoddol heb gynnydd cyfatebol mewn cofrestru gorfodol.<sup>356</sup> Dywedon nhw y byddai gorfodi rheolwyr gofal cartref i gofrestru, ond nid eu staff, yn creu bwlch lle na fyddai hyfforddiant, cymhwysedd a pherfformiad gweithwyr gofal cartref yn cael eu monitro.<sup>357</sup>

339. Cafwyd consensws ymysg y rhanddeiliaid a oedd yn croesawu'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 78 a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i ymestyn y gofyniad bod rhaid cofrestru gyda GCC i gategorïau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol. Er hynny, cymysg oedd y farn ynghylch a ddylai cofrestru gael ei ymestyn i rai neu'r cyfan o'r gweithlu gofal cymdeithasol.

340. Dywedodd rhai rhanddeiliaid y dylai cofrestru gael ei ymestyn i'r cyfan o'r gweithlu gofal cymdeithasol (heblaw'r gweithwyr hynny a oedd eisoes yn cael eu rheoleiddio gan reoleiddwyr eraill).<sup>358</sup> Dywedodd UNSAIN wrth y Pwyllgor eu bod yn cydnabod graddfa'r broses, ond "it would probably be the safest and most coherent to register absolutely everybody".<sup>359</sup>

341. Pwysleisiodd rhai o'r rhanddeiliaid, gan gynnwys Kelvyn Morris o Grŵp Ymgyrch Justice for Jasmine, a Chymdeithas MS Cymru, y cysylltiad rhwng cofrestru a'r cyfle i ddilyn hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y perfformiad yn cyrraedd lefel briodol.<sup>360</sup>

342. Tanlinellodd nifer o randdeiliaid nad oedd defnyddwyr gwasanaethau a oedd yn sicrhau eu gwasanaethau gofal cymdeithasol eu hunain drwy Daliadau Uniongyrchol, y Gronfa Byw'n Annibynnol, neu drwy eu hariannu eu hunain, yn cael gwasanaethau rheoleiddiedig. Er mwyn sicrhau amddiffyniad priodol i'r defnyddwyr gwasanaethau hyn, dywedodd John Moore o My Home Life Cymru y dylai fod yn orfodol i bob gweithiwr gofal cymdeithasol gofrestru.<sup>361</sup>

---

<sup>355</sup> [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#), [RISC07 Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol](#)

<sup>356</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

<sup>357</sup> [RISC37 Croes Goch Prydain](#)

<sup>358</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 63\]](#), 29 Ebrill 2015, [Cofnod y Trafodion \[para 108\]](#), 13 Mai 2015, [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#)

<sup>359</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 206\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>360</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 214\]](#), 13 Mai 2015, [RISC33 Cymdeithas MS Cymru](#)

<sup>361</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 108\]](#), 13 Mai 2015

343. Er hynny, dywedodd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys CLILC ac ADSS Cymru, wrth y Pwyllgor y byddai costau arwyddocaol yn gysylltiedig ag ymestyn cofrestru i'r gweithlu gofal cymdeithasol cyfan.<sup>362</sup> Cydnabu BASW Cymru fanteision ymestyn cofrestru o ran yr amddiffyniadau ychwanegol, ond dywedon nhw y gallai hynny gael ei sicrhau'n fwy effeithiol drwy ddatblygu diwylliant gwaith a fyddai'n cynnig rheolaeth, cymorth a chynghor priodol i weithwyr gofal cymdeithasol, a thrwy waith comisiynu priodol ar sail canlyniadau unigolion yn hytrach nag ar sail y gost.<sup>363</sup>

344. Cododd rhai rhanddeiliaid bryderon ynghylch effeithiau posibl ymestyn cofrestru. Siaradodd Lynda Williams o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn gadarnhaol am effeithiau cofrestru ar weithwyr proffesiynol gofal iechyd, ond cydnabu y gallai cofrestru fynd yn glogyrnaidd pe na bai'n cael ei roi ar waith yn gywir.<sup>364</sup> Er eu bod o blaid cofrestru fel dull i sicrhau bod gan bobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol gymwysterau a gwiriadau cywir, dywedodd NSPCC Cymru y gallai ymestyn cofrestru'n rhy eang fod yn rhwystr a fyddai'n atal dod â phobl newydd i mewn i'r gweithlu gofal cymdeithasol neu'n lleihau ar arloesi.<sup>365</sup> Tynnodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru sylw at risg symud y cyfrifoldeb dros ansawdd y gwasanaethau oddi wrth y darparwyr ac i'r staff, a'r risg yn sgil cynyddu'r baich yn anghymesur ar ddarparwyr bach neu ddarparwyr y trydydd sector pe na bai ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i wella'r broses gomisiynu.<sup>366</sup>

345. Dywedodd tystion eraill fod angen mwy o amser cyn penderfynu a ddylid ymestyn cofrestru i gategorïau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol. Awgrymodd yr RCN y dylai ystyriaeth gael ei rhoi yn gyntaf i effaith y system rheoleiddio ac arolygu newydd, a'r newidiadau a oedd yn cael eu rhag-weld mewn llywodraeth leol ac iechyd a gofal cymdeithasol.<sup>367</sup>

346. Roedd nifer o gategorïau penodol o weithwyr gofal cymdeithasol yr oedd y tystion yn credu y dylai cofrestru gael ei ymestyn iddyn nhw, gan gynnwys:

---

<sup>362</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

<sup>363</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 241 a 250-1\]](#), 13 Mai 2015

<sup>364</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 329\]](#), 21 Mai 2015

<sup>365</sup> [RISC A111 NSPCC Cymru](#)

<sup>366</sup> [RISC A103 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru](#)

<sup>367</sup> [RISC18 Y Coleg Nyrsio Brenhinol](#)

- **Gweithwyr preswyl gofal oedolion**  
Mae eisoes yn ofynnol i weithwyr preswyl gofal plant gofrestru. Er nad oes llawer o dystiolaeth o risg benodol, nododd y rhanddeiliaid fod argraff y cyhoedd a thegwch triniaeth i oedolion a phlant sy'n agored i niwed yn bwysig. Dywedwyd nad oes mecanwaith ar gael i gau allan y rhai sy'n anaddas i weithio fel gweithwyr gofal preswyl, a bod achosion fel Winterbourne View ac Ymgyrch Jasmine yn dangos nad yw'r trefniadau presennol yn amddiffyn pobl hŷn sy'n agored i niwed yn ddigonol.<sup>368</sup>
- **Cynorthwyr gofal personol a gweithwyr gofal cartref**  
Mae'r gweithwyr hyn (gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yng Nghymru i asiantaethau sydd â'u pencadlys yn Lloegr),<sup>369</sup> yn gweithio heb oruchwyliaeth gyda rhai o'r bobl hŷn fwyaf agored i niwed yn eu cartrefi eu hunain<sup>370</sup> ac maen nhw weithiau'n dod o hyd i waith yn y sector hyd yn oed ar ôl amlygu gofal annigonol neu anaddasrwydd ar gyfer y gwaith.<sup>371</sup> Dywedodd Age Cymru wrth y Pwyllgor fod arolwg diweddar gan ICM wedi dangos bod 92 y cant o'r 1000 o ymatebwyr yn credu y dylai gweithwyr gofal cartref gael eu cofrestru.<sup>372</sup>
- **Gweithwyr cymorth gofal iechyd**  
Nododd y rhanddeiliaid ei bod weithiau'n amhosibl gwahaniaethu rhwng gwaith gweithwyr cymorth gofal iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol, a bod y rolau'n cael eu diffinio'n fwy yn ôl y cyflogwr a'r lleoliad nac yn ôl y math o ofal sy'n cael ei roi.<sup>373</sup>

347. Er nad oedd cofrestru'r gweithlu ynddo'i hun yn warant o safonau gofal, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn bwriadu ymestyn y gofynion ynglŷn â chofrestru gorfodol i grwpiau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol. Er hynny, dywedodd ei fod yn bwriadu gwneud hynny drwy ddefnyddio'r pwerau i wneud rheoliadau o dan

<sup>368</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 55 a 107\]](#), 13 Mai 2015, [RISC02 Age Cymru](#), [RISC26 Sense Cymru](#), [RISC32 Cynghrair Henoed Cymru](#), [RISC40 Cymdeithas Alzheimer](#), [RISC45 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru](#)

<sup>369</sup> [RISC38 Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

<sup>370</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 48, 107 a 212\]](#), 13 Mai 2015, [Cofnod y Trafodion \[para 303\]](#), 21 Mai 2015 [RISC02 Age Cymru](#), [RISC37 Croes Goch Prydain](#), [RISC40 Cymdeithas Alzheimer](#)

<sup>371</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 136-7\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>372</sup> [RISC30 Age Cymru](#)

<sup>373</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 303 a 331-4\]](#), 21 Mai 2015

adran 78, nid drwy gynnwys grwpiau ychwanegol ar wyneb y Bil. Cyfeiriodd at bryderon a godwyd gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru y byddai ymestyn adroddiadau gorfodol yn feichus i ddarparwyr gofal cymdeithasol bach, gan ddweud bod y system gofrestru yn dal wrthi'n ymdopi ag ymestyn cofrestru i'r grwpiau mwyaf diweddar y daeth yn ofynnol iddyn nhw gofrestru, sef rheolwyr gofal cartref. Dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai'r Bil yn dod â chyfnod pontio ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol,<sup>374</sup> a'i fod yn awyddus yn y tymor byr i Gofal Cymdeithasol Cymru:

“to be able to concentrate on the things that it’s already being asked to do through the Bill”.<sup>375</sup>

348. Cydnabu'r Gweinidog farn y rhanddeiliaid y dylai cofrestru gael ei ymestyn i weithwyr gofal cartref. Pe bai digon o adnoddau ar gael, dywedodd y byddai ymestyn cofrestru i weithwyr o'r fath a oedd yn gorfod arfer “their craft completely unsupervised in people’s own homes”, yn flaenoriaeth iddo.<sup>376</sup>

349. Cydnabu farn y rhanddeiliaid y dylai cofrestru gael ei ymestyn i weithwyr preswyl gofal oedolion. Er hynny, dywedodd wrth y Pwyllgor fod rhaid tynnu gwahaniaeth rhwng cartrefi gofal i oedolion a chartrefi gofal i blant, gan ddweud:

“the sad history tells us that children’s homes tend to attract people to work there whose conduct in the discharge of their duties isn’t what we would like it to be. So, you know, there’s a vulnerable group of people, and it can attract people who trade on that vulnerability. There’s no real evidence that the adult care home sector attracts people who have abuse as part of their purpose in being there. It may attract people who are not good enough at the job and who are careless in the way that they go about things, but it isn’t abuse in the sense that we’ve come to recognise it in children’s homes”.<sup>377</sup>

350. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod yna risg y gallai dibynnu'n ormodol ar gofrestru ddod â risg o osod cyfrifoldeb dros y safonau gofal a ddarperir gan y gweithlu ar y staff unigol a'r

---

<sup>374</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 25\]](#), 3 Mehefin 2015

<sup>375</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 39\]](#), 25 Mawrth 2015

<sup>376</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 42\]](#), 25 Mawrth 2015

<sup>377</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 39 a 42\]](#), 25 Mawrth 2015

rheoleiddiwr, yn hytrach nag ar y cyflogwyr. Dywedodd fod ei swyddogion wrthi'n ystyried mecanweithiau eraill ar gyfer gwella tryloywder ynglŷn â'r gweithlu gofal cymdeithasol anghofrestredig, er enghraifft ei gwneud yn ofynnol i darparwyr gyhoeddi gwybodaeth am nifer y staff a gyflogir, eu hyfforddiant a'u cymwysterau, a throsiant staff.<sup>378</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

351. Mae'r Pwyllgor yn nodi tystiolaeth y Gweinidog ei fod yn bwriadu ystyried ei gwneud yn ofynnol i'r darparwyr gyhoeddi gwybodaeth am eu staff. Er hynny, nid yw'n credu y byddai hynny'n cynnig amddiffyniad ac y byddai'n amhriodol, yn achos defnyddwyr gwasanaethau sy'n sicrhau gwasanaethau drwy Daliadau Uniongyrchol neu'r Gronfa Byw'n Annibynnol – nid gwasanaethau rheoleiddiedig mo'r rhain, a'r defnyddiwr gwasanaeth yw'r cyflogwr. Gallai cymhlethdodau codi hefyd o ran gweithwyr rhan-amser sy'n gweithio i nifer o gyflogwyr gwahanol.

352. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai gweithwyr preswyl gofal oedolion a gweithwyr gofal cartref gael eu cofrestru, am eu bod yn rhoi gofal personol iawn i rai o'r bobl hŷn fwyaf agored i niwed yng Nghymru. Mae'n cydnabod bod yna gost yn gysylltiedig â hyn, ond wrth asesu a fyddai'r costau hyn yn cynnig gwerth am arian, mae'n credu bod rhaid i'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau gael ei chymryd i ystyriaeth o ran amddiffyn rhag niwed, a hyder y cyhoedd bod y gweithlu wedi'i gofrestru ac wedi'i reoleiddio'n briodol.

**Argymhelliad 38: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymestyn y gofynion ar wyneb y Bil ynglŷn â chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnwys gweithwyr gofal cartref a gweithwyr preswyl gofal oedolion.**

### **Gofalwyr maeth**

353. Barn gymysg a gafwyd ynghylch a ddylai fod yn ofynnol i ofalwyr maeth gofrestru. Nododd rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys y Comisiynydd Plant a sefydliadau plant yn y trydydd sector fod gofynion eisoes bod rhaid i ofalwyr maeth gael eu hasesu a'u cymeradwyo o ran eu haddasrwydd i weithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n agored i

---

<sup>378</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 26\]](#), 3 Mehefin 2015



niwed. Roedd yna bryder y gallai ymestyn cofrestru a'r gofynion perthynol atal pobl rhag dymuno bod yn ofalwyr maeth.<sup>379</sup> Dywedodd NSPCC Cymru wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth yr Alban wedi penderfynu yn ddiweddar na fyddai'n rheoleiddio gofalwyr maeth oherwydd pryderon ynglŷn â'r baich a fyddai'n deillio o hynny a'r risg o greu oedi wrth osod plant a phobl ifanc,<sup>380</sup> a nododd Plant yng Nghymru y gallai ei gwneud yn ofynnol i ofalwyr maeth gofrestru leihau'r gwasanaethau a fyddai ar gael i blant.<sup>381</sup>

354. Er hynny, cafwyd cydnabyddiaeth hefyd i bwysigrwydd y rôl sy'n cael ei chwarae gan ofalwyr maeth, a'r angen iddyn nhw gael cymorth a hyfforddiant o safon. Awgrymwyd hefyd y gallai cofrestru roi mwy o hyblygrwydd i ofalwyr maeth symud eu statws cymeradwy rhwng ardaloedd yr awdurdodau lleol yng Nghymru.<sup>382</sup> Er hynny, awgrymodd tystion eraill fod gorfod ymgeisio am ail-gymeradwyaeth yn helpu i ddarparu atebolrwydd.<sup>383</sup>

355. Nododd y Rhwydwaith Maethu y byddai manteision yn sgil cofrestru gofalwyr maeth â chorff cenedlaethol, yn enwedig yng ngoleuni'r ad-drefnu arfaethedig ar lywodraeth leol. Serch hynny, nododd y Rhwydwaith fod hwn yn fater cymhleth, ac y byddai angen cynnal asesiad effaith llawn cyn i gofrestru gael ei ymestyn i ofalwyr maeth er mwyn sicrhau bod y rheoleiddio'n effeithiol yn hytrach nag yn faich.<sup>384</sup> Roedd Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain yn cytuno bod hwn yn fater cymhleth lle'r oedd angen rhagor o ystyriaeth er mwyn gweld a oedd yna ddigon o fanteision i ofalwyr maeth, neu blant a phobl ifanc. Cyfeiriodd at y risg o orgyffwrdd neu ddyblygu â'r trefniadau presennol ar gyfer gofalwyr maeth, a'r potensial ar gyfer cynyddu baich gweinyddol yr awdurdodau.<sup>385</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

356. Oherwydd y dystiolaeth gymysg a gafodd ynghylch rheoleiddio gofalwyr maeth, nid yw'r Pwyllgor yn credu y byddai'n briodol i gofrestru gael ei ymestyn i ofalwyr maeth ar wyneb y Bil. Er hynny,

---

<sup>379</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 58-60\]](#), 21 Mai 2015

<sup>380</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 154-5\]](#), 21 Mai 2015

<sup>381</sup> [RISC A110 Plant yng Nghymru](#)

<sup>382</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 58-60\]](#), 21 Mai 2015

<sup>383</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 156\]](#), 21 Mai 2015

<sup>384</sup> [RISC A107 Y Rhwydwaith Maethu](#)

<sup>385</sup> [RISC A106 Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain](#)



dylai rhagor o waith gael ei wneud i ystyried a fyddai yna fanteision i ofalwyr maeth a'r plant a'r bobl ifanc y maen nhw'n eu cefnogi pe bai gofalwyr maeth yn cael eu cofrestru gyda GCC.

**Argymhelliad 39: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud rhagor o waith i ystyried a fyddai'n briodol ymestyn y gofyniad bod rhaid cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ofalwyr maeth.**

### **Modelau rheoleiddio eraill**

357. Dywedodd Rhian Huws Williams o'r Cyngor Gofal wrth y Pwyllgor y gallai rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol fod yn ffordd effeithiol i gefnogi a datblygu gweithwyr gofal cymdeithasol. Dywedodd ei bod yn awyddus i'r gweithlu cyfan gael ei reoleiddio, ond bod y Cyngor Gofal hefyd yn ystyried model amgen o reoleiddio galwedigaethol ar sail trwydded.<sup>386</sup>

358. Nod y model trwyddedu a gynigir gan y Cyngor Gofal yw mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan y profiad o gofrestru gwirfoddol yn achos gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal, y gallai cofrestru llawn fod yn anghymesur,<sup>387</sup> ac ynghylch rhwystrau ariannol a allai atal cofrestru gorfodol rhag cael ei ymestyn.<sup>388</sup> Amlinellodd y Cyngor Gofal eu model trwyddedu arfaethedig, gan ddweud y byddai'n canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant achrededig a chyfarwyddyd i helpu gweithwyr gofal, gan fynd i'r afael hefyd ag arferion gwael neu beryglus drwy dynnu'r gweithwyr hynny o'r gweithlu. O dan y model arfaethedig, byddai camau disgyblu ac addasrwydd i ymarfer yn fater i'r cyflogwr, a fyddai'n rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr am y canlyniad. Gallai'r rheoleiddiwr ddileu trwydded y gweithiwr pe bai'n briodol.<sup>389</sup>

359. Dywedodd Gerry Evans o'r Cyngor Gofal wrth y Pwyllgor ei bod yn bosibl na fyddai'r Bil yn ddigon hyblyg i ganiatáu modelau cofrestru neu fodelau trwyddedu a fyddai'n fwy priodol i gategorïau penodol o weithwyr gofal cymdeithasol. Nododd fod trafodaethau gyda Chomisiwn y Gyfraith wedi awgrymu bod modd cyflawni hyn, ond y

---

<sup>386</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 282\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>387</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 283\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>388</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

<sup>389</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

byddai'n gostus neu'n gyfreithlyd fel y mae'r Bil wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.<sup>390</sup> Esboniodd Rhian Huws Williams:

“Efallai'r consyrn sydd gennym ni ydy bod lefel manylder yn yr adran yma o'r Ddeddf yn ormodol er mwyn creu'r hyblygrwydd rydym yn chwilio amdano fo. Byddai rhywbeth mwy cyffredinol er mwyn creu'r hyblygrwydd yn y dyfodol yn fwy buddiol mewn cyfnod o newidiadau mawr”.<sup>391</sup>

360. Dywedodd y GMB wrth y Pwyllgor eu bod yn credu y byddai'r cyhoedd yn disgwyl, a'u bod yn ôl pob tebyg yn credu, bod yr holl weithwyr gofal cymdeithasol yn cael eu rheoleiddio eisoes. Dywedodd y GMB mai eu dewis opsiwn nhw fyddai i'r holl weithwyr gofal cymdeithasol gael eu rheoleiddio, ond pe na bai hynny'n bosibl mai'r opsiwn gorau wedyn fyddai dod o hyd i drefniadau eraill. Dywedodd y GMB wrth y Pwyllgor y bydden nhw'n croesawu penderfyniad i fabwysiadu'r model trwyddedu a gynigiwyd gan y Cyngor Gofal fel modd i fonitro gweithwyr mewn gweithlu gofal cymdeithasol a oedd yn cynyddu ac a oedd yn gweld trosiant uchel ymysg y staff.<sup>392</sup> Cyfeiriodd at y llwyddiant wrth ddefnyddio cynlluniau tebyg mewn sectorau eraill, gan gynnwys 'Gas Safe' ac Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.<sup>393</sup>

361. Cymysg oedd y dystiolaeth ynghylch Rhan 6 o'r Bil, sy'n darparu ar gyfer gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer. Gan y gallai cofrestru gael ei ymestyn i rannau eraill o'r gweithlu gofal cymdeithasol yn y dyfodol, dywedodd y Cyngor Gofal eu bod yn ansicr:

“a allai lefel y manylion am brosesau addasrwydd i ymarfer ar wyneb y Bil gyfyngu ar ystyriaeth bellach o ddulliau eraill o reoleiddio'r grwpiau hyn o weithwyr”.<sup>394</sup>

362. Nododd y Cyngor Gofal fod adolygiad Comisiwn y Gyfraith o reoleiddio gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr heb gael ei roi ar waith yn y gyfraith eto. Gan hynny, awgrymodd y Cyngor Gofal y dylai ystyriaeth gael ei rhoi i ddiwygio'r Bil i roi pwerau i Weinidogion Cymru i ymestyn rheoleiddio i grwpiau eraill o weithwyr drwy fodelau rheoleiddio a modelau addasrwydd i

---

<sup>390</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 283 a 286-8\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>391</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 290\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>392</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 202 a 212\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>393</sup> [RISC17 GMB](#)

<sup>394</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

ymarfer gwahanol, er mwyn sicrhau bod yna ddigon o hyblygrwydd i GCC ymateb i newidiadau yn ymagweddau'r Deyrnas Unedig at reoleiddio'r gweithlu ac i hwyluso cydweithredu yn y dyfodol rhwng cyrff rheoleiddio yn y Deyrnas Unedig.<sup>395</sup>

363. Er hynny, roedd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys CLILC ac ADSS Cymru, yn croesawu cynnwys y darpariaethau ar wyneb y Bil.<sup>396</sup> Dywedodd y Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol y byddai Rhan 6 o'r Bil yn fframwaith y gallai rheoleiddiwr y gweithlu ei ddefnyddio i benderfynu ar ei weithdrefnau gwaith ei hun drwy gyfrwng rheolau.<sup>397</sup>

364. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod wedi ystyried model trwyddedu'r Cyngor Gofal. Yn ei farn ef, meddai, byddai'r model trwyddedu'n golygu bod GCC yn "judge and jury" am y bydden nhw'n gyfrifol am ymchwilio a phenderfynu mewn achosion addasrwydd i ymarfer, gan benderfynu felly a fyddai gweithwyr gofal cymdeithasol yn gweld eu hawl i ymarfer, ac felly eu bywoliaeth, yn cael eu dileu.<sup>398</sup>

365. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn deall mewn gwirionedd mai'r cyflogwr a fyddai'n cymryd camau disgyblu ac yn cyflawni gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer yn y lle cyntaf, ac mai dim ond tynnu trwydded neu beidio â thynnu trwydded gweithiwr gofal cymdeithasol fyddai'n dod o dan gyfrifoldeb y rheoleiddiwr. Mae'r model hefyd yn cynnig sefydlu prosesau apelio mewnol ac allanol i sicrhau y cydymffurfir ag Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.<sup>399</sup>

366. Dywedodd y Gweinidog y byddai dull y panel o dan arweiniad llyegwyr sydd wedi'i nodi yn y Bil yn cynnig mwy o amddiffyniad i hawliau gweithwyr gofal cymdeithasol. Nododd fod y Bil yn rhoi ar waith gynigion gan Gomisiwn y Gyfraith ynghylch rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol, ond cydnabu fod y model o dan y Bil yn ddrutach i'w redeg na'r model trwyddedu a gynigiwyd gan y Cyngor Gofal, oherwydd costau ychwanegol defnyddio paneli o dan arweiniad llyegwyr o ran addasrwydd i ymarfer.<sup>400</sup>

---

<sup>395</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

<sup>396</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

<sup>397</sup> [RISC07 Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol](#)

<sup>398</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 43-4\]](#), 3 Mehefin 2015

<sup>399</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

<sup>400</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 43-4\]](#), 3 Mehefin 2015

## ***Barn y Pwyllgor***

367. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon a gododd y Cyngor Gofal y gallai lefel y manylion sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil gyfyngu'r hyblygrwydd i GCC o ran gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer yn achos grwpiau o weithwyr gofal cymdeithasol y gallai fod yn ofynnol iddyn nhw gofrestru yn y dyfodol. P'un a fydd modelau amgen fel yr un a gynigiwyd gan y Cyngor Gofal yn cael eu rhoi ar waith ai peidio, mae'n credu ei bod yn bwysig bod y Bil yn ddigon hyblyg ac yn ddigon diogel at y dyfodol i ymateb i anghenion rheoleiddio gweithlu gofal cymdeithasol y dyfodol.

**Argymhelliad 40: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ailystyried a yw'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio yn darparu'n digon o hyblygrwydd i ymateb i anghenion rheoleiddio gweithlu gofal cymdeithasol y dyfodol.**

### **Eglurder y derminoleg ynglŷn â'r gweithlu gofal cymdeithasol**

368. Er bod rhai rhanddeiliaid wedi nodi eu bod yn glir o ran pa weithwyr gofal cymdeithasol yr oedd yn ofynnol iddyn nhw gofrestru,<sup>401</sup> cododd llawer mwy bryderon ynghylch y diffyg eglurder ar sut roedd darpariaethau'r Bil yn ymwneud â gwahanol grwpiau yn y gweithlu gofal cymdeithasol.<sup>402</sup> Nododd y rhain fod yna dri grŵp yn ffurfio'r gweithlu gofal cymdeithasol cyfan:

- gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n cael eu rheoleiddio gan GCC;
- gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n cael eu rheoleiddio gan reoleiddwyr heblaw GCC;
- gweithwyr gofal cymdeithasol nad ydyn nhw'n cael eu rheoleiddio.<sup>403</sup>

369. Dywedodd y rhanddeiliaid fod rhaid i'r Bil fod yn fwy eglur wrth nodi a yw'r darpariaethau'n ymwneud â phob un o'r tri grŵp a pha bryd, a pha bryd y maen nhw'n ymwneud â'r grŵp cyntaf yn unig.<sup>404</sup> Er enghraifft, nododd y COT nad oedd yn glir a fyddai codau o dan adran 111(1)(a) ynglŷn â safonau ymddygiad ac ymarfer i 'weithwyr gofal

---

<sup>401</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 336-7\]](#), 21 Mai 2015, [RISC A111 NSPCC Cymru](#)

<sup>402</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 135 a 336-7\]](#), 21 Mai 2015

<sup>403</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 120\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>404</sup> [RISC09 Cynghrair Cynhalwyr Cymru](#), [RISC23 Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi](#)

cymdeithasol' yn cyfeirio at weithwyr gofal cymdeithasol anghofrestredig, neu weithwyr gofal cymdeithasol sy'n cael eu rheoleiddio gan reoleiddwyr eraill.<sup>405</sup> Yn yr un modd, nododd Cymdeithas Alzheimer fod swyddogaethau gwella ac addysgu GCC o ran gweithwyr gofal cymdeithasol yn ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol cyfan, ond o ran swyddogaethau rheoleiddio ei bod yn golygu gweithwyr gofal cymdeithasol a oedd wedi'u cofrestru gyda GCC yn unig.<sup>406</sup>

370. Nododd Sense Cymru y gallai defnyddio'r term 'gweithiwr gofal cymdeithasol' i ddisgrifio gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig, a'r gweithlu gofal cymdeithasol yn ehangach, gamarwain y cyhoedd, a fyddai'n rhagdybio bod pob weithiwr gofal cymdeithasol yn cael ei reoleiddio. Awgrymodd y gallai defnyddio term cyffredinol fel gweithiwr gofal cymdeithasol i olygu grŵp penodol yn y gweithlu gofal cymdeithasol ehangach beri problemau.<sup>407</sup>

371. Roedd yr RCN yn cytuno, gan ddweud y gallai ymagwedd anhyblyg at ddiffinio gofal cymdeithasol lyffetheirio ymagwedd amlddisgyblaeth, a hefyd:

"The concept of 'social care workforce' must be clearly and legally understood as entirely separate from the concept of the 'people who work in health and social care in the community'".<sup>408</sup>

372. Roedd pryder hefyd ymysg rhai rhanddeiliaid ynghylch cyfrifoldeb GCC o ran addasrwydd i ymarfer rhannau o'r gweithlu gofal cymdeithasol sy'n cael eu rheoleiddio gan reoleiddwyr eraill.<sup>409</sup> Awgrymodd y COT y dylai Rhan 6 o'r Bil gael ei ailenwi er mwyn bod yn glir ei bod yn ymwneud â gweithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru gyda GCC yn unig.<sup>410</sup>

373. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y Bil yn trawsosod darpariaethau sydd eisoes yn bodoli yn [Neddf Safonau Gofal 2000](#), a bod y darpariaethau hynny wedi cael eu deall yn dda yn ymarferol.

---

<sup>405</sup> [RISC03 Coleg y Therapyddion Galwedigaethol](#)

<sup>406</sup> [RISC40 Cymdeithas Alzheimer](#)

<sup>407</sup> [RISC26 Sense Cymru](#)

<sup>408</sup> [RISC18 Y Coleg Nyrsio Brenhinol](#)

<sup>409</sup> [RISC18 Y Coleg Nyrsio Brenhinol](#)

<sup>410</sup> [RISC03 Coleg y Therapyddion Galwedigaethol](#)

Cydnabu fod rhannau o'r Bil yn gymhleth o ran eu natur, ond dywedodd:

“sometimes complex matters end up with complexity in the way that the law has to respond to them”.<sup>411</sup>

374. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn fodlon ystyried a oedd angen cyflwyno gwelliannau i wella eglurder ynghylch pa grwpiau o weithwyr cymdeithasol neu weithwyr gofal cymdeithasol a oedd wedi'u cynnwys yma mha ddarpariaethau yn y Bil. Dywedodd Mari Williams, un o gyfreithwyr Llywodraeth Cymru, wrth y Pwyllgor fod y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol yn adran 78 yn deillio o *Ddeddf Safonau Gofal 2000*. Dywedodd fod adran 78(1) yn darparu ar gyfer y grwpiau o weithwyr gofal cymdeithasol a fyddai bob amser yn cael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion y Bil, a bod adrannau 78(2) a (3) yn darparu y gallai grwpiau ychwanegol yn y gweithlu gofal cymdeithasol gael eu dwyn i mewn i'r diffiniad drwy reoliadau.<sup>412</sup>

375. Dywedodd y rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor fod y diffiniad yn adran 78 o weithiwr gofal cymdeithasol yn eang, ac nad oedd yn cydnabod yn ddigonol fod rhai gweithwyr proffesiynol yn y gweithlu gofal cymdeithasol wedi'u cofrestru eisoes gyda rheoleiddwyr eraill, ac yn cael eu rheoleiddio ganddyn nhw.<sup>413</sup> Dywedodd y COT wrth y Pwyllgor fod angen mwy o eglurder ynghylch rôl GCC o ran y grwpiau hyn.<sup>414</sup>

376. Dadleuai'r RCN fod angen cydnabod bod rheoleiddwyr eraill yn rheoleiddio grwpiau penodol o weithwyr. Dywedodd nad oedd angen i'r gweithwyr proffesiynol hyn gael eu rheoleiddio hefyd gan GCC, ac y byddai rheoleiddio deuol yn ddrud ac yn creu baich gweinyddol heb roi unrhyw amddiffyniad ychwanegol i'r cyhoedd. Pwysleisiodd mor bwysig oedd:

“a clear policy statement that whilst regulated health professionals will need to be registered with Social Care Wales

---

<sup>411</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 47\]](#), 3 Mehefin 2015

<sup>412</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 48-9\]](#), 3 Mehefin 2015

<sup>413</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 60\]](#), 29 Ebrill 2015, [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 270-1\]](#), 13 Mai 2015, [Cofnod y Trafodion \[para 215\]](#), 21 Mai 2015, [RISC25 ATL Cymru](#), [RISC40 Cymdeithas Alzheimer](#)

<sup>414</sup> [RISC03 Coleg y Therapyddion Galwedigaethol](#)

regulation remains with the appropriate professional regulator”.<sup>415</sup>

377. Nododd BASW Cymru y gall fod yna rwystrau i weithwyr cymdeithasol sydd wedi’u cofrestru ac sy’n gweithio yn Lloegr ond sy’n dymuno dod i weithio yng Nghymru. Dywedodd Robin Moulster wrth y Pwyllgor fod yna risg y byddai’r rhwystrau ychwanegol yn atal gweithwyr cymdeithasol rhag gweithio ar draws y ffin neu rhag symud ar draws y ffin, oni bai bod y Bil yn mynd i’r afael â hyn.<sup>416</sup>

378. Cydnabu’r Gweinidog y pryderon a gododd y rhanddeiliaid ynghylch sut y byddai’r Bil yn gymwys i’r rhai sy’n gweithio mewn gofal cymdeithasol ac a oedd yn cael eu rheoleiddio gan reoleiddwyr eraill. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y gweithdrefnau ar addasrwydd i ymarfer yn Rhan 6 o’r Bil yn gymwys i weithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi’u cofrestru gyda GCC yn unig. Dywedodd:

“I just want to be completely clear that the Bill is explicit that, if you are an occupational therapist or registered nurse, and something to do with your professional practice has to be investigated, that will be done by the organisation with which you are registered. So, there will be no duplication; there will be no two processes you have to go through”.<sup>417</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

379. Mae’r Pwyllgor yn croesawu eglurhad y Gweinidog. Er hynny, mae lefel y pryder a’r dryswch sydd wedi codi ymysg y rhanddeiliaid yn dangos nad yw’r Bil yn ddigon eglur yn hyn o beth, nac o ran gweithwyr gofal cymdeithasol anghofrestredig, nac o ran gweithwyr gofal cymdeithasol sy’n cael eu rheoleiddio gan reoleiddwyr eraill.

380. Mae’r Pwyllgor yn cytuno â’r rhanddeiliaid hynny sy’n awgrymu bod defnyddio term cyffredinol fel “gweithiwr gofal cymdeithasol” i olygu dim ond yr aelodau hynny o’r gweithlu gofal cymdeithasol sydd wedi’u cofrestru gyda GCC yn mentro camarwain – yn anfwriadol – y rhai hynny yn y sector gofal cymdeithasol, neu’r cyhoedd, a allai gael eu harwain i gredu bod y cyfan o’r gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei gofrestru a’i reoleiddio. Mae’r Pwyllgor yn credu y dylai’r Gweinidog

---

<sup>415</sup> [RISC18 Y Coleg Nyrsio Brenhinol](#)

<sup>416</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 270-1\]](#), 13 Mai 2015

<sup>417</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 38\]](#), 25 Mawrth 2015

adolygu'r geiriad sy'n cael ei ddefnyddio drwy'r Bil i gyd er mwyn ei wneud yn gliriach.

**Argymhelliad 41: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod y derminoleg a ddefnyddir yn y Bil yn rhoi eglurder i'r sector gofal cymdeithasol a'r cyhoedd ynghylch pa ddarpariaethau sy'n ymwneud â gweithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, pa rai sy'n ymwneud â gweithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru gyda rheoleiddwyr eraill, a pha rai sy'n ymwneud â gweithwyr gofal cymdeithasol anghofrestredig.**

### **Safonau ymddygiad ac addysg**

381. Mae Rhan 5 o'r Bil yn canolbwyntio ar safonau ymddygiad, datblygiad proffesiynol ac addysg i weithwyr gofal cymdeithasol. Mae'n darparu bod rhaid i GCC lunio, cyhoeddi ac adolygu codau ymarfer a safonau ymddygiad a safonau ymarfer a ddisgwylir oddi wrth weithwyr gofal cymdeithasol a'u cyflogwyr. Caiff GCC wneud rheolau hefyd i'w gwneud yn ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig ymgymryd â hyfforddiant a datblygu proffesiynol parhaus. Mae adrannau 113 a 114 yn galluogi GCC i gymeradwyo ac arolygu cyrsiau perthnasol, a chyhoeddi rhestrau o gyrsiau y mae wedi'u cymeradwyo. Mae adran 115 yn darparu y caiff GCC ddarparu, neu sicrhau y darperir, cyrsiau newydd os oes eu hangen, ac y caiff drefnu bod grantiau ar gael er mwyn sicrhau a darparu hyfforddiant.

### ***Proffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol***

382. Er mwyn adeiladau gweithlu gofal cymdeithasol proffesiynol o safon, a hwnnw'n darparu safon gofal well na'r safon isaf sy'n dderbyniol, dywedodd y rhanddeiliaid fod angen i weithwyr gofal cymdeithasol gael eu gwerthfawrogi a'u talu'n iawn, a'u trin fel gweithwyr proffesiynol. Tynnwyd sylw hefyd at gyfle priodol i gael hyfforddiant, cefnogaeth a strwythur gyrfa, ac at yr angen i fynd i'r fael â lefelau uchel trosiant staff.<sup>418</sup> Nododd y Grŵp Cyfeirio Anabledd fod y staff, mewn achosion lle gwelwyd camdriniaeth, yn aml wedi bod yn staff heb hyfforddiant.<sup>419</sup> Nododd Cymdeithas MS Cymru fod arolwg

---

<sup>418</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 248\]](#), 23 Ebrill 2015, [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 214-6\]](#), 13 Mai 2015, [RISC27 Un Llais Cymru](#), [RISC33 Cymdeithas MS Cymru](#)

<sup>419</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 63\]](#), 29 Ebrill 2015



ymysg eu haelodau nhw wedi dangos bod 75 y cant yn credu y byddai gwell hyfforddiant ac addysg i weithwyr gofal cymdeithasol yn helpu i amddiffyn oedolion a oedd yn derbyn gofal cymdeithasol.<sup>420</sup>

383. Clywodd y Pwyllgor y dylai creu newid diwylliant fod yn flaenoriaeth i'r GCC newydd.<sup>421</sup> Er hynny, roedd BCC AGGCC yn pryderu y gallai gymryd amser i sefydlu rôl wella GCC o ran safonau'r gweithlu, ac na fyddai'r rôl honno'n gallu gwrth-wneud effaith cyni yn y sector cyhoeddus ar y gweithlu gofal cymdeithasol.<sup>422</sup>

384. Pwysleisiodd CLILC ac ADSS Cymru mor bwysig oedd sicrhau bod gan weithwyr gofal cymdeithasol sy'n gweithio i ddarparwyr yn y trydydd sector a darparwyr annibynnol gyfle iawn i gael grantiau a chymorth gan GCC i'w helpu i wella, i hwyluso datblygu proffesiynol parhaus, ac i sefydlu llwybrau gyrfa priodol.<sup>423</sup>

385. Dywedodd Melanie Minty o Fforwm Gofal Cymru fod y sector gofal cymdeithasol yn wynebu heriau wrth ddenu staff o'r anian gywir, a bod hyn yn cael ei waethygu gan yr amodau gwael a oedd yn deillio o ymagwedd at gomisiynu sydd wedi'i seilio ar gostau.<sup>424</sup>

386. Dywedodd RNIB Cymru fod sgiliau'r gweithlu rheoleiddio a'r arolygwyr yn bwysig hefyd er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd hyder yn y gyfundrefn reoleiddio newydd a oedd yn cael ei sefydlu gan y Bil, gan nodi y byddai hyn yn arbennig o bwysig wrth bontio tuag at y trefniadau newydd.<sup>425</sup>

### ***Gweithio ar y cyd a chydweithredu o ran addysg a hyfforddiant***

387. Clywodd y Pwyllgor gan y rhanddeiliaid fod angen i'r rheoleiddwyr weithio ar y cyd o ran yr elfennau yng nghylch gorchwyl GCC a oedd yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant, er mwyn gwella cyfleoedd addysg a chyfleoedd gyrfa gweithwyr gofal cymdeithasol, gwella safonau drwy fonitro cyrsiau, hwyluso cynlluniau gweithlu integredig, datblygu

---

<sup>420</sup> [RISC33 Cymdeithas MS Cymru](#)

<sup>421</sup> [RISC28 RNIB Cymru](#)

<sup>422</sup> [RISC21 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru National Advisory Board](#)

<sup>423</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

<sup>424</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 133\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>425</sup> [RISC28 RNIB Cymru](#)

cyrsgau ar y cyd, a fframweithiau gyrfa integredig.<sup>426</sup> Disgrifiodd Cymdeithas Alzheimer y Bil fel cyfle wedi'i golli i wireddu hyn.<sup>427</sup>

388. Dywedodd y Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol eu bod yn croesawu pwerau yn y Bil i GCC reoleiddio hyfforddiant i adran ehangach o'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan gredu y byddai hynny'n helpu i wella ansawdd y gofal a oedd yn cael ei ddarparu drwy sicrhau bod safonau hyfforddiant yn cael eu cynnal.<sup>428</sup>

389. Roedd Kate Chamberlain o AGIC yn cytuno bod angen i'r rheoleiddwyr weithio gyda'i gilydd yn hyn o beth, gan ddweud bod angen i gymysgedd sgiliau'r gweithlu gofal cymdeithasol adlewyrchu'r integreiddio wrth i wasanaethau gael eu hintegreiddio'n fwyfwy.<sup>429</sup> Tynnodd y Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi sylw at wasanaethau ataliol fel un maes lle byddai'n arbennig o bwysig i'r gweithlu gofal cymdeithasol ehangach gael ei gymryd i ystyriaeth.<sup>430</sup>

390. Tanlinellodd rhai rhanddeiliaid y byddai'r hyfforddiant i weithwyr gofal cymdeithasol a oedd yn cael eu rheoleiddio gan reoleiddwyr heblaw GCC yn gorfod cael ei gymeradwyo gan y rheoleiddwyr hynny. Nodwyd bod diffyg cyfatebiaeth neu ddiffyg cydgydnabyddiaeth rhwng rheoleiddwyr yn rhwystr a oedd yn atal fframweithiau gyrfa integredig, symudedd yn y sector gofal cymdeithasol, ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol.<sup>431</sup>

391. Nododd y COT fod rhai o'r darpariaethau yn y Bil, er enghraifft adran 83 ynglŷn â'r cymwysterau y mae'n rhaid i weithiwr gofal cymdeithasol fod wedi'u hennill wrth wneud cais am gofrestru gyda GCC, yn ei gwneud yn ofynnol ichi gwblhau cyrsiau penodol sydd wedi'u cymeradwyo gan GCC.<sup>432</sup>

392. Er hynny, fel yr amlinellodd yr RCN, os yw gweithwyr gofal cymdeithasol yn dymuno symud o fewn y sector gofal cymdeithasol, ac yn dymuno gwneud cais am gofrestru gyda GCC, fe allai fod yn ofynnol i unigolion pur brofiadol a chymwys sefyll cymwysterau ar lefel

---

<sup>426</sup> [RISC03 Coleg y Therapyddion Galwedigaethol](#)

<sup>427</sup> [RISC40 Cymdeithas Alzheimer](#)

<sup>428</sup> [RISC07 Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol](#)

<sup>429</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 214\]](#), 21 Mai 2015

<sup>430</sup> [RISC23 Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi](#)

<sup>431</sup> [RISC40 Cymdeithas Alzheimer](#), [RISC47 Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru](#)

<sup>432</sup> [RISC03 Coleg y Therapyddion Galwedigaethol](#)

sylfaenol. Dywedodd yr RCN y byddai hynny'n creu goblygiadau o ran amser ac arian, ac y gallai atal nyrsys rhag mynd ar ôl gyrfaedd mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned.<sup>433</sup>

393. Gan siarad ar ran UNSAIN, dywedodd Ruth Crowder wrth y Pwyllgor fod angen cysylltiadau cryf rhwng gwasanaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r gweithlu ac addysg a GCC er mwyn gwella'r gydnabyddiaeth i gymwysterau a chymwyseddau rhwng y sectorau er mwyn caniatáu hyblygrwydd a symudedd i'r staff yn y sector gofal cymdeithasol ac er mwyn datblygu modelau gwasanaethau mwy hyblyg. Dywedodd ei bod yn bwysig bod GCC, yn yr agwedd hon ar eu gwaith, yn gweithio ar ran y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan, gan gynnwys y rhai a oedd wedi cofrestru gyda rheoleiddwyr eraill.<sup>434</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

394. I helpu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, a symudedd o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol, rhaid cael mwy o weithio ar y cyd rhwng y rheoleiddwyr o ran addysg, hyfforddiant a chymwysterau, er mwyn dileu rhwystrau diangen rhwng y sectorau.

**Argymhelliad 42: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol edrych ar gyfleoedd i'r cyrff rheoleiddio a'r awdurdodau perthnasol mewn gofal cymdeithasol ac iechyd weithio ar y cyd a chydweithredu wrth arfer eu swyddogaethau ynglŷn ag addysg a datblygu'r gweithlu.**

### **Contractau dim oriau**

395. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn credu y byddai'r Bil yn creu effaith ar ddefnydd contractau dim oriau yn y sector gofal cymdeithasol a hynny am ei fod yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal. Dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai'r safonau a fyddai'n cael eu sefydlu drwy reoliadau o dan adran 26, yn ei farn ef, yn cael eu hadlewyrchu yn natur y contractau y byddai darparwyr gofal cymdeithasol yn eu cynnig.

396. Dywedodd David Pritchard, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu'r Gweithlu yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau ac Integreiddio yn Llywodraeth Cymru, wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wrthi'n

---

<sup>433</sup> [RISC18 Y Coleg Nyrsio Brenhinol](#)

<sup>434</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 254\]](#), 29 Ebrill 2015

gwneud ymchwil ar gontractau dim oriau. Addawodd y Gweinidog y byddai'n darparu nodyn i'r Pwyllgor yn nodi canlyniadau'r ymchwil a sut y byddai'r Bil yn effeithio ar ddefnyddio contractau dim oriau yn y sector gofal cymdeithasol.<sup>435</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

397. Mae'r Pwyllgor yn credu y gall telerau ac amodau gwael i staff gofal cymdeithasol, gan gynnwys contractau dim oriau, arwain at lefelau trosiant uchel yn y gweithlu gofal cymdeithasol a chael effaith andwyol ar safon y ddarpariaeth gofal cymdeithasol. Gan hynny mae'n croesawu ymrwymiad y Gweinidog i roi rhagor o wybodaeth am ymchwil Llywodraeth Cymru ynghylch contractau dim oriau, gan gynnwys sut mae'n bwriadu i'r Bil effeithio ar ddefnyddio contractau dim oriau yn y sector gofal cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl y bydd yr wybodaeth hon ar gael cyn diwedd toriad haf 2015.

### **Gorchmynion gwahardd**

398. Mae Rhan 7 o'r Bil yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, alluogi paneli addasrwydd i ymarfer i wneud gorchmynion gwahardd er mwyn atal pobl benodol rhag cyflawni gweithgaredd rheoleiddiedig (gwaith gofal cymdeithasol). Rhaid i unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 163 i alluogi gorchmynion gwahardd i gael eu gwneud ragnodi o dan ba amgylchiadau y caniateir i'r gorchmynion hyn gael eu gwneud a darparu ar gyfer gwneud gorchmynion gwahardd interim. Mae Rhan 7 hefyd yn darparu ar gyfer adolygu gorchmynion gwahardd interim, ac ar gyfer hawl i apelio at y tribiwnlys yn erbyn gorchmyn gwahardd neu benderfyniad perthnasol. Mae Rhan 7 ymhellach yn darparu bod rhaid i GCC sefydlu a chynnal rhestr o bersonau sy'n dod o dan orchmynion gwahardd. Mae adran 171 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i GCC benderfynu'r safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth berson sy'n cyflawni gweithgaredd rheoleiddiedig.

399. Barn gymysg a gafwyd ar y darpariaethau yn y Bil ynglŷn â gorchmynion gwahardd. Roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu na fyddai defnyddio gorchmynion gwahardd yn cynnig digon o amddiffyniad i

---

<sup>435</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 120-4\]](#), 3 Mehefin 2015

ddefnyddwyr gwasanaethau a oedd yn agored i niwed,<sup>436</sup> tra oedd eraill yn credu y bydden nhw'n ddull defnyddiol i sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael eu diogelu.<sup>437</sup>

400. Dywedodd y Cyngor Gofal mai ychydig yn unig o fanteision a geid o ddefnyddio gorchmynion gwahardd, neu gofrestrau negyddol, ond y byddai'n arwain at gostau arwyddocaol na fyddai ffioedd yn talu amdany'n nhw. Dywedodd y Cyngor yn eu tystiolaeth ysgrifenedig na fyddai defnyddio gorchmynion gwahardd yn ddewis arall ymarferol yn lle cofrestru gorfodol, gan y byddai'n creu ffocws ar arferion negyddol heb gefnogi darpariaeth o safon neu gydnabod ymarferwyr gofal cymdeithasol o safon.<sup>438</sup> Dywedodd yr RCN nad oedd yn glir sut y gallai gorchmynion gwahardd fod yn gymwys i aelodau o'r gweithlu gofal cymdeithasol a oedd yn cael eu rheoleiddio gan reoleiddwyr heblaw GCC.<sup>439</sup>

401. Ar y llaw arall, roedd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys yr UKHCA ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, o blaid cyflwyno gorchmynion gwahardd fel dull i sicrhau na allai ymarferwyr anaddas weithio yn y sector gofal cymdeithasol.<sup>440</sup> Rhoddodd y Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol groeso tebyg i'r darpariaethau yn Rhan 7, gan ddweud bod hon yn ffordd gymesur:

“of providing public protection and assurance about the suitability of those working in social care [and would] provide an important ‘safety net’ and a system of accountability similar to that of professional statutory regulation but in a more proportionate manner”.<sup>441</sup>

402. Rhoddodd CLILC ac ADSS Cymru groeso i'r ddyletswydd i GCC gadw rhestr o bobl a oedd wedi'u gwahardd rhag ymarfer mewn gofal cymdeithasol, ond roedden nhw, a rhanddeiliaid eraill, yn pryderu bod yna risg o ddrysu neu ddyblygu â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cafodd bwriad y Gweinidog i ymgynghori'n llawn â'r sector cyn

---

<sup>436</sup> [RISC30 Age Cymru](#)

<sup>437</sup> [RISC29 Barnardo's Cymru](#)

<sup>438</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

<sup>439</sup> [RISC18 Y Coleg Nyrsio Brenhinol](#)

<sup>440</sup> [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#), [RISC38 Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

<sup>441</sup> [RISC07 Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol](#)

penderfynu a ddylai gorchmynion gwahardd gael eu cyflwyno neu beidio ei groesawu.<sup>442</sup>

403. Cydnabu'r Gweinidog mai cymysg iawn oedd y farn yn y sector gofal cymdeithasol ynghylch defnyddio cofrestr negyddol, gan gynnwys pryderon cryf gan y Cyngor Gofal. Er hynny, dywedodd ei fod, wrth gynnwys darpariaethau ynghylch gorchmynion gwahardd yn y Bil, yn gweithredu ar gyngor Comisiwn y Gyfraith i ddiogelu'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol er mwyn addasu at anghenion posibl y dyfodol. Nododd fod y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 163 yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol.<sup>443</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

404. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod mor bwysig yw sicrhau bod y Bil yn ddigon hyblyg i ymateb i newidiadau yn y sector gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Gan hynny, mae'n derbyn y dylai gorchmynion gwahardd gael eu cynnwys yn y Bil.

405. Er hynny, mae tystiolaeth gymysg y rhanddeiliaid ynghylch defnyddio gorchmynion gwahardd, ynghyd â'r dystiolaeth gref y dylai cofrestru gorfodol llawn gael ei ymestyn i bob gweithiwr gofal cymdeithasol (heblaw'r rhai sydd wedi'u cofrestru gyda rheoleiddwyr heblaw GCC), yn ei gwneud yn glir bod rhaid ymgynghori'n llawn ac yn effeithiol â'r sector yn gyntaf os yw gorchmynion gwahardd am gael eu cyflwyno. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i'r perwyl hwnnw, ac i wneud dadansoddiad o'r costau a'r buddion. Er bod y rheoliadau'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol, mae'r Pwyllgor yn nodi nad oes gofyniad ar wyneb y Bil ynglŷn ag ymgynghori nac asesiad effaith rheoleiddiol.

**Argymhelliad 43: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r sector gofal cymdeithasol a llunio asesiad effaith rheoleiddiol cyn gwneud rheoliadau o dan adran 163 i gyflwyno gorchmynion gwahardd.**

---

<sup>442</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol](#), [RISC20 NSPCC Cymru](#)

<sup>443</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 55, 57 a 59\]](#), 25 Mawrth 2015

## **14. Cydweithredu a gweithio ar y cyd**

---

406. Mae Rhan 9 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cydweithredu a gweithio ar y cyd rhwng cyrff rheoleiddio (sef Gweinidogion Cymru (AGGCC), a GCC) ac awdurdodau perthnasol (gan gynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol).

407. Mae adran 176 yn darparu bod rhaid i gyrff rheoleiddio gydweithredu â'i gilydd, a cheisio cydweithredu ag awdurdodau perthnasol, os bydd corff rheoleiddio'n credu y bydd gwneud hynny'n creu effaith gadarnhaol ar y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau neu y bydd yn ei helpu i wireddu ei amcanion cyffredinol. Ar ben hynny, mae'n amlinellu amgylchiadau lle caiff corff rheoleiddio wrthod cydymffurfio â chais iddo gydweithredu ag awdurdod perthnasol.

408. Mae Rhan 9 hefyd yn darparu y caiff cyrff rheoleiddio drefnu arfer eu swyddogaethau ar y cyd, neu ddirprwyo swyddogaethau rheoleiddio, ac eithrio swyddogaethau GCC ynglŷn â gwneud rheolau ac achosion addasrwydd i ymarfer. Mae adran 179 yn amlinellu trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng cyrff rheoleiddio ac awdurdodau perthnasol. Mae adran 180 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i gyrff rheoleiddio ddatgelu gwybodaeth os ydyn nhw o'r farn bod ei datgelu'n angenrheidiol neu'n hwylus er mwyn amddiffyn llesiant unigolyn yng Nghymru (oni bai bod y gyfraith yn ei wahardd rhag ei datgelu).

### **Cydweithredu a gweithio ar y cyd â rheoleiddwyr eraill**

409. Roedd llawer o'r rhanddeiliaid yn credu mai'r ffordd orau i wireddu'r amcanion ynghylch gwella'r broses o rannu gwybodaeth a chydweithredu fyddai cynnwys disgwyliad mwy pendant bod rhaid gweithio gyda'r holl gyrff rheoleiddio perthnasol eraill yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Unedig, a fyddai hefyd yn hwyluso symudedd i weithwyr gofal cymdeithasol o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys cyrff sy'n gweithio ledled y Deyrnas Unedig ac sy'n rheoleiddio aelodau eraill o'r gweithlu gofal cymdeithasol, cyrff sydd eisoes yn bodoli ar gyfer y gweithlu a gwella, ac arolygiaethau iechyd.

410. Awgrymodd y rhanddeiliaid y dylai gwelliannau gael eu cyflwyno i gynnwys rheoleiddwyr eraill yn y Bil, megis y Cyngor Gweithwyr Iechyd

a Gofal Proffesiynol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, er mwyn hybu a gwella cydweithredu ac ar yr un pryd rhoi eglurder ynghylch cyfrifoldebau, a chadw hyblygrwydd i gyrff rheoleiddio gwahanol arddel ymagweddau gwahanol yn ôl y gofyn ar gyfer y gwasanaethau a'r gweithluoedd yr oedden nhw'n gyfrifol amdany nhw.<sup>444</sup>

411. Clywodd y Pwyllgor gan y Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol eu bod nhw'n gweld gwerth mewn gweithio ar y cyd a rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr ledled y Deyrnas Unedig er mwyn cynyddu sicrwydd ynghylch ansawdd gofal ac addasrwydd ymarferwyr gofal cymdeithasol i ymarfer, ac y bydden nhw o blaid cynnwys cyfeiriadau yn y Bil at bwysigrwydd cydweithredu rhwng AGGCC, GCC, a chyrrff rheoleiddio eraill.<sup>445</sup>

412. Roedd y Cyngor Gofal yn croesawu'r darpariaethau yn Rhan 9, gan ddweud y bydden nhw'n gwella ymhellach ar eu cydweithredu nhw ag AGGCC.<sup>446</sup> Dywedodd y Cyngor Gofal wrth y Pwyllgor fod angen cytundeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig cyn y gallai dyletswyddau gael eu gosod ar rai rheoleiddwyr eraill. Er hynny, nododd y Cyngor Gofal fod y darpariaethau wedi'u gwneud yn y Bil i'w alluogi i weithio'n agos â chyrrff rheoleiddio, cyn belled ag y gellid o fewn cymhwysedd y Cynulliad.<sup>447</sup>

413. Cafodd y ddyletswydd i gyrff rheoleiddio ac awdurdodau rannu gwybodaeth groeso penodol gan CLILC ac ADSS Cymru, a'i disgrifiodd fel dyletswydd hynod o fuddiol.<sup>448</sup> Serch hynny, er ei bod hithau'n croesawu'r darpariaethau, nododd y Comisiynydd Pobl Hŷn fod angen digon o gyfrinachedd i beidio ag atal darparwyr gofal cymdeithasol rhag eu hatgyfeirio eu hunain.<sup>449</sup>

414. Doedd rhai o'r rhanddeiliaid ddim yn teimlo bod y darpariaethau yn y Bil ynghylch cydweithredu a gweithio ar y cyd yn mynd yn ddigon pell, gan awgrymu y dylai'r Bil ddarparu hefyd ar gyfer gwaith integredig rhwng rheoleiddwyr o ran gwella a datblygu

---

<sup>444</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 220\]](#), 29 Ebrill 2015, [RISC03 Coleg y Therapyddion Galwedigaethol](#), [RISC18 Y Coleg Nyrsio Brenhinol](#), [RISC47 Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru](#)

<sup>445</sup> [RISC07 Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol](#)

<sup>446</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

<sup>447</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 300\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>448</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

<sup>449</sup> [RISC45 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru](#)



gwasanaethau,<sup>450</sup> neu gynllunio'r gweithlu, cydnabod cymwysterau a sefydlu fframweithiau gyrfa ar draws y sector gofal cymdeithasol.<sup>451</sup>

415. Nododd AGGCC eu bod eisoes yn gweithio mewn cydweithrediad ac yn rhannu gwybodaeth gyda'r Cyngor Gofal a chyrff rheoleiddio eraill, yn ogystal ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Rhoddodd AGGCC groeso i'r darpariaethau yn Rhan 9, gan ddweud eu bod yn hybu cyd-drefniadau i rannu gwybodaeth a chymryd camau ar y cyd i wella llesiant pobl, ond dywedon nhw y byddai angen gwaith i weld sut y byddai dirprwyo swyddogaethau rhwng AGGCC a GCC yn gweithio'n ymarferol.<sup>452</sup>

416. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn hyderus bod y Bil yn darparu ar gyfer gwell proses rhannu gwybodaeth a gwell gweithio ar y cyd rhwng rheoleiddwyr a chyrff eraill. Er na allai deddfwriaeth ar ei phen ei hun sicrhau cydlafurio, dywedodd y byddai'r darpariaethau yn Rhan 9 o'r Bil, yn benodol y rhai yn adran 180 am rannu gwybodaeth, yn bwerus ac yn golygu:

“there can be no excuses for these organisations failing to work in partnership and failing to share information, where this is appropriate”.<sup>453</sup>

417. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod adran 175, fel yr oedd wedi'i chyflwyno, ac sy'n enwi awdurdodau perthnasol at ddibenion cydweithredu a gweithio ar y cyd, yn cynnwys cyrff Cymru-yn-unig. Mewn llythyr at y Pwyllgor dywedodd ei fod yn bwriadu cyflwyno gwelliannau, yn amodol ar drafodaethau a oedd ar eu hanner gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, i gynnwys cyrff ledled y Deyrnas Unedig sy'n rhan annatod o reoleiddio gofal cymdeithasol yng Nghymru megis y Comisiwn Ansawdd Gofal a'r Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol.<sup>454</sup>

---

<sup>450</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 225\]](#), 29 Ebrill 2015

<sup>451</sup> [RISC40 Cymdeithas Alzheimer](#)

<sup>452</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>453</sup> [RISC AI02 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Mai 2015](#)

<sup>454</sup> [RISC AI02 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Mai 2015](#)

## ***Barn y Pwyllgor***

418. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cadarnhad y Gweinidog ei fod wrthi'n trafod gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch cynnwys cyrff rheoleiddio'r Deyrnas Unedig gyfan yn y Bil fel awdurdodau rheoleiddio at ddibenion adran 175, ond mae'n credu y dylai'r cytundebau perthnasol fod wedi'u sicrhau yn gynt er mwyn i'r rheoleiddwyr eraill gael eu cynnwys ar wyneb y Bil o'r adeg y cafodd ei gyflwyno.

**Argymhelliad 44: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r rhestr lawn o awdurdodau rheoleiddio y mae'n bwriadu eu cynnwys yn adran 175, a darparu diweddariad am ei drafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig cyn diwedd toriad haf 2015.**

**Argymhelliad 45: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai pob cytundeb a chydysniad perthnasol gael ei sicrhau, os oes modd, oddi wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig cyn i Filiau Llywodraeth Cymru gael eu cyflwyno.**

### **Integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol**

419. Mynegodd llawer o'r rhanddeiliaid siom nad oedd y Bil yn cydnabod yn ddigonol fod gwasanaethau'n cael eu comisiynu ar y cyd yn fwyfwy gan wasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol, nac yn hybu integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn unol â chyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru.<sup>455</sup> Roedd yna bryder nad oedd digon o eglurder ynghylch sut y byddai mwy o gydlynw rhwng AGIC ac AGGCC yn cael ei wireddu.<sup>456</sup>

420. Dywedodd rhai tystion wrth y Pwyllgor fod yna risg y byddai cyfundrefn arolygu ar wahân yn arwain at ddyblygu a dryswch i'r cyhoedd, yn hytrach na thryloywder. Dywedodd Sue Evans o ADSS Cymru wrth y Pwyllgor y byddai fel pe bai'n fuddiol:

---

<sup>455</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 90\]](#), 29 Ebrill 2015, [Cofnod y Trafodion \[para 279\]](#), 21 Mai 2015

<sup>456</sup> [RISC26 Sense Cymru](#)

“if some of the regulation and inspection were aligned with that public service footprint; so the whole range of public services delivering services to people in their community”.<sup>457</sup>

421. Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn y gellid mynd i'r afael â hyn drwy gynnwys dyletswydd ar y cyd ac yn gyfartal ar gyrff iechyd a chyrrff gofal cymdeithasol o ran arolygu, ar sail dealltwriaeth gyffredin o 'dda', ac o effaith iechyd a gofal cymdeithasol ar lesiant a chanlyniadau unigolion.<sup>458</sup>

422. Roedd rhanddeiliaid eraill yn pryderu ei bod yn bosibl na fyddai'r trefniadau presennol yn y Bil yn ddigon i ganiatáu arolygiadau ar y cyd, ac awgrymodd rhan fod angen ymagwedd fwy effeithlon, gan gynnwys arolygiadau ar y cyd a safonau integredig, er mwyn lleihau'r dyblygu yng ngwaith monitro AGGCC, AGIC a'r awdurdodau lleol.<sup>459</sup>

423. Dywedodd AGIC wrth y Pwyllgor eu bod eisoes yn gweithio'n agos ag AGGCC. Cydnabu Kate Chamberlain nad oedd dim yn y Bil a oedd yn benodol yn hwyluso gwaith cydweithredol rhwng y rheoleiddwyr gwasanaethau, ond dywedodd nad oedd yna rwystrau trefniadol ar hyn o bryd. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod safonau ar y cyd a disgwyliadau cyffredin yn cael eu datblygu ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, ond bod yna le i wella.<sup>460</sup>

424. Roedd Phil Evans o ADSS Cymru'n cytuno bod enghreifftiau i'w cael eisoes o arferion da o ran ymagweddau di-fwlch at arolygiadau, ond dim ond drwy drefniadau priodol yn y sefydliadau y gallai'r rhan gael eu cefnogi.<sup>461</sup>

425. Rhoddodd Imelda Richardson o AGGCC groeso i'r hyblygrwydd ychwanegol y dywedodd y byddai'r Bil yn ei gynnig o ran integreiddio gwaith rheoleiddio mewn iechyd a gofal cymdeithasol, ond nododd y byddai'r Papur Gwyrdd yn rhoi mwy o sylw i'r mater hwn.<sup>462</sup>

426. Dywedodd y Gweinidog fod y Bil yn darparu dyletswyddau newydd i AGGCC ac AGIC gydlafurio wrth arfer eu swyddogaethau, ond

---

<sup>457</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 26\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>458</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 69\]](#), 13 Mai 2015

<sup>459</sup> [RISC03 Coleg y Therapyddion Galwedigaethol](#), [RISC28 RNIB Cymru](#), [RISC38 Iechyd Cyhoeddus Cymru](#), [RISC40 Cymdeithas Alzheimer](#)

<sup>460</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 220-1\]](#), 21 Mai 2015

<sup>461</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 29\]](#), 23 Ebrill 2015

<sup>462</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 145\]](#), 23 Ebrill 2015

atgoffodd y Pwyllgor mai rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol oedd ffocws y Bil.<sup>463</sup> Nododd fod yna safbwyntiau gwahanol ynghylch a ddylid cael un rheoleidiwr ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Esboniodd fod y swyddogaethau wedi'u cyfuno yn Lloegr yn y Comisiwn Ansawdd Gofal, ond bod y swyddogaethau'n dechrau cael eu dadagregu yn y sefydliad mewn dwy ffrwd reoleiddio.<sup>464</sup>

427. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r Papur Gwyrdd yn gofyn am sylwadau ynghylch a oedd angen uno'r ddwy arolygiaeth er mwyn ategu'r polisi o integreiddio agosach rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Er hynny, dywedodd wrth y Pwyllgor fod y Bil fel yr oedd wedi'i ddrafftio yn ddigon hyblyg i ymdopi â datblygiadau yn y dyfodol wrth integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol:

“We don't have to put that on the face of the Bill because we already have the powers to do that now. I have the powers now, as a Minister. If I want to merge them, I can do it now with the powers that we already have”.<sup>465</sup>

428. Gan fod AGGCC ac AGIC yn gweithredu o dan swyddogaethau Gweinidogion Cymru, cadarnhaodd Mari Williams, un o gyfreithwyr Llywodraeth Cymru, y gallai'r Gweinidog eu cyfarwyddo i weithio gyda'i gilydd neu ar wahân heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol.<sup>466</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

429. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth y mae wedi'i chael bod yr integreiddio cynyddol ar iechyd a gofal cymdeithasol yn anochel yn ei gwneud yn ofynnol y bydd perthnasoedd gweithio a chyfrifoldebau agosach rhwng y ddau gorff rheoleiddio. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bwriad y Gweinidog i gyflwyno Papur Gwyrdd, a fydd yn cynnig cyfleoedd i bwysu a mesur materion ynglŷn ag integreiddio'r rheoleiddio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gallai'r broses hon gymryd rhai blynyddoedd, ac mae'n credu y gallai'r Bil hwn gynnig cyfle i sefydlu cyfundrefn reoleiddio ar gyfer gofal cymdeithasol sy'n gyson â'r symudiad tuag at fwy o integreiddio.

---

<sup>463</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 62\]](#), 25 Mawrth 2015, [Cofnod y Trafodion \[para 73\]](#), 3 Mehefin 2015

<sup>464</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 74\]](#), 3 Mehefin 2015

<sup>465</sup> [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 63-5\]](#), 25 Mawrth 2015

<sup>466</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 68\]](#), 25 Mawrth 2015

**Argymhelliad 46: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol amlinellu sut y bydd darpariaethau'r Bil yn rhoi sylfaen ar gyfer gwaith ar y cyd rhwng rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gan sicrhau bod gwaith rheoleiddio ac arolygu mewn gofal cymdeithasol yn ddigon hyblyg i ymateb i ganlyniadau'r Papur Gwyrdd ar Ansawdd y GIG.**

## 15. Y goblygiadau ariannol

---

430. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ("RIA") wedi'i strwythuro o amgylch pum prif elfen y Bil: cofrestru, arolygu, gorfodi, marchnad gofal cymdeithasol a'r gweithlu. Mae'n cynnig ystod o opsiynau o dan bob adran, ynghyd â chostau a buddion pob opsiwn ac asesiad ynghylch i ba raddau y maen nhw'n cyflawni nodau'r Bil. Mae'r RIA hefyd yn dadansoddi'r costau yn ôl y grwpiau canlynol y mae pob opsiwn yn effeithio arny'n nhw: Llywodraeth Cymru, AGGCC, darparwyr gwasanaethau, rheoleiddiwr y gweithlu (sef y Cyngor Gofal ar hyn o bryd, a ddaw'n GCC), gweithwyr gofal cymdeithasol, y system cyfiawnder troseddol a defnyddwyr gwasanaethau.

431. Mae'r RIA yn cydnabod mai amcangyfrifon gorau yw'r costau, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, ond mae'n cyfrifo y byddai cyfanswm y costau ychwanegol sy'n deillio o'r Bil oddeutu £9.1 miliwn dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys costau pontio o £3.3 miliwn. Er hynny, mewn llythyr at y Pwyllgor Cyllid, nododd y Gweinidog dri maes yn yr RIA lle'r roedd yr amcangyfrifon o'r costau wedi newid ers cyflwyno'r Bil, gyda chynnydd yng nghyfanswm cost y Bil dros y cyfnod o bum mlynedd i £9.5 miliwn:

- dod â chofrestru deul rheolwyr gofal cymdeithasol i ben – amcangyfrif newydd o'r costau pan fydd yn ofynnol iddyn nhw gofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu yn unig;
- asesiad o gynaliadwyedd ariannol y darparwyr allweddol – cywiriad ar wallau yn yr asesiad o'r arbedion a ragwelid rhwng 2016-17 a 2020-21;
- cyllid grant i GCC – cywiriad i'r cyflwyniad yn yr RIA.<sup>467</sup>

432. Mae'r RIA yn dweud mai o dan yr opsiynau a ffefrir y disgwylir i ddefnyddwyr gwasanaethau fanteisio fwyaf, yn ôl £738,400 rhwng 2016-17 a 2020-21. Er hynny, yr unig fuddion i ddefnyddwyr gwasanaethau sydd wedi'u mesur yw pan fydd darparwr cartref gofal yn ymadael â'r farchnad yn sydyn. Mae'r RIA, fel y rhai ar gyfer y mwyafrif o filiau, yn dweud na fu modd mesur yr holl fuddion a enwyd.

---

<sup>467</sup> [\*Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol to the Y Pwyllgor Cyllid, 5 Mai 2015\*](#)

Gan hynny, mae disgrifiadau ansoddol wedi'u darparu ynglŷn â llawer o'r buddion. Mae'r RIA yn cydnabod:

“Mae'r diffyg manteision mesuredig yn golygu ei bod yn anodd cymharu'r costau a'r manteision mewn modd gwrthrychol. Mewn sefyllfa o'r fath, rhaid dyfarnu a yw'r manteision yn cyfiawnhau'r costau ychwanegol”.

433. Dywedodd y Gweinidog mewn llythyr at y Pwyllgor Cyllid ar 5 Mai, fod yr RIA wedi'i seilio ar waith a wnaed gyda'r rhanddeiliaid i sicrhau bod yr amcangyfrifon, a'r rhagdybiaethau y tu ôl iddyn nhw, wedi'u seilio ar dystiolaeth. Ymrwymodd i adolygu'r RIA yn barhaus, ac y byddai unrhyw newidiadau a welid yn cael eu cynnwys mewn Memorandwm Esboniadol diwygiedig i'w gyflwyno ar ôl i drafodion Cyfnod 2 ddod i ben, os ceir cytundeb ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1.

### **Pryderon ariannol**

434. Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at y cynnydd a oedd yn cael ei ragweld yng nghost gofal, a'r tanariannu hanesyddol yn y sector gofal cymdeithasol fel rhwystrau a allai atal y Bil rhag cael ei roi ar waith.<sup>468</sup> Cyfeiriodd eraill at bwysau cynyddol ar yr adnoddau presennol,<sup>469</sup> nid lleiaf oherwydd y gofynion ychwanegol sydd wedi'u creu drwy roi Deddf 2014 ar waith,<sup>470</sup> a'r newid diwylliant sy'n ofynnol yn sgil y Bil.<sup>471</sup>

435. Cafwyd pryderon hefyd a oedd y rhagdybiaethau yn yr RIA o ran staff, oriau a'r gweithlu yn ddigon cadarn,<sup>472</sup> a mynegodd Age Cymru bryder bod yr RIA yn rhy optimistig wrth haeru mai dim ond yn y cyfnod pontio y byddai costau'n cael eu hysgwyddo.<sup>473</sup>

### **Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

436. Yn ei ymateb ef i'r ymgynghoriad, nododd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei farn ar eglurder yr wybodaeth ariannol a roddwyd yn y

<sup>468</sup> [RISC28 RNIB Cymru](#), [RISC40 Cymdeithas Alzheimer](#)

<sup>469</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol](#), [RISC14 UNSAIN a Choleg y Therapyddion Galwedigaethol](#), [RISC38 Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

<sup>470</sup> [RISC21 Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

<sup>471</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

<sup>472</sup> [RISC14 UNSAIN a Choleg y Therapyddion Galwedigaethol](#), [RISC30 Age Cymru](#)

<sup>473</sup> [RISC30 Age Cymru](#)

Memorandwm Esboniadol, gan ofyn pam y cafodd y costau eu cyfrifo dros gyfnod o bum mlynedd. Dywedodd ei fod yn pryderu nad oedd y tabl cryno a oedd yn nodi costau a buddion y Bil (tabl 42 yn y Memorandwm Esboniadol) yn rhoi golwg glir ar y costau, ac roedd yn amau a oedd manylion yr arbedion yn gywir. Dywedodd:

“Nid oes dim byd o’i le ar ddarparu prisiadau â gwerth ariannol o fuddiannau, ond yn fy marn i gallai fod yn gamarweiniol i fuddiannau o’r fath gael eu cymysgu yng nghanol tabl o ffigurau arian parod”.<sup>474</sup>

437. Yn ei dystiolaeth i’r Pwyllgor Cyllid, dywedodd y Gweinidog:

“There’s certainly absolutely no intention to mislead, but we will look at it and we will look at his comments, and if there’s a better way of doing it in future, then we’ll be, obviously, happy to try to do that”.<sup>475</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

438. Mae’r Pwyllgor yn nodi’r dystiolaeth a roddodd y Gweinidog i’r Pwyllgor Cyllid, ond er hynny mae’n ofidus ynglŷn â’r materion a gododd Archwilydd Cyffredinol Cymru. Gall deddfwriaeth ddod â goblygiadau ariannol arwyddocaol a phellgyrhaeddol. Mae’n bwysig bod Llywodraeth Cymru’n darparu gwybodaeth glir a manwl-gywir am gostau a buddion er mwyn helpu’r Cynulliad a’i bwyllgorau i graffu ar filiau ac ystyried y penderfyniadau ariannol perthynol.

### **Y goblygiadau ariannol i’r rheoleiddiwr gwasanaethau**

439. Ceir amrywio yn lefel y manylion sydd wedi’u darparu ynghylch costau trosiannol AGGCC yn yr RIA. Mae’r amcangyfrifon ar gyfer costau trosiannol cyflwyno model rheoleiddio sydd wedi’i seilio ar wasanaethau (£1,471,000) a chost hyfforddi a datblygu ar gyfer gweithlu AGGCC (£455,200) yn cynnwys manylion y rhagdybiaethau sydd y tu ôl i’r rhain. Ar y llaw arall, does dim manylion y tu ôl i’r amcangyfrif o £200,000 o gostau trosiannol ar gyfer TGCh, datblygu canllawiau a dulliau, a lledaenu gwybodaeth i’r cyhoedd, arolygwyr a darparwyr gwasanaethau.

---

<sup>474</sup> [RISC48 Archwilydd Cyffredinol Cymru](#)

<sup>475</sup> Y Pwyllgor Cyllid, [Cofnod y Trafodion \[para 27\]](#), 13 Mai 2015



440. Tynnodd AGGCC sylw at “costau sylweddol ac anochel yn perthyn i gyfnod o drawsnewidiad”, a phwysigrwydd trefniadau pontio cadarn ar gyfer ailgofrestru darparwyr gwasanaethau. Er hynny, nododd yr UKHCA a Fforwm Gofal Cymru anawsterau amcangyfrif ag unrhyw fath o fanwl-gywirdeb pa gostau trosiannol a fyddai’n gysylltiedig â rhoi’r Bil ar waith heb wybod manylion y gofynion ynglŷn ag adroddiadau a fyddai’n gymwys i’r darparwyr.<sup>476</sup>

441. Yn eu hymateb i’r ymgynghoriad, manylodd AGGCC ar yr arbedion effeithlonrwydd o £2.1 miliwn yr oedden nhw wedi’i sicrhau dros y tair blynedd diwethaf. Nododd AGGCC y byddai’r potensial ar gyfer rhagor o arbedion effeithlonrwydd yn gyfyngedig pe bai angen iddyn nhw, o ganlyniad i’r Bil, ddefnyddio dwy system reoleiddio wahanol (y naill ar gyfer gofal plant a’r llall ar gyfer gofal a chymorth).<sup>477</sup>

442. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod gan AGGCC ddyraniad cyllideb ar hyn o bryd o £14.4 miliwn ar gyfer rheoleiddio ac arolygu sefydliadau ac asiantaethau gofal cymdeithasol, y mae £8,064,000 (56 y cant) ohono i’w briodoli i swyddogaethau cofrestru, arolygu, gorfodi a gweinyddu o ran y gwasanaethau sydd o fewn rhychwant y Bil.

443. Mae’r RIA yn dweud mai AGGCC a fyddai’n ysgwyddo’r rhan fwyaf o’r costau ychwanegol a fydd yn codi o dan y Bil – tua £9.2 miliwn rhwng 2016-17 a 2020-21, y mae £2.1 miliwn ohono’n gostau trosiannol. Mewn llythyr at y Pwyllgor, nododd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi darparu £3 miliwn yn ychwanegol i’r sector gofal cymdeithasol yn 2015-16 i ategu’r agenda newid, gan gynnwys rhoi Deddf 2014 ar waith, a chostau trosiannol y Bil. O ran y costau parhaus, dywedodd llythyr y Gweinidog y byddai’r rhan fwyaf o’r amcangyfrif o £1.7 miliwn o gostau ychwanegol blynyddol i AGGCC, sef £1.4 miliwn, yn ymwneud â rhoi fframwaith graddau ansawdd ar waith. Nododd fod gwaith pellach ar ddatblygu’r system yn awgrymu ei bod yn debyg y byddai costau ychwanegol gwirioneddol y system graddau ansawdd yn llai na hyn.

444. Er y byddai’r Bil yn rhoi pŵer iddo i gyflwyno fframwaith graddau ansawdd, ailadroddodd y Gweinidog hefyd ei fod yn bwriadu llunio

---

<sup>476</sup> [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#), [RISC11 Fforwm Gofal Cymru](#)

<sup>477</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

asesiad effaith rheoleiddiol llawn cyn i hwnnw gael ei gyflwyno. Dywedodd y byddai hynny, drwy'r weithdrefn gadarnhaol a fyddai'n cael ei defnyddio ar gyfer y rheoliadau, yn galluogi'r Cynulliad i'w fodloni ei hun y byddai gan y system ddigon o adnoddau ac y byddai'n cynnig gwerth am arian.

445. Mewn llythyr at y Pwyllgor, nododd y Gweinidog ei fod yn gweithio'n agos â'r Gweinidogion eraill o ran AGGCC, sydd hefyd yn gyfrifol am reoleiddio'r blynyddoedd cynnar a gofal plant.<sup>478</sup> Dywedodd y Gweinidog ei fod yn hyderus y byddai Llywodraeth Cymru'n gallu ariannu'r costau ychwanegol a fyddai'n dod i ran AGGCC o ganlyniad i'r Bil.<sup>479</sup>

### **Y goblygiadau ariannol i reoleiddiwr y gweithlu**

446. Mae'r RIA yn amcangyfrif y ceir costau trosiannol o ryw £100,000 ynglŷn â chyflwyno GCC, gan gynnwys prosesau gweinyddol, swyddogaethau a llywodraethiant, a gwaith cyfathrebu a marchnata. Mae'r amcangyfrif hwn wedi'i seilio ar yr amcangyfrifon yn yr RIA ar gyfer [Deddf Addysg \(Cymru\) 2014](#) wrth symud oddi wrth y Cyngor Addysgu Cyffredinol at Gyngor y Gweithlu Addysg.

447. Dywedodd y Cyngor Gofal yn eu hymateb i'r ymgynghoriad nad oedd manylion cyfnod pontio GCC wedi'u pennu eto. Cydnabu'r Cyngor fod yr RIA yn nodi amryw o systemau ariannu cyfredol a fyddai'n cael eu cydlynu gan GCC, ond dywedodd "prin yw'r dystiolaeth ynglŷn â'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi'r holl gylch gwaith arfaethedig a'r costau pontio".<sup>480</sup> Yn ei thystiolaeth lafar, nododd Rhian Huws Williams o'r Cyngor Gofal fod "angen i fod yn sicr bod yr adnoddau'n gyson efo sgôp y corff newydd". Dywedodd hefyd fod angen sicrhau bod blaenoriaethau priodol yn cael eu gosod ar gyfer gwaith GCC mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, a phartneriaid eraill, a bod adnoddau'n cael eu dyrannu yn unol â nhw.<sup>481</sup>

---

<sup>478</sup> Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar gynigion ynglŷn a diwygio sut y mae'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yn cael eu rheoleiddio.

<sup>479</sup> [RISC A102 Gohebiaeth gan y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Mai 2015](#)

<sup>480</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

<sup>481</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 302\]](#), 23 Ebrill 2015

## Y goblygiadau ariannol i'r awdurdodau lleol

448. Tynnodd sawl un o'r rhanddeiliaid, gan gynnwys AGGCC, a CLILC ac ADSS Cymru, sylw at y baich ychwanegol y gallai'r gofynion ynghylch adroddiadau o dan y Bil ei osod ar yr awdurdodau lleol.<sup>482</sup>

449. Mae'r RIA yn cydnabod na fu'n bosibl amcangyfrif costau llunio adroddiadau blynyddol i'r awdurdodau lleol, na chostau cyflwyno dyletswyddau ynglŷn ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Er hynny, mae'r RIA yn dweud nad oes disgwyl i'r dyletswyddau yn y Bil o ran adroddiadau blynyddol gan yr awdurdodau lleol olygu costau trosiannol na chostau parhaus ychwanegol, gan ei bod eisoes yn ofynnol i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol lunio adroddiadau blynyddol.

450. Cydnabu CLILC ac ADSS Cymru y ddyletswydd bresennol, gan nodi y bydd yn ofynnol o dan Ddeddf 2014 i'r awdurdodau lleol lunio asesiad o'r boblogaeth ar lefel y bwrdd iechyd lleol. Nododd CLILC ac ADSS Cymru eu pryder y gallai'r gofynion newydd ynghylch adroddiadau fod yn feichus a dyblygu gwaith presennol. Tanlinellon nhw hefyd y bydd angen sgiliau ymchwil arbenigol ar gyfer y datganiad blynyddol ar y farchnad gofal cymdeithasol, a oedd yn golygu y byddai angen amser ac adnoddau arbenigol i lunio'r adroddiadau hyn.<sup>483</sup>

## Costau ychwanegol i ddarparwyr gwasanaethau

451. Mae'r RIA yn dweud mai costau trosiannol o £1.1 miliwn fydd y rhan fwyaf o'r costau a fydd yn wynebu darparwyr gwasanaethau, sef £726,300 ar gyfer integreiddio'r dull cofrestru newydd, a £240,100 i gyflwyno adroddiadau blynyddol. Mae yna £107,600 arall ar gyfer cyflwyno'r model cofrestru sydd wedi'i seilio ar wasanaethau, sy'n cynnwys rôl ehangach i'r unigolyn cyfrifol.

452. Amcangyfrifir y bydd y costau ychwanegol parhaus yn £45,880 y flwyddyn, gan adlewyrchu costau ychwanegol y fframwaith graddau ansawdd ynghyd â'r arbedion a amcangyfrifir drwy gyflwyno'r model cofrestru sydd wedi'i seilio ar wasanaethau. Mae'r RIA yn dweud bod hyn yn gyfystyr ag amcangyfrif o gost parhaus ychwanegol i bob

---

<sup>482</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

<sup>483</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

darparwr gwasanaethau o £40 y flwyddyn. Er hynny mae'r UKHCA a Fforwm Gofal Cymru wedi dweud nad oes modd rhoi amcangyfrif manwl-gywir o gwbl o'r costau trosiannol sy'n gysylltiedig â rhoi'r Bil ar waith heb fanylion ynghylch y gofynion ar adroddiadau.<sup>484</sup>

453. Mae'r asesiad cystadleuaeth yn yr RIA yn dweud bod y costau trosiannol yn debyg o greu effaith anghymesur ar ddarparwyr bach. Cafodd hyn ei atseinio gan Gyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a Bro Morgannwg, a ddywedodd:

“While there are no additional ongoing costs to providers and the CSSIW for the changes, it is noted that there will be additional transitional costs to the service providers for amending the data collection tools. This will have the biggest impact on small service providers”.<sup>485</sup>

454. Nododd yr UKHCA fod ganddyn nhw bryderon ynghylch a fyddai'r costau ychwanegol i ddarparwyr gwasanaethau yn cael eu hadlewyrchu yn y ffioedd y byddai comisiynwyr yn eu talu, a bod angen rhoi ystyriaeth i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu hariannu mewn modd cynaliadwy.<sup>486</sup> Cafodd pryderon eu codi hefyd ynghylch a fyddai'r costau ychwanegol i'r darparwyr gwasanaethau yn cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr gwasanaethau, a allai eu hatal rhag cael gwasanaethau o safon.<sup>487</sup>

455. Pan ofynnodd y Pwyllgor a ddylai'r baich rheoleiddiol ar ddarparwyr gwasanaethau gael ei gynyddu, o gofio nad oedd y costau ychwanegol parhaus i'r darparwyr gwasanaethau'n sylweddol, heblaw'r costau trosiannol, atebodd y Gweinidog:

“The cost of inspection and regulation in the sector is £34 million a year now. In hard times, and with the next Assembly, depending on the outcomes of elections and so on, but facing a potential further 10% reduction in real terms in the budget available to us, any question of spending more money on one thing can only be answered by spending less on something else. So, we have very carefully crafted the regime in the Bill not to be one that costs vast amounts of extra money, but allows

---

<sup>484</sup> [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#), [RISC11 Fforwm Gofal Cymru](#)

<sup>485</sup> [RISC35 Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a Bro Morgannwg](#)

<sup>486</sup> [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#)

<sup>487</sup> [RISC33 Cymdeithas MS Cymru](#)

regulators to work more closely together, to share information more easily together and to drive some of the costs that are currently in the system out of the system to release some money to do more of the things that we think are effective in helping to improve quality, and are effective in providing information to the public. But, myself, I cannot see how the answer to doing some of the things we would like to do in this field will be to find lots of extra money for this in the future”.<sup>488</sup>

456. Mewn llythyr at y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog y rhagwelid y byddai cost ychwanegol darparwyr gofal cymdeithasol bob blwyddyn oddeutu £50 i bob darparwr o 2017-18 ymlaen. Dywedodd mai'r disgwyl oedd y gallai'r mwyafrif o ddarparwyr ymdopi â'r gost honno heb weld effaith uniongyrchol ar gyllid eu busnes. Pe bai rheoliadau'n cael eu defnyddio i gyflwyno ffioedd am gofrestru darparwyr, dywedodd y byddai hynny'n cael ei wneud mewn modd cymesur er mwyn osgoi cosbi darparwyr bach yn annheg.<sup>489</sup>

### **Goblygiadau ariannol is-ddeddfwriaeth**

457. Mewn llythyr at y Pwyllgor, nododd y Pwyllgor Cyllid eu pryderon bod dwy ddarpariaeth yn y Bil sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth sydd heb eu costio: amddiffyn y teitl, a gorchmynion gwahardd.<sup>490</sup> Mae'r RIA yn darparu amcangyfrif o'r costau i Lywodraeth Cymru yn sgil datblygu'r is-ddeddfwriaeth, ond – oherwydd nifer y dulliau a allai gael eu defnyddio – mae'n nodi nad oes modd rhoi costiau manwl ar gyfer rhoi'r darpariaethau ar waith. Os caiff y pwerau eu defnyddio, mae'r RIA yn dweud bod y Gweinidog yn bwriadu cynnal ymgynghoriad llawn yn eu cylch a llunio dadansoddiadau o'r costau a'r buddion. Er hynny, does dim gofynion ynglŷn â hyn ar wyneb y Bil.

458. Tanlinellodd AGGCC y bydd y costau sy'n cronni o dan y Bil yn amrywio yn ôl y trefniadau manwl a fydd yn cael eu sefydlu drwy reoliadau, codau ymarfer, a pholisïau gweithredol a gweithdrefnau AGGCC eu hunain.<sup>491</sup> Nododd y Cyngor Gofal ei bod yn arbennig o

---

<sup>488</sup> [Cofnod y Trafodion \[para 116\]](#), 25 Mawrth 2015

<sup>489</sup> [RISC AI02 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Mai 2015](#)

<sup>490</sup> [RISC AI13 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2015](#)

<sup>491</sup> [RISC05 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

amllwg nad oedd RIA wedi'i wneud ynghylch cost cyflwyno gorchmynion gwahardd.<sup>492</sup>

459. Tynnodd rhanddeiliaid eraill sylw hefyd at anawsterau darogan goblygiadau ariannol Bil sy'n cynnwys cynifer o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, ond cafwyd safbwyntiau gwahanol ynghylch a oedd yr amcangyfrifon ariannol yn gadarn ai peidio. Nododd CLILC ac ADSS Cymru ei bod yn anodd asesu'r goblygiadau ariannol ar hyn o bryd,<sup>493</sup> ond dywedodd yr UKHCA eu bod nhw'n credu bod y broses o amcangyfrif cost y Bil, er ei bod yn anodd, wedi bod yn "suitably rigorous".<sup>494</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

460. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gynnal ymgynghoriad llawn a dadansoddiadau llawn o gostau a buddion y darpariaethau o ran amddiffyn y teitl a gorchmynion gwahardd os bydd yn bwriadu defnyddio'r pwerau hynny. Er hynny, mae'n rhannu barn y Pwyllgor Cyllid y dylai'r holl gostau mewn deddfwriaeth gael eu cyfrif, ni waeth a oes bwriad i ddefnyddio'r pwerau yn y fan a'r lle ai peidio.

---

<sup>492</sup> [RISC04 Cyngor Gofal Cymru](#)

<sup>493</sup> [RISC08 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

<sup>494</sup> [RISC06 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig](#)

## Atodiad A – Tystion

---

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. [Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar](#) ar wefan y Pwyllgor.

### 25 Mawrth 2015

#### Sefydliad

Mark Drakeford AC	Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil
David Pritchard	Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu'r Gweithlu, yr Is-adran Deddfwriaeth a Chefnogi Cyflawni
Kate Johnson	Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru
Mari Williams	Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

### 23 Ebrill 2015

#### Sefydliad

Stewart Blythe	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Phil Evans	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Sue Evans	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Imelda Richardson	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
David Francis	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Christopher Dunn	Voices from Care
Shelia Meadows	Cyn ddefnyddiwr gwasanaethau ac aelod o Fwrdd Cynghori Cenedlaethol AGGCC
Dan Pitt	Cyn ddefnyddiwr gwasanaethau ac aelod o Fwrdd Cynghori Cenedlaethol AGGCC
Rhian Huws Williams	Cyngor Gofal Cymru
Gerry Evans	Cyngor Gofal Cymru

**29 Ebrill 2015**

Ruth Crowder

Jim Crowe

Kieron Rees

Tim Ruscoe

Alun Thomas

Colin Angel

Melanie Minty

Kelly Andrews

Mike Payne

**Sefydliad**

Cynghrair Ail-alluogi Cymru/UNSAIN

Grŵp Cyfeirio Anabled

Cynghrair Cynhalwyr Cymru

Cynghrair Gofal Cymdeithasol a Llesiant Cymru

Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru

Cymdeithas Gofal Cartref y DU

Fforwm Gofal Cymru

GMB

GMB

**13 Mai 2015**

Sarah Rochira

Nicola Edmunds

Rosanne Palmer

John Moore

Lorraine Brannan

Pamela Cook

Kelvyn Morris

Robin Moulster

**Sefydliad**

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cynghrair Henoed Cymru

My Home Life Cymru

Grŵp ymgyrchu 'Justice for Jasmine'

Grŵp ymgyrchu 'Justice for Jasmine'

Grŵp ymgyrchu 'Justice for Jasmine'

Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain  
(Cymru)**21 Mai 2015**

Sally Holland

Hywel Dafydd

Samantha Clutton

Cecile Gwilym

Catriona Williams

Kate Chamberlain

Nia Roberts

Lin Slater

**Sefydliad**

Comisiynydd Plant Cymru

Comisiynydd Plant Cymru

Barnardo's Cymru

NSPCC Cymru

Plant yng Nghymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



Lynda Williams

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

**3 Mehefin 2015**

**Sefydliad**

Mark Drakeford AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau

Cymdeithasol, a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

David Pritchard

Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu'r Gweithlu, yr Is-  
adran Deddfwriaeth a Chefnogi Cyflawni

Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Kate Johnson

Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Mari Williams

Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

## Atodiad B – Tystiolaeth ysgrifenedig

---

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl [ymatebion ymgynghori a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol](#) yn llawn ar wefan y Pwyllgor.

<b>Sefydliad</b>	<b>Cyfeirnod</b>
Sefydliad Disability Can Do	<a href="#">RISC01</a>
Age Cymru	<a href="#">RISC02</a>
Coleg y Therapyddion Galwedigaethol	<a href="#">RISC03</a>
Cyngor Gofal Cymru	<a href="#">RISC04</a>
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	<a href="#">RISC05</a>
Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig	<a href="#">RISC06</a>
Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal	<a href="#">RISC07</a>
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	<a href="#">RISC08</a>
Cynghrair Cynhalwyr Cymru	<a href="#">RISC09</a>
Cynghrair Ail-alluogi Cymru a Chynghrair Gofal Cymdeithasol a Llesiant Cymru	<a href="#">RISC10</a>
Fforwm Gofal Cymru	<a href="#">RISC11</a>
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	<a href="#">RISC12</a>
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	<a href="#">RISC13</a>
UNSAIN a Choleg y Therapyddion Galwedigaethol	<a href="#">RISC14</a>
Cynllun Shared Lives ategi	<a href="#">RISC15</a>
Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru	<a href="#">RISC16</a>
GMB	<a href="#">RISC17</a>
Y Coleg Nyrsio Brenhinol	<a href="#">RISC18</a>
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	<a href="#">RISC19</a>

<b>Sefydliad</b>	<b>Cyfeirnod</b>
Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant	<a href="#">RISC20</a>
Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	<a href="#">RISC21</a>
Cynghrair Pensiynwyr y Gwasanaeth Sifil	<a href="#">RISC22</a>
Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi	<a href="#">RISC23</a>
Comisiynydd y Gymraeg	<a href="#">RISC24</a>
Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru	<a href="#">RISC25</a>
Sense Cymru	<a href="#">RISC26</a>
Un Llais Cymru	<a href="#">RISC27</a>
RNIB Cymru	<a href="#">RISC28</a>
Barnardo's Cymru	<a href="#">RISC29</a>
Age Cymru	<a href="#">RISC30</a>
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	<a href="#">RISC31</a>
Cynghrair Henoed Cymru	<a href="#">RISC32</a>
Multiple Sclerosis Society Cymru	<a href="#">RISC33</a>
Hawliau	<a href="#">RISC34</a>
Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a Bro Morgannwg	<a href="#">RISC35</a>
Shared Lives Plus	<a href="#">RISC36</a>
Y Groes Goch Brydeinig	<a href="#">RISC37</a>
Iechyd Cyhoeddus Cymru	<a href="#">RISC38</a>
Macmillan yng Nghymru	<a href="#">RISC39</a>
Cymdeithas Alzheimer	<a href="#">RISC40</a>
Grŵp Ymgynghori Annibynnol Cynllun Lleoli Oedolion Gorllewin Cymru	<a href="#">RISC41</a>
Yr Athro Fonesig June Clark	<a href="#">RISC42</a>
Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru	<a href="#">RISC43</a>
Leonard Cheshire Disability	<a href="#">RISC44</a>
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	<a href="#">RISC45</a>
My Home Life Cymru	<a href="#">RISC46</a>

<b>Sefydliad</b>	<b>Cyfeirnod</b>
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (Cymru)	<a href="#">RISC47</a>
Archwilydd Cyffredinol Cymru	<a href="#">RISC48</a>
Grwp ymgyrchu 'Justice for Jasmine'	<a href="#">RISC49</a>
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	<a href="#">RISC50</a>
Comisiynydd Plant Cymru	<a href="#">RISC51</a>

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor:

<b>Sefydliad</b>	<b>Cyfeirnod</b>
Cynghrair Ail-alluogi Cymru, Cynghrair Cynhalwyr Cymru a Chynghrair Gofal Cymdeithasol a Llesiant Cymru	<a href="#">RISC AI01</a>
Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil	<a href="#">RISC AI02</a>
Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru	<a href="#">RISC AI03</a>
Age Cymru	<a href="#">RISC AI04</a>
Cynghrair Henoed Cymru	<a href="#">RISC AI05</a>
Cymdeithas Brydeinig Mabwysiadu a Maethu	<a href="#">RISC AI06</a>
Y Rhwydwaith Maethu	<a href="#">RISC AI07</a>
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	<a href="#">RISC AI08</a>
Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil	<a href="#">RISC AI09</a>
Plant yng Nghymru	<a href="#">RISC AI10</a>
NSPCC Cymru	<a href="#">RISC AI11</a>
Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil	<a href="#">RISC AI12</a>
Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru	<a href="#">RISC AI13</a>